CANIADAU

Y rhai ſydd ar y

MOR O WYDR, &c.

I

FRENHIN y SAINT.

Yn DAIR RHAN:

I. Hymnau Yſprydol ar amryw Deſtynau.
II. Hymnau Sacramentaidd.
III. Caniadau Moeſol, ar amryw Feſurau ac Yſtyriaethau.

PEDWARYDD ARGRAPHIAD,
Gyd â Chwanegiad o Hymnau newyddion nad oedd yn un o'r Argraphiadau o'r blaen.

Gan W. WILLIAMS.

---

1 COR. xiv. 15.
Canaf â'r Yſpryd, a chanaf â'r Deall hefyd.

ABERHONDDU,
Argraphwyd tros yr AWDWR, gan E. EVANS, yn y *Coleg*: Lle gellir cael Argraphu pob math o Lyfrau ar Lythyren dda, am Bris gweddaidd.

M, DCC, LXXIII.

Rhai Pennillion ar Yſtyriaethau y LLYFR *hwn.*

NI ganſom am gyſtuddiau a chongcweſt Gwaed y gro's
Ac ymladd, temtaſiwnau, o'r boreu hyd y nos;
Piccellau'r Ddraig, ac Angeu, a dyfnder mawr y Bedd,
Happuſrwydd Merch y Brenhin o ſewn i'r nefol wledd.

'Run peth a ganſom yma, 'run Iechydwriaeth gu,
Ond in' gyweirio'n Telyn nes i'r Caniadau fry;
Ceiſiaſom ddilyn Allwedd Eiriolaeth marwol Glwy,
Ac ymffroſt wedi golli, i harddu 'r Gân yn fwy.

Mae'r Tafod yma 'n profi o Ddwfr y Ffynnon fawr,
Pan byddo Gorthrymderau yn curo Cnawd i lawr;
Pan bo euogrwydd Pechod yn rhoddi'n Ffydd tan draed,
Tan grynu, etto 'n neſſu mae yma at y Gwaed.

Fe genir yma gredu ac ofni yr un pryd,
Am nerth pleſerau gweigion, a'u ffieiddio etto 'nghyd;
Am gongcweſt ar elynion, ac eilwaith fel maent hwy,
Yn ddiarwybod rhyfedd yn rhoddi inni glwy.

Os ffaela'r Gwan wrth ganu yr ALELUIA o'r bla'n,
A rhoddi ei ſwn yn eon ymhlith rhai llawn o dân;
Fe all y gwanna yma a fo'n dymuno Gras,
Heb Wlithyn ar ei Dafod i roddi ei Swn i ma's.

BRITISH MUSEUM

HYMNAU DUWIOL,

A R

Amryw Yſtyriaethau.

HYMN I. *Gweddi.*

1 RHO i mi weld mai ti yw'm Hedd,
A llwyr ddifyrru ar dy Wedd;
A chymryd d' Eiriau gwerthfawr drud,
Yn unig bleſer yn y Byd.

2 Gad i mi gael dy Yſpryd pur,
Yn Gyfaill yn yr anial dir;
Fel byddo dy holl Gyfraith lym,
Yn felus ac yn hyfryd im'.

3 Does le mi wela i rannu Mryd,
Un amſer rhyngot ti a'r Byd;
Cariadau eraill aeth yn ddim,
Dy hun cai fod yn Briod im'.

4 Pan gwelech fi yn crymmu Mhen,
At ryw wrthddrychiau îs y Nen;
O dangos im' na thal yr un,
I w garu fyth ond ti dy hun.

5 O cod fi o'r pydewau i'r lan,
A gwna fi'n gadarn pan bwy'n wan;
A dangos i'r annuwiol ryw,
Na fedda i gyfaill ond fy Nuw.

6 Na fydded i'r lliſeiriant mawr,
I ſoddi 'm Henaid gwan i lawr ;
Ac na chaed Cyſtudd byth fy nhrin,
Heb ei gyſeillach ef ei hun.

7 Y ſtormydd ag wy'n myned trwy,
Fe cas hwy hun yn llawer mwy ;
Er gwanned wyf, ond yn ei rym,
Pe baent yn fwy nid ofnaf ddim.

HYMN II. *Gweddi mewn Cyſtudd.*

1 TAN y Don yr wyf yn llefain,
Mae Mynyddau ar fy Mhen,
Han ar han ſydd o Gymmylau
Duon rhyngof fi a'r Nen ;
Ni fydd rhan o'm Cnawd na'm Hyſpryd,
Tra fw'i yma fyth yn iach,
Tyred Arglwydd a datguddia
Dy hunan i mi ronyn bach.

2 Codi 'm llygaid 'rwyf i fynu,
Edrych beunydd tu a'r Nef,
Felly 'rwyf yn treulio 'r oriau,
Dim ond diſgwyl wrtho ef ;
Dagrau ac Ochneidiau trymion,
Yw fy Mywyd yn y Byd,
Dim dibenion o Riddfannau,
Oni chaf weld dy Wyneb pryd.

3 Mae fy Nghalon wedi gwywo,
Fel y ddae'r mewn ſychder mawr,
Pan na byddo cafod byfryd,
Yn diferu arni lawr ;
Mae Meddyliau i gyd mewn terfyſg,
Ac yn ddyrus iawn yn gwau,
Nid oes diben ar fy Nghyſtudd,
Ond yn unig dy fwynhau.

4 Ffynnon wyt o bob Toſturi,
Nid oes gwybod faint dy Ras,
Dy Haelioni ſydd yn cynnal,
Pob peth dan yr Awyr las :

Dal fy Yſpryd gwan i fynu,
Edrych ar y bryniau mawr,
Sydd yn pwyſo ar fy Nghalon,
Ac yn ceiſio'm dodi lawr.

Edrych ar y pair rw'i ynddo,
Nad i'r fflammiau mawr eu grym,
Sydd o'm cylch yn awr yn lloſgi,
Wneuthur drwg tragwyddol im' :
Cwilydd, gwarth, a chroeſau trymion,
Sydd yn curo arnai 'n un,
Ac nid oes a'm dal i fynu,
Ond dy Yſpryd di dy hun.

HYMN III. *DUW a Digon.*

1 OAm nerth i dreulio'm Dyddiau,
Ynghynteddoedd Tŷ fy Nhad ;
Byw ynghanol y Goleuni,
Tywyllwch obry tan fy Nhraed :
Byw heb fachlud haul un amſer,
Byw heb Gwmmwl, byw heb Boen,
Byw ar Gariad anorchfygol,
Pur y croeshoeliedig OEN.

2 Dyro olwg ar dy Haeddiant,
Golwg ar dy Deyrnas rad,
Brynwyd i mi ac a ſeliwyd,
Seliwyd i mi â dy Waed :
Rho im' gyrchu tu ag atti,
Peidio fyth a llwfrhau,
Ar fy Nhaith, ni cheiſiaf gennyt,
Ond yn unig dy fwynhau.

3 Ac ni cheiſiai Dryſor arall,
Ond tydi trw'i yn y byd ;
Rwyt ti'n ddigon byth dy hunan,
Dim ond ti a lanw'm Bryd ;
Nid oes cyſtudd fyth wna niweid,
Pan bwy'n pwyſo ar dy Rym ;
Hebot, nid oes rhwyd gan Satan,
Na wna'n rhyw fodd niweid im'.

4 Gyd a thi mi af trwy'r Fyddyn,
Gyd a thi mi af trwy'r Tân ;
Nid ofnaf ymchwydd yr *Iorddonen*,
Ond i ti fynd o fy mla'n ;
Ti yw'm Hamddiffynfa gadarn,
Ti yw Mrenhin a fy Nhad ;
Ti dy hunan oll yn unig,
Yw fy Iechydwriaeth rad.

HYMN IV. *Griddfan mewn Tywyllwch.*

1 GWLAD o Dywyllwch wyf yn trigo,
Aipht yw'r man lle rwyf yn byw,
Y mae Tywyllwch wedi'm dryfu,
Tywyllwch anorchfygol yw :
Cyfod Haul Cyfiawnder goleu,
Nawr llewyrcha yn dy Nerth,
Danfon Feddyginiaeth rafol,
Dros y Creigydd mawrion ferth.

2 Nad i bechod fy nghongcwero,
IESU nad e felly nhrin ;
Y mae Elfen yn fy Yfpryd,
Sydd a'th Gyfraith di yn un :
Hoff yw d' Eiriau, mer fydd ynddynt,
Buan doed yr amfer bydd,
Ar fy Nwydau afreolus
Iddynt hollol gario'r dydd.

3 Dwed pa bryd cai yfed Dyfroedd,
Dyfroedd gloyw fy'n iachau,
Pob rhyw bleſer wedi darfod,
Ond yn unig dy fwynhau :
Pwyfo'm Henaid ar dy Fynwes,
Edrych yn dy Wyneb llon,
Caru nes anghofio 'r Oriau,
Sy immi ar y Ddaear hon.

4 Dyddiau byrrion fydd fel Blwyddyn,
Rhyfedd faithder hyd yr Oes,
Os ymddifad o'th Gwmpeini,
Fydd fy Enaid Ddydd a Nos :

Rho

Rho i mi deimlo grym dy Gariad,
Cariad wna na ofnwyf mwy,
'R holl fwyſtfilod rheipus creulon,
Sydd yn bygwth i mi glwy.

5 Pam mae'm llygad gwag yn ſylwi,
Ar un tegan ſy'n y byd?
Nid oes yn nherfynau Natur,
Ddim ſy ddigon lanw Mryd:
Gwelai 'r Beddrod wrth ſy ochor,
Yn agor arna 'i ſafn fawr,
A'm hadeilad yn dadfeilio
Bron a ſyrthio iddo lawr.

6 Etto gwell nid wyf un gronyn,
Bywyd, Bedd, nac Angau du,
Ni ddod argraph pur dy Natur
Mewn un modd ar f' Enaid i:
Gweld dy wyneb, byw'n dy gwmpni,
Teimlo'th anorchfygol Ras,
Ar ſy meiau mawr yn unig
All yn gyfan gario 'r ma's.

HYMN VI. *Pob Peth er Daioni.*

1 TYred Arglwydd, tyr'd yn fuan,
Dim ni'm boddia tan y Ne',
Dim ond ti a ddeil ſy Yſpryd
Gwan lluddedig yn ei le;
Neb ond ti a g'od ſy Enaid
Lleſg o'r pydew du i'r lan;
Os tydi ſy'n gwneud im' ochain,
Ti'm gwnai'n llawen yn y man.

2 Hwyl ſy Enaid ſy wrth dy Ewyllys,
Fel y mynnot mae yn bod,
Oll o mewn, ac oll oddi allan
Ddigwydd immi îs y rhod:
Nawr ti 'm codi i'r lan i'r Nefoedd,
Eilwaith ti 'm goſtyngu lawr;
Mae dy Gerydd a dy Gariad,
Im' yr un Rhyfeddod mawr.

3 Tyr'd

8 Tyr'd rho Gerydd im' neu Gariad,
Yr un a fynnech ti dy hun,
Ond trwy'r cwbl cadw fy Yſpryd
Yn ſefydlog wrth dy glŷn:
Tros y bryniau gwna i mi gerdded
Tu ag adre'n ddi-naccad,
Heb yn un lle immi edrych
Ond ar Degwch Tŷ fy Nhad.

HYMN VII. *Gweddi am Breſennoldeb DUW.*

1 PAM y caiff bwyſtfilod rheipus,
Dorri 'r egin mân i lawr,
Pam caiff blodau peraidd ieuaingc
Fethu gan y ſychder mawr?
Dere â'r caſodydd hyfryd,
Sy 'n cynhyddu 'r egin grawn,
Caſod hyfryd yn y boreu,
Ac un arall y prydnhawn.

2 Goſod Babell yng wlad *Goſen*,
Dere ARGLWYDD yno dy hun,
Goſtwng o'r uchelder goleu,
Gwna dy drigfan gyd a dyn;
Trig yn *Seion*, aros yno
Lle mae'r llwythau'n dod ynghyd,
Byth na 'mad oddi wrth dy bobl,
Nes yn ulw yr elo 'r byd.

3 Blinais ar aſonydd *Babel*,
Nid oes yno ond wylo i gyd,
Llais Telynau hyfryd *Seion*
Sydd yn gyſon dynnu mryd:
Tyrd a ni yn dorf gariadus
O gaethiwed *Babel* fawr,
Ac nes bom ar fynydd *Seion*
Nad ni oſod clŷn i lawr.

4 Daccw 'r Brenhin yn ei degwch,
Wele ei Briod wrth ei glŷn,
Gwedd ei Wyneb ſy 'n rhagori
Mhell ar wedd wynebpryd dyn;

Dyma

Dyma ddydd, dydd ei ddiweddi,
Dyma 'r briodaſol wledd,
Dyma 'r dydd caiff Pererinion
Yſed o 'i dragwyddol hedd.

HYMN VIII. *DUW yn Angeu yn ddigon.*

1 O Iachawdwr pechaduriaid,
Sydd a 'r gallu yn dy law!
Rho oleuni, hwylia'm henaid
Tros y cenſor garw draw;
Gad y wawr fod o fy wyneb,
Rho fy Enaid lleſg yn rhydd,
Nes i'r Haulwen ddiſglair godi,
Tywys fi wrth y Seren ddydd.

2 A oes neb o'm holl gyfeillion
A ddaw 'n ddidaig gyd a mi?
Ac a orwedd wrth fy ochr
Obry yn y ddaear ddu;
A yw cyfaill ddim ond hynny,
Taflu dagrau, newid gwedd,
Pan bo'r pridd, a'r clai, a'r cerrig
Arnai 'n cwympo yn y bedd.

3 O ynfydrwydd! O ffolineb!
I mi erioed i roddi mryd
Ar un tegan, ar un pleſer
Welais i etto yn y byd;
Y mae 'r byd yn myned heibio
A'i deganau o bob rhyw,
Tan y Nef ni thal ei garu
Wrthddrych arall ond fy Nuw.

HYMN IX. *Dydd y Farn.*

1 W FLE yn dyſod ar y cwmmwl,
Mawr yw 'r enw ſy iddo nawr,
Ar ei fraich ac ar ei forddwyd
Y ſgrifennwyd ef i lawr;
Haleluia, Haleluia, Haleluia,
Groeſo, groeſo addfwyn Oen.

2 Mil

2 Mil o filoedd, myrdd myrddiynau
O gwmpeini hardd eu gwedd,
Welai draw yn codi fynu
I w gyfarfod ef o'r bedd :
Darfu galar, dafu galar, &c.
Dyma lechydwriaeth lawn.

3 Daccw'r Brenhin mawr ei hunan
Yn adnabod bob yr un,
Daccw bawb yn tynnu fynu
Yn union atto ef ei hun ;
Cariad perffaith, cariad perffaith, &c.
Bellach cai deyrnafu byth.

4 Nid oes yno gofio beiau,
Dim ond llawn faddeuant rhad,
Poenau 'r Groes, a grym y Cariad,
A rhinweddau maith y Gwa'd ;
Darfu ofn, darfu ofn, &c.
Daeth llawenydd yn ei le.

5 Dewch ymlaen a dewch yn eon,
Fendigedig blant fy Nhad,
Dewch meddiannwch yr ardaloedd
Brynwyd i chwi â fy Ngwa'd ;
Dewch yn llawen, &c.
Rhodd yw hon cyn felio 'r byd.

6 Dewch derbyniwch yma goron
Bur anniflannedig wiw,
Dim yn unig ond o gariad
Roddwyd i chwi gan eich Duw ;
Tragwyddoldeb, &c.
Cyd a hynny peru 'ch braint.

7 Buoch gyd a mi yn fy ngofid,
Gyd a mi yn fy mhoenau gyd,
Buoch yn gyfeillion ffyddlon
I'm gwradwyddiad yn y byd ;
Yfwch bellach, &c.
Loyw win yn nhŷ fy Nhad.

HYMN

HYMN X. *Gweddi am Nerth i fyned trwy Anialwch y Byd.*

1 ARGLWYDD arwain trwy'r anialwch
Fi Bererin gwael ei wedd,
Nad oes ynnof nerth na bywyd,
Fel yn gorwedd yn y bedd;
Hollalluog, Hollalluog, *&c.*
Ydyw 'r un a'm cwyd i'r lan.

2 Myfi grwydrais hir flynyddau
Ac heb weled codi 'r wawr,
Anobeithiais heb dy allu
Ddod o'r anial dir yn awr;
Dere dy hunan, *&c.*
Dyna 'r pryd y dof i maes.

3 Rho 'r golofn dân i'm harwain,
A'r golofn niwl y dydd,
Dal fi pan bwy 'n teithio'r mannau
Geirwon yn fy ffordd y fydd;
Rho i mi Fanna, *&c.*
Fel na bwyf i lwfrhau.

4 Agor y ffynhonnau melus,
Sydd yn tarddu o'r graig i maes,
'Rhyd yr anial mawr canlyned
Afon Iechydwriaeth Gras;
Rho i mi hynny, *&c.*
Dim i mi ond dy fwynhau.

5 Pan bwy 'n myned trwy'r *Iorddonen*,
Angeu creulon yn ei rym,
Ti eft trwyddi gynt dy hunan,
Pam yr ofnaf bellach ddim?
Buddugoliaeth, *&c.*
Gwna i mi waeddi yn y llif.

6 Mi ymddirieda yn dy allu,
Mawr yw'r gwaith a wneft erioed,
Ti ge'ft Angeu, ti ge'ft Uffern,
Ti ge'ft Satan tan dy droed;
Pen *Calfaria*, *&c.*
Nac aed hwnnw byth o'm cof.

HYMN

HYMN XI. *Tragwyddoldeb.*

1 DYMA'r byd, y mae taranau,
Melfi a chenllyſg, dacar gryn;
Yn y wlad rwy'n myned iddi
Nis cai weled yn 'r un;
Mynych cair cyſtuddiau yma,
Rhagluniaethau chwerwon iawn,
Tonn ar ol y llall yn rhuo
O foreuddydd hyd brydnhawn.

2 Diſgwyl pethau gwych i ddyfod,
Croes i hynny maent yn dod,
Meddwl foru daw gorfoledd,
Foru 'r triſtwch mwya erio'd;
Meddwl byw ac etto marw
Yw 'r lleferydd tan fy mron,
Bob yn ronyn mi rof ffarwel,
Ffarwel glân i'r ddaear hon.

3 Trof fy llygaid gylch o gwmpas,
Ble cai bleſer tan yr haul?
Os a'i garu un creadur,
Megis pe na b'ai o'i ail,
Hwnnw yn fuan ddiangc arnaf,
Neu myfinnau arno ef,
Ni chai bleſer gyd-ymgerddo
A fi yn un lle tan y Nef.

4 Tragwyddoldeb mawr yw d' enw,
Ti mae'n debyg yw fy lle,
Huriwr un diwrnod ydwyf,
Fry mae 'm cartre yn y Ne';
Mae 'm diwrnod bron a gorphen,
Mae fy haul bron mynd i lawr,
Mae pob awel yn fy chwythu
Tu a'r Tragwyddoldeb mawr.

5 'Rwyf yn fodlon iawn i 'mado,
Trefna 'r awr, a threfna 'r man,
Ond yn ymchwydd yr *Iorddonen*,
Dal fy Yſpryd lleſg i'r lan;

Nad

Nad ſi foddi tan y tonnau,
Pan bo angeu yn fawr ei rym,
'Mafael ynnof yn dy freichiau,
Nad i'm henaid ofni dim.

6 Pam ymafael triſtwch ynnof
Wrth fyfyrio 'mado â 'r byd?
Pechod a chyſtuddiau duon
Welais ynddo oll i gyd;
Ni ddaeth hanner fy niſgwyliad,
Yma etto erioed i ben,
O na wnaethwn yn foreuach
Fy ngartreſle uwch y nen!

7 Mae nghyfeillion wedi myned
Draw yn lluoedd o fy mla'n,
Rhai ſy'n mynd trwy ddyffryn *Bacca*,
Gyd a mi i *Salem* lân;
Yn y dyffryn tywyll garw,
Ffydd i'r lan a'u daliodd hwy,
Mae 'r addewid lawn i minnau,
Pam yr ofna 'm henaid mwy?

XII. SALM XLVI.

1 DUW yw fy nerth a'm noddfa lawn,
Mewn cyfyngderau ereulon iawn,
Pan galwom arno mae gerllaw;
Pe ai'r mynyddoedd mwya i'r môr,
Pe chwalai 'r ddaear fawr a'i ſtor,
Ni ofnai'm henaid i ddim braw.

2 A phe deu'r moroedd tros y byd,
Yn genllif garw coch ei gyd,
Nes ſoddi'r bryniau fel o'r bla'n:
Mae afon bur i lawenhau,
A'i ffrydiau ddinas Duw 'n ddi-drai,
Preſwylfa ei ſaint, a'i babell lân.

3 A Duw ſydd yno yn eu plith,
Ni ſgogir un o honynt byth,

Fe'u cymmorth hwy yn foreu iawn;
Y boreu byddo mwy nâ mwy
O bob gwaſgfeuon arnynt hwy,
Cair gweld ei 'ddewid ef yn llawn.

4 Terfyſgodd cenhedlaethau 'r byd,
A brenhiniaethau aeth yn llid,
Yn erbyn ei Enneiniog ef;
Ing, cyfyng-gyngor, llewygfau,
Ac arſwyd ddaeth ar gedyrn rai,
Y ddaear doddodd gan ei lef.

5 Arglwydd y lluoedd ſydd o'n plaid,
Duw *Iago*'n gymmorth in' wrth raid,
Gobeithiwn ynddo byth am hyn;
Dewch, 'drychwch ar ei ryfedd waith,
Fath ddeſtryw wnaeth trwy' r ddaear faith,
Mae'n ſiwr bydd yn Amddiffyn in'.

6 Fe wnaeth ryfeloedd mawr eu llid
I beidio hyd eithafoedd byd;
Y cedyrn mawr dychryna o'i fla'n,
Fe ddryllia'r bwa dur yn glau,
Fe dyrr y waywffon yn ddau,
Fe lyſg eu holl gerbydau â thân.

HYMN XIII. *Ochenaid.*

1 Y Mae gwres o fewn ſy mynwes,
Y mae cyſtudd tan ſy mron,
Ac nid oes a'm dod yn llawen
Gylch o ddautu'r ddaear hon;
Rhaid i mi ſod yn dy gwmpni,
Rhaid i mi gael gweld dy wedd,
Ynte ni wnai ſyth ond nychu
Tra ſwy 'r ochr yma i'r bedd.

2 Mae pob triſtwch gyd a 'i gilydd,
Pob cyſtuddiau yn gyttun,
Heb yſtyried wanned ydwyf
Oll yn curo arna'i 'n un;
Teithio i'r lan yn erbyn tylau,
Meddwl hefyd ar bob bryn,

Nad

Nad rhaid cerdded cyn im' orphwys,
Bellach byth o'r llwybr hyn.

3 Ond fy mhrofiad fydd yn tyftio
Er nad ydwyf fi ond gwan,
Fod rhaid immi etto ddringo
'R un rhyw greigydd ferth i'r lan,
[illegible] bach a chanu,
[illegible] oll ei gid,
Yn y man ochneidio [illegible]
Fydd fy nghyflwr tr[illegible]

4 Does ond cariad a gongcwera,
Oll fydd ynnwi nawr yn ddrwg,
Dy wên yn unig wna im' ganu,
Torri nghalon wna dy ŵg:
Fy nghof, fy neall, a'm fynhwyrau,
Sydd ymron llewygu eu gid;
Ac yn ffaelu cadw eu trefn,
Eifiau gweld dy wyneb pryd.

5 O derchafa 'm henaid egwan!
Y mae bellach yn hwyrhau,
Hir yw 'r amfer i ochneidio,
Gwna fi o'r diwedd lawenhau:
Moroedd mawr a bryniau lawer,
Pellder annioddefol fy;
Ac anialwch maith digymmar,
Rhyngof a'm Hanwylyd cu.

6 Poen fy nghalon yw o gariad,
Eftron nid yw 'n deall dim,
Gair fy Mhriod laefa mhoenau,
Ei eiriau fy 'n effeithiol im';
Lladd yn ddiftaw mae ei gariad,
Heb gael gweld ei nefol wedd,
Mae eiddigedd yn ei gwmpni,
Sydd yn greulon fel y bedd.

7 O na b'ai rhyw ddyfais hyfryd,
Tan yr wybr lâs ei gid,

Allai gadw'm henaid egwan,
Yn dy gwmpni di o hyd;
Byth ni phrifwn doed a ddelo,
Beth ddigwyddo îs y nen,
Ar dy fynwes dêg berffeithlan,
Byth y pwyfwn i fy mhen.

8 O forenddydd y briodas!
Gwynfyd wele'r ddedwydd [illegible]
Gweld wynebpryd [illegible]
Clywed llais [illegible] fawr;
Awn tan[illegible] y moroedd
Meiſtion tu a 'r hyfryd wlad,
Ac anghofiwn hen gariadau,
Gwag bleſerau tŷ fy nhad.

HYMN XIV. *Ymddattod oddi wrth y Creaduriaid.*

1 A Raid i groeſau fyth yn llyn
I ganlyn f' enaid bant a bryn?
Rhyw beth bob awr i'm gwneud yn brudd;
Rhyw beth i ſoddi'm henaid gwan,
Yn union pan bo 'm godi i'r lan,
Trwy gydol faith y nos a'r dydd.

2 Mae 'n debyg nad oes Nef i'w gael,
Mewn un rhyw fath greadur gwael,
Na man o'r byd i wneud fy nyth:
Y cyfiwr hwyf am ei fwynhau,
Yn dawel heb gyſtuddiau a gwae,
'Does llonydd i mi yno fyth.

3 Os ydwyt am fy nhorri lawr,
O dwrf a dwndwr daear fawr,
A'm rhoddi i orwedd yn y bedd?
O danfon waedd ar foreu ddydd,
O'm rhwymau mawr i'm rhoddi'n rhydd,
I fyw byth bellach yn dy hedd.

4 Mae brodyr immi aeth ymla'n,
Trwy ddyfnach dw'r a phoethach tân,

Ac

Ac etto gorchfygaſant hwy :
'Dyw'r dyfroedd euthum trwyddynt ddim,
Mewn lled a dyfder, nerth a grym,
Pa ham yr ofnaf finneu mwy ?

5 Fy enaid cred byth yn dy Dduw,
Na fydd anfodlon tra f'ech byw,
Yr ydwyt beunydd yn noſſau
I wlad mae cariad fel y mor,
Yn uno'r ſaint a'r ſeraph gôr,
Tragwyddol gydſain bur ddidrai.

6 'Dwi nabod dim o'r neſol le,
Ond gwynfyd a ſ'ai ynddo ſe,
Rwi'n caru pawb o fewn y wlad ;
Y dymmer neſol fwyn ſydd fry,
Yn awr ddymunwn gennyf fi,
Fy nghartref ydyw ty fy Nhad.

7 Rwi nawr bron at derfynau 'r wlad,
Nad yw teganau cig a gwa'd,
A gallu demtio'm llygaid mwy :
Mae gwedd y rhai yr af i'w plith,
Fel Haul yn ogoneddus byth,
Ond arall yw eu cariad hwy.

HYMN XV. *DUW ei hun yn Angeu.*

1 MAE'r anialwch wedi'm blino,
Chwant ſydd arnaf weld y tir
Roddwyd immi gan fy Arglwydd
Cadarn mewn addewid wir ;
Gwlad o oleuni heb dywyllweh,
Gwlad o gariad heb ddim trai,
Gwlad heb hawddfyd na phleſerau
Ond yn unig ei fwynhau.

2 Podd yr af i trwy'r *Iorddonen*,
Oni ddeui di dy hun ?
Yno i dorri grym y tonnau,
Ac i ſefyll wrth fy nghlyn :

Dal fy mhen i'r lan yn gadarn,
Pan bo angeu yn fawr ei rym,
Pledia yn eon yn ei wyneb,
Pan na bwyf yn gallu dim.

3 Nad fy mhechod i'm congcwero,
Tra fwyf ar y ddae'r yn byw,
Nad e'm rhwyftro gymdeithafu
Yn fynych mynych â fy Nuw:
Nad ei fod yn-awr marwolaeth
Megis mynydd mawr o blwm,
Pan bwyf am ddihengu fynu
I fy ngwafgu lawr yn drwm.

4 'Run yw Meichiau, a fy Mhrynwr,
A fy Mrenhin, a fy Nuw,
Od oes neb a'm gwna yn ddedwydd
Efe ei hun yn unig yw:
Nid yw'r holl greaduriaid ifod,
O ba enwau maent eu gid,
Yn abl rhoddi dim efmwythder,
Pe baent yn cyttuno 'nghyd.

5 Daccw'r un fydd a thofturi,
Fe fu yn hongian ar y groes,
Fe fu'n gruddfan tan dywyllwch,
Tywyllwch dudew fel y nos:
Mil o boenau wafgodd arno,
Etto darfu iddo eu dwyn,
Aeth i garchar gan yr angeu,
Ran o dridieu er fy mwyn.

6 On' chaf fywyd ynddo ei hunan,
Darfu im' obeithio mwy;
Nid oes dim ond gwaed ei galon,
All yn unig wella nghlwy:
Mawr yw'm poen heb gael ei gwmpni
Mwy dymunol yw nâ'r byd,
Rhofyn *Saron* yw f' Anwylyd,
'Does ond tegwch ynddo 'i gyd.

HYMN XVI. *Criſt Craig yr Oeſoedd.*

1 MI deithiais ran o'r anial maith,
'Dwy'n deall pellder pen fy nhaith,
Mewn gwledydd ſychion, dw'r nid o'dd;
Yn awr rwi'n diſgwyl foreu a nawn,
O'r nefoedd ddw'r a ſwppiau grawn,
Wna'm henaid egwan wrth ei fodd.

2 O'r graig y mae'n dilifo ma's,
Yn afon ddiſglair loyw las,
Sef craig yr oeſoedd gadarn yw:
A thyma'r man y gwnaf fy lle,
Tan gyſgod tawel furiau'r ne',
Lle caf ddiddanwch tra fwi byw.

3 'Rwi'n coſio gair fy Iesu mawr
Y dea'r Diddanydd atta i lawr,
Na chawn i farw o driſtwch mwy;
O Dduw cyflawna'th air i ben,
Rho im' Arweinydd ſi y nen,
Ddangoſo'r ffordd; iachao nghlwy.

4 Mae immi elynion o bob gradd,
A'r lleia'n abl ſydd i'm lladd,
Rwi'n ofni'r gelyn ſo heb rym;
Cryfha fy ffydd i edrych fry,
I weld y lluoedd ſydd o'm tu,
Ac nad yw fy ngelynion ddim.

5 A raid i gyſtudd garw'r gro's,
I ganlyn fy yſpryd ddydd a nos,
Os rhaid gwna fi yn fodlon iawn;
Tan ganu gwna fi fynd ymla'n,
Sef canu yn y dw'r a'r tân,
O foreu mywyd hyd brydnhawn.

6 Rwi'n blino gan fy chwantau blin,
Gorthrymwyr oll i'm henaid yn',
Rwi'n diſgwyl cyfan wir ryddhad:
A raid mynd dros y cenſor mawr,
Cyndeiriog donnau angeu i lawr,
Cyn gweled hyfryd dŷ fy Nhad.

7 Yn ymchwydd yr *Iorddonen* gref,
Dal i' enaid afael ynddo ef,
Mae'r tonnau'n fawrion iawn en grym,
Af trwyddynt er nad wyf ond wan,
Os cedwi di fy mhen i'r lan,
Fydd tonnau mawrion immi ddim.

HYMN XVII. *Eiddigedd.*

1 GWrando nghwyn Tywyſog heddwch,
Mae eiddigedd ynawi 'n llawn;
Ofni nad wyt yn fy ngharu,
Ngharu, yn ffyddlon ac yn iawn;
Nid oes un rhyw ifeddyginiaeth,
Rhagddo bellach all iachau,
Ond cael gweled gwedd dy wyneb,
A chael hefyd dy fwynhau.

2 Pan y b'ech yn cuddio d' wyneb,
Y mae ofnau o bob gradd,
O tu mewn ac o tu allan,
Gyd a eu gilydd bron fy lladd;
Gwaſgu ar fy enaid gwirion,
Ffaelu ſymmud troed o'r man;
Diau derfydd fyth am danaf
Oni chodi di fi i'r lan.

3 Mae rhyw foroedd o drugaredd,
Arglwydd ynnot ti dy hun,
Anherfynol a thragwyddol
Yw dy gariad at y dyn:
Mewn cyfyngder buoſt fyddlon,
Yno rho'ſt dy nerth i mi's,
Yn y dyfnder mawr 'rwyf ſunnau,
Nawr yn llefain am dy ras.

4 Wrth y beddrod 'rwyf yn gwaeddi,
Mae'n agored immi nawr,
Nid oes im' ond rhai munudau,
Cyn rhaid gorwedd yno lawr:

Nid

Nid oes arnaf ofn angeu,
Os ti ſefi wrth fy nghlyn,
Fe ſu 'r bedd a'i ddychrynïadau
Gynt yn wely i ti dy hun.

5 Derfydd i mi garu ac ofni,
Dim o'r nefoedd fawr i'r byd,
Pan y caffwi'r olwg gyntaf,
Decced yw dy wynebpryd;
Gwedd dy wyneb fy'n dwyn bywyd,
Gwedd dy wyneb fy'n dwyn hedd,
Gwedd dy wyneb ydyw'r cwbl
Yma a thu draw i'r bedd.

HYMN XVIII. *Grym Cariad.*

1 MAE fy nghalon am ehedeg
Unwaith etto fynu fry,
I gael profi 'r hen gymdeithas
Gynt fu rhyngof a thydi;
Mi gyrwydrais anial garw
Heb un gradd o oleu 'r dydd;
Un wreichionen o dy gariad
Wna fy rhwymau oll yn rhydd.

2 Ni raid immi guddio 'th gariad,
Fel cariadau gwag y byd,
Mi gyhoedda o flaen y werin,
Dy fod wedi dwyn fy mryd;
Mae dy enw mawr mor werthfawr,
Ni chwilyddiaf hono mwy,
Mae dy gariad pur mor gryfed,
Anorchfygol yw ei glwy.

3 Pe b'ai 'r holl gyſtuddiau mwyaf,
Yn gwaſgu ar fy enaid gwan,
A'r gelynion oll yn rhwyſtro
'R neſol dân i godi i'r lan;
Pan ddechreuo nid oes terfyn,
Cadarn natur cariad yw,
Sydd yn ddiſtaw fynd a'r enaid,
O hono ei hun i fynwes Duw.

4 Mae fy nghalon yn 'ſgrifennu,
Ac yn adrodd wrthi ei hun,
Enw hyfryd a rhinweddol
Duw yn gwiſgo natur dyn;
Iechydwriaeth, Iechydwriaeth,
Iechydwriaeth werthfawr iawn,
Ydyw enw fy Ngwaredwr,
Gennyf foreu a phrydnhawn.

HYMN. XIX. *Cyfiawnder a Nerth.*

1 OFER iawn mae'r nef ei hunan
Yn fy ngheiſio i oll ei gid,
Tra ſo hanner lawn fy nghalon,
Mewn rhyw eulun ſy 'n y byd;
Natur wrthryfelgar gyndyn,
Yn fy nal i yma yn dynn,
Tra ſo 'm henaid gwan am hedeg
Fynu'n llwyr i *Seion* fryn.

2 Ni all ympryd triſt a gweddi,
Fynd yn lân â mi i'r lan,
Nac un cylch o ddyledſwyddau,
Nghodi ronyn bach o'r man;
Grym y llygtedd ſy'n fy nghalon,
Cryf ac anorchfygol yw,
Nid oes fythoedd a'i gorchfyga,
Ond yn unig nerth fy Nuw.

3 Pe b'ai boſibl i mi dreulio
'R graig wrth roi fy ngliniau lawr,
Gwneud afonydd o fy nagrau,
Llanw hefyd foroedd mawr;
Rhannu tryſor y mynyddau
Rhwng y tlodion ym mhob man;
Anhaeddiannol eilwaith fyddwn
Fyth o gael fy nghodi i'r lan.

4 Rhed fy enaid i'w gyfeillach,
Cynta man y caffech E',
Triſt yw'm hyſpryd wrth ymoſyn
Un creadur yn ei le;

Blino

Blino edrych gylch o gwmpas,
Nid oes meddyg ar y don,
'N unig ond tydi dy hunan,
Wella 'r archoll tan fy mron.

5 Llawn a llawen, iach a diddig,
Wyf pan bwyf yn teimlo th hedd,
Ond meddylgar iawn ac athrift
Pan bwi'n ffaelu gweld dy wedd;
'Rwi'n diflafu ar y cwbl
Pan na welwi'th wyneb cu,
Ond mae'm bywyd im' yn nefoedd,
Pan bwy'n agos attat ti.

HYMN XX. *Golwg ar y Wlad.*

1 DYN dieithr ydwyf yma,
Draw mae'm ganedigol wlad,
Draw i'r moroedd mawr tembeftlog,
Ac o fewn i'r *Ganaan* rad;
Stormydd hir o demtafiwnau,
Nghurodd i yn llyn mor bell,
Tyred ddeheu-wynt pereiddiaf
Chwyth fi i'r *Baradwys* gwell.

2 Ac er gwaetha grym y tonnau
Sydd yn curo o bob tu,
Dof trwy'r ftorom, dof trwy'r gwyntoedd,
Ryw bryd i'r *Baradwys* fry;
Gair fy Nuw fy'n drech na'r moroedd,
Gair fy Nuw fy 'n drech na'r donn,
Ac mi anturiaf oll a feddwyf
Fythoedd i'r addewid hon.

3 Ac ni fyddai'n hir cyn gorphen,
Dim yn hir cyn landio fry;
Pob gorchymyn, pob bygwthiad,
Pob addewid fydd o'm tu:
Nid y dyfnder fydd fy nhrigfan,
Gwn y deuaf yn y man,
'Nol fy ngolchi gan y tonnau,
Yn ddihangol iawn i'r lan.

4 'Rwyſi 'n dechreu teimlo eiſioes
Ber aroglau 'r gwledydd draw,
Gyd a 'r awel bur yn hedeg,
Diau fod y wlad gerllaw;
Dere 'r tir dymunol hyſryd,
Dere 'r ardal ſydd heb drai,
Dy bleſerau o bob rhywiau,
Gad im' bellach eu mwynhau.

HYMN XXI. *DUW ei hun yn ddigon.*

1 NAWR bodlon wyf can's digon yw,
Dy fod yn eiddo i mi fy Nuw;
Yn t'wynnu yn dy wynebpryd,
Mae mwy na holl dryſorau'r byd.

2 Cymmerant hwy, ſawl fo am gael
Mwynhau o'u holl bleſerau gwael;
Ond boed fy awydd tra fwyf byw,
Am weld dy wyneb di fy Nuw.

3 Dy gariad ſy arnaf eiſiau o hyd,
Dy gariad wi'n ddymuno gyd;
Fy mwyd a'm diod oll yn wir,
A'm iechyd yw dy gariad pur.

4 Y nef ei hun yw'r man b'ech ti,
A lle na b'ech yw uffern ddu;
Am hyn yn holl droiadau'r llawr
Boed f' enaid gyd a'm Iesu mawr.

5 Pan gallwyf gredu ond yn wan,
Dy fod dy hunan i mi'n rhan;
Mae hyn yn troi fy mhoen o'r bron,
Yn rhyw lawenydd tan fy mron.

6 Pan bwyf yn wan gwna hyn fi'n gryf,
A phan bwy'n ofni gwna fi 'n hyf;
Pan byddwy'n rhwym ſe'm gwna yn rhydd,
Fath rinwedd yn dy gariad ſydd.

HYMN XXII. *IESU ei hunan.*

1 FY Nuw, fy Nuw, fy Nhryſor drud,
A'm hunig Gyſur yn y byd;
O dwed pa le a ph'odd y mae,
Im' wedd dy wynebpryd fwynhau.

2 Mae nymuniadau yma yn un,
Ti yw fy mhleſer mawr dy hun;
Os cuddi d'wyneb O fy Nuw!
Darfu 'm hyfrydwch o bob rhyw.

3 A phe dihangai ſer y Ne',
Pe hedai 'r ddaear fawr o'i lle,
Fy holl happuſrwydd Iesu cu
Fyddai 'n terfynu ynnot ti.

4 Nid dynion a phleſerau'r byd,
Sy'n hanner abl llanw mryd;
Mae'r cyfan ynnot ti'n ddidrai,
Ag fy arnai eiſiau ei fwynhau.

5 Rwi'n diſgwyl dy leferydd glân,
Sy'n rhoi fy nghalon leſg ar dân;
Un rhan o'th enw pur pe cawn,
A'm dodai oll yn llawen iawn.

HYMN XXIII. *Duw i'w fwynhau yw'r cwbl.*

1 OH n' allwn godi'm henaid gwan
I'r nefol baradwyſaidd fan,
Lle cawn i weld mewn munud awr,
Fwy na thryſorau'r ddaear fawr.

2 Mae golwg arnat ti fy Nuw,
Yn dryſor ddigon tra fwyf byw;
Mae golwg arnat ti dy hun
Yn dweud mor ſalw ydyw dyn.

3 Pan caffwyf weld dy wynebpryd,
Mae'n darfod frenhiniaethau'r byd;
Pob enw tan yr awyr las,
Sy mynd yn ddim 'ngoleuni'th ras.

4 O Frenhin mawr tragwyddol cun,
Wyt oll yn oll, wyt oll yn un ;
Rho immi weld dy hyfryd wedd,
Ni cheiſiaf fwy tu yma 'r bedd.

HYMN XXIV. *Duw ei hun yw pob Llawenydd.*

1 O Arglwydd pa fath bleſer ſy
Yn awr gan y nefolaidd lu ?
Pan mae diferion bychain iawn,
Yn rhoddi 'n henaid lleſg yn llawn,

2 Pan byddom ni yn cael mwynhad,
O'r pethau brynwyd â dy wa'd,
Mae'r amſer yn mynd heibio'n glau
Tan ganu a than lawenhau.

3 Neu, ond os troi dy wyneb pur,
A chuddio'r haul ddiſgleirwen glir ;
Mae galar, griddfan triſt a gwae,
Yn cario'r dydd ar lawenhau.

4 O beth i'r llall cyrwydro wnawn,
Heb gael llonyddwch foreu a nawn :
Rho Iesu 'th gariad inni 'n rhodd,
Ac yna bydd.wn wrth ein bodd.

HYMN XXV. *Criſt Rhoſyn y Greadigaeth.*

1 NID yw'r haul a'i faith ſendithion
Bywyd hardd y ddaear las,
Sy'n llawenu pob creadur
Yn enwedig llyſiau'r ma's ;
'Dyw ei harddwch a'i oleuni,
A'i effeithiau ar y llawr,
Onid dim wrth eu cymmaru
A rhinweddau Iesu mawr.

2 Bynnag beth ſydd mewn creadur,
Fry neu yma îs y rhod ;
Neu beth bynna a ddychmygwyd
Mewn creaduriaid enwog fod ;

Saint,

Saint, merthyron a phrophwydi,
Draw o ddechreu i ddiwedd byd;
Can mil mwy o bethau'n rhagor
Sydd yn Iesu mawr ynghyd.

3 Holl angylion nef gwmpaſog,
Sydd o niſer gwlith y wawr,
Pe b'ai eu tegwch a'u rhinweddau,
Oll mewn un rhyw angel mawr;
Tywylla'i harddwch mewn munudyn
Toddai ei ddoniau maith yn un,
Wrth ymddangos i gymmaru
A'r hwn a wiſgodd natur dyn.

4 O diſtewa nghalon ynfyd!
Na chais wrthddrych arall mwy;
Digon, mwy na digon ydyw
A ddioddefodd farwol glwy:
Ffarwel ddaear a'i gwrthddrychiau,
Nid wyt ond y twyll ei gid,
Uwch yr wybren mae 'r Blaguryn
Dâl rhoi arno'm ſerch a'm bryd.

HYMN XXVI. *Pledio am Breſennoldeb Duw trwy Farwolaeth Criſt.*

1 DUW achub fi er mwyn y gwa'd,
A'r clwyſau ſydd yn dwend iachad;
Yr Oen yr hwn i brynu dyn,
Madawodd a'i gwmpeini ei hun.

2 O gariad heb derfynau 'n bod!
Uwch cyrraedd meddwl neb erio'd;
I achub hil fyrthiedig ddyn,
Ddugodd ei fywyd ef ei hun.

3 O bechod cymmaint yw dy bwys,
Rhoi Brenhin nefoedd tan ei grwys!
Aç i roi orwedd ar y llawr,
I chwyſu'r gwaed yn ddafnau mawr.

4 Ei fraich ſy'n dal y ddaear ddu,
A holl golofnau 'r nefoedd fry;

Er maint eu pwys, cymmaint ei rym,
O tano i gyd ni chwyfodd ddim !

5 Ond tan y pwys o bechod drud,
Budreddi holl gredinwyr byd ;
Cwympodd a chwyfodd gan y loes,
Ac yna marw ar y groes.

6 Duw boed dy gwymp yn godiad im,
A'th wendid yn rhyfeddol rym ;
Dy angeu 'n fywyd im' dilith,
A'th boenus groes yn goron byth.

7 O rho im' brawf o'th gariad cu,
Neu dwg fi 'w brofi fynu fry :
'Does arall ddim mewn anial daith,
A'm dal dan feichiau fy mor faith.

HYMN XXVII. *Y Gwahaniaeth rhwng Dacar a Nef.*

1 FY ffiol yma fydd yn llawn
O ddyfroedd *Mara* chwerwon iawn ;
Ond gofid yn y nefol dir
A lyngcir gan lawenydd pur.

2 'Dyw cariad yma yn uwcha man,
Ond megis rhyw ddymuniad gwan ;
Ond y wreichionen leiaf fy
Yn wen-fflam yn y nefoedd fry.

3 Llawenydd mwya yma gawn,
Sydd fel rhyw ddafnau bychain iawn ;
Ond yno yn foroedd mawr di-drai,
Yn boddi 'r etholedig rai.

4 Fy ffydd fy'n ffaelu gweld yn glir,
Ond yno try yn olwg bur :
Fy ngobaith am y nefol wlad,
A lyngcir yno mewn mwynhad.

5 Briwfionyw yw fy rhan i nawr,
Ond yno gwledd dragwyddol fawr ;
Fy mawl fydd yma 'n oer a fyth,
Mi ganaf yno heb flino byth.

6 Cyſgodau'r hwyr yn t'wynnu ſy,
A ffoant ffwrdd yn *Seion* fry;
Heb lenn y caf ei weled of,
Wyneb yn wyneb yn y nef.

HYMN XXVIII. *Pob peth yn cyfnewid ond* CRIST.

1 FE dderfydd y llyſiau ſydd aml o ryw,
Y blodau arogledd a llonwedd eu lliw;
Eu tegwch a wywa, ant eilwaith i'w lle,
Ond pery hawddgarwch Tywyſog y ne'.

2 A glaſwellt yw'r bobl, ſe dderfydd pob nn,
Y trawſion a'r cedyrn, a'r llawd yn gytun;
Cyfnewid eu tegwch, ſalwineb i'w lle,
Ond byth ni chyfnewid mo Frenhin y ne'.

3 Daw triſtwch i newid llawenydd rhyw rai,
Yn lle cyflawnderau rhyw gulni a gwae:
Am iechyd a hawddfyd, cleſydau'n eu lle,
Ond byth ni chyfnewid Tywyſog y ne'.

4 Am hynny mi garaf fy Mhriod tr'wyf byw,
Nas rhedo ſy nghalon ar greadur anwiw;
Mi gwelaf yn llanw yr eiſiau 'mhob lle,
A thyma ragoriaeth Tywyſog y ne'.

5 Fe beru yn gywir mewn triſtwch a thrai,
Yn gyfaill pur ffyddlon pan ballo pob rhai;
Fe beru yn angeu, ſe'm cymmer i dre',
Mi gara 'n dragywydd Dywyſog y ne'.

HYMN XXIX. *CRIST yn Angeu.*

1 COFIA f'enaid cyn it dreulio
D'oriau gwerthfawr yn y byd,
Cyn ehedeg ffwrdd oddi yma,
Pa un a ge'ſt y tryſor drud;
Ym mhwy ardal bydd fy lletty,
Fath bryd hynny ſydd fy ngwedd,
P'un ai llawen neu cyſtuddiol
Fyddaf y tu draw i'r bedd?

2 Pan bo 'r llygaid yma yn t'wyllu,
Yn eu pyllau 'n llechu lawr,
Troi oddi amgylch wrth ymdrechu
A galluoedd angeu mawr ;
P'odd dioddefaf y fath gyſtudd ?
Pwy adfera 'r colled hyn ?
Oni chaf guddio mhen yng nghlwyſau
'R Oen ſu ar *Galfaria* fryn.

3 Iesu hawddgar rwi'n dy ddewis,
Nerth i ddilyn ol dy dro'd,
Yna caiff fy enaid hedeg
I'r happuſrwydd uwch y rhod ;
Tra fo'm pridd yn mynd i ymgymmyſg
A'r hyn y gwnaethpwyd ef ryw bryd,
Llewyrch wyneb Duw ddiſgleiria
Rannau f' enaid oll eu gyd.

4 Wedi 'm golchi oddi wrth ſorod
Pechod ffiaidd drwg ei ryw,
Fel drych goleu i dderbyn delw
Holl ſanctteiddrwydd pur fy Nuw ;
Ni raid teithio 'r ddaear mwyach,
Ymhlith pryfed gwael y llawr,
Ond diſgleirio 'mhlith myrddiynau
Gylch yr orſedd fel y wawr.

HYMN XXX. *Rhyfeddod y Rhyfeddodau.*

1 UFudd-dod Iesu a'i angeu chwith
Haeddodd fendithion rif y gwlith;
A'r rhei'ny ydynt bob yr un
Uwch deall angel pur na dyn.

2 O gariad anhaeddiannol rhad !
Ac anfeſurol ei barhad !
At rai afradlon, cyndyn cas,
Bradychwyr gwaredigol Ras.

3 Gynt yn elynion yn ddi-wad,
Yn awr ei alw ef yn Dad ;
A chael dod ym mhob cyſtudd blin,
Yn rhydd i'w fynwes ef ei hun.

4 Mewn gobaith o fod gyd ag ef
Byth yn teyrnaſu yn y nef,
A gweld ei wyneb hyfryd cun,
Yn trigo nawr mewn natur dyn.

5 A fu rhyw ras fel hyn erio'd,
Neu fendith megis hon yn bod?
A brynwyd peth a'i bris mor ddrud
O ddechreu pell i ddiwedd byd?

6 Chwi roddion maith trangcedig fyd,
Sef aur ac arian, perlau drud,
Nid ydych oll ond megis dim,
Wrth weld yr Iesu 'n eiddo im'.

7 'Dyw cyfoeth maith mwyn-gloddiau'r byd,
Pe ſtofid hwy i'r tlawd eu gyd,
Ond rhodd ddiſtadla, waela ma's,
Wrth eu cymmaru â'i nefol ras.

8 Mae'n dyſgu'r annoeth, mae'n iachau
Archollion y dolurus rai;
Ac nid oes metſwn a gytun
A'n clwyfau ond ei waed ei hun.

9 A thyma'r cariad, cariad yw
Sy'n anchwiliadwy i ddynol-ryw;
Uwchlaw gwybodaeth, nid i ni,
Ond hefyd i'r angylaidd lu.

HYMN XXXI. *Caethiwed.*

1 RWy'n gorwedd yn y carchar du,
A'm henaid cu 'n ochneidio,
A'r gadwyn fawr yn gwaſgu'n dynn
Heb neb a'm tynn o hono.

2 Fy meiau megis gwlith y wawr,
Anſeidrol fawr eu cyfri,
Sy'n pwyſo'n galed ar fy mron,
A minnau bron llewygu.

3 Ochneidio rwyf am ddod yn rhydd,
A gweled dydd gollyngdod i;
I rodio'r bryniau ſanctaidd pur,
Nefolaidd dir fy Mhriod.

4 Ti Iesu mawr y Meddyg pur,
Sy 'n torri'r dur caletta;
Torr fy nghadwynau mawr a'th ras,
Fel delwyf ma's oddi yma.

5 Mae'r gallu yn gyfan yn dy law,
Fel dwedych daw'r canlyniad,
Ac nid yw'n archeft it' fy Nuw,
I roi fy ngwiw ddymuniad.

HYMN XXXII. *Achwyniad.*

1 PAN mae fy enaid bach mor fynn,
A'm calon yn ochneidio'n llyan,
Un golwg ar fy Iesu cun
Iacha fy nghlwyfau bob yr un.

2 O tyr'd er mwyn d' addewid rad,
Rho brawf im' o'r meddeuol wa'd;
Gwel y pechadur mwya erioed,
Yn gruddfan yma wrth dy droed.

3 O dyro arwydd immi 'n glan,
Fy mod i wedi'm cyfiawnhau;
Mi gana i'th enw pur dilith
Nefolaidd gainge tra paro chwyth.

4 Ar fryniau'th drugareddau mawr,
Difyrrwn fy oes o awr i awr;
Yn fil mwy llawen yn fy mryd
Na'r rhai fy'n berchen eyrrau'r byd.

5 Doethineb mawr all fy mhartoi,
I fythol hedd trwy 'mferol wae;
A thrwy gyftuddiau chwerwon chwith,
Gall roi 'r llawenydd bery byth.

6 Mwy nad fi rwgnach f' Arglwydd cu,
Dy lwybrau 'n anchwiliadwy fy;
Rho immi nerth i droi pob gwae,
A grwgnach cas yn llawenhau.

7 Gwna fi yn fodlon tra fwyf byw,
Ac adde'th farn mai cyfiawn yw;
Na ddiffodd dy drugaredd rad,
Trwy 'm anobeithio ei pharhad.

8 O ran mai trwy fy mhechod ſych,
Y collais i 'm gogoniant gwych :
Ngheryddu 'r ys, ac nid fy nghae
I deimlo yn uffern bwys fy mai.

9 Yn fy nghyfyngder galwa mla'n
Am ddyddiau dy ddeheulaw lân ;
Gan adde'th dywyll lwybrau eu gid
Yn fuddiol dda er dechreu'r byd.

HYMN XXXIII. *Dioddefaint y Meſſiah.*

1 GOD d' olwg f' enaid ſynu fry,
I weld yr OEN ar *Galfari*,
Yn diodde 'n ddiddig ac yn fwyn,
Wedi gondemnio er ein mwyn.

2 'R hwn a ordeiniwyd i angeu yw,
Tros bechaduriaid gwaetha eu rhyw;
A'i ganlyn gwelwch y fath lu,
Yn gwaeddi o'i ol i *Galfari*.

3 Tannwyd ei freichiau ſanctaidd pur,
A rhoddwyd ynddynt hoelion dur,
Eſtynnwyd, hoeliwyd nefol draed,
Heb orchudd droſtynt ond ei waed.

4 Gwelwch y goron bigog gref,
Yn gorwedd ar ei arlais ef ;
A'r afon goch lifeiriol fawr
Yn tarddu o tan ei ſron i lawr.

5 Edrychwch arno, dyma'r Dyn,
A phwy oedd ef ond Duw ei hun ?
Pechodau'r holl grediniol fyd,
A bwyſodd ar ei ſgwyddau nghyd.

6 O IESU'R croeshoeliedig DDUW !
Sy'n for o ras at ddynol-ryw ;
Rho nerth i yfed gwaed y groes,
A phrofi cariad d' angeu loes.

HYMN

HYMN XXXIV. *Gweddi.*

1 O Iesu mawr y Meddyg gwell,
Gobaith yr holl ynyſoedd pell!
Dyſg fi i ſeinio i maes dy glod,
Mai digyfnewid wyt erio'd.

2 O hoelia meddwl ddydd a nos
Crwydredig wrth dy nefol gro's,
A phlanna 'm hyſpryd yn y tir
Sy'n llifo o lawenydd pur.

3 Fel bo fy nwydau drwg yn lân,
Yn cael eu difa a'r nefol dân;
A chariad yn melyſu 'r groes
Trwy olwg ar dy farwol loes.

4 Ti fuoſt marw (rhyfedd yw)
Er mwyn d' elynion i gael byw;
Derbyn i'th go'l a rho ryddhad
I'r ſawl a brynaiſt a dy wa'd.

5 Doethineb anfeſurol ſy,
A gallu anfeidrol ynnot ti;
A phob cyflawnder ſy'n dy ran,
Sy 'n eiſiau ar fy enaid gwan.

6 Fe gaiff dy enw anwyl glod,
Pan darfo i'r ddaear a'r nefoedd ſod,
Am achub un mor wael ei lun,
Na allſai ei achub ond dy hun.

HYMN. XXXV. *Gogoniant yr OEN.*

1 O Ddedwydd le preſwylfa 'm Ner,
Yn yr ehangder uwch y ſer,
Y man diſgleiria 'm Iesu ma's,
Ynghyflawnderau maith ei ras.

2 Mawrhydi a chariad parchus iawn,
Sydd yn ei wyneb ef yn llawn;
A'r lluoedd ſy'n ymgrymmu 'n un,
O flaen ein Duw mewn natur dyn.

3 Wel

3 Wel daccw'r pen a glwyfodd drain
Yn goron bleth a'u pigau main;
A choron auraidd arno nawr,
Yn llwyr ddiſgleirio nefoedd fawr.

4 O dyma'r dyn. Duw ynddo'n bod,
A garſom heb ei weld erio'd;
Ond credu ynddo a llawenhau,
Fod gennym gariad ſy'n parhau.

HYMN XXXVI. *Cyfiawnder anfeidrol y MESSIAH.*

1 TAlwyd y ſwm gan J'OFAH ddyn,
Gofyniad nefoedd faith ei hun;
Ac nid oedd ond tryſorau 'r nef
Yn abl fyth ei dalu ef.

2 Tryſorau na ddarfyddant fyth,
Pe telyd oeſoedd rif y gwlith;
Gwerth uwch pob gwerth a glywyd ſon,
Oedd gwaed y croeshoeliedig O'n.

3 Ni allodd y nefolion lu,
Yr arch-angylion penna ſy;
Er bod hwy'n ddoeth uwch ben fe w'is,
I gyfri fynu fyth ei bris.

4 Iawn mwy o bwys na buaſai nghyd
Aneirif anwireddau 'r byd;
A dim ond gwaed fy IESU mawr
A droeſai 'r glorian hyd y llawr.

5 Anturia nghalon euog ddu,
At orſedd gras yn awr yn hy;
Mae'r faing yn rhydd, a rhodd yn rhad,
Os gelli gredu yn ei wa'd.

HYMN XXXVII. *Y cyſtuddiedig a'r Truan.*

1 YNoeth, y tlawd, a'r llwythog ſy
'N ochneidio tu a'r nefoedd fry,
A'r cyſtuddiedig gwael ei lun,
Wna IESU 'n briod iddo ei hun.

2 Newyddion da er ſeliad byd,
A rowd ynghadw i'r rhai'n eu gid;
A phan aeddfedo awr y Tad,
Datguddir iddynt oll yn rhad.

3 I'r rhai'n mae rhagorfreintiau ei wa'd,
I'r rhai'n mae cyflawn wir iachad,
I'r rhai'n mae heddwch llawn ryw bryd,
Rhydd-did oddi wrth anfeidrol lid.

4 Galarwyr *Seion* ſydd yn awr,
Yn gruddfan yn y cyſtudd mawr:
Na wylwch mwy newyddion mae,
A bair i'ch calon lawenhau.

5 Am hyn derchafwch ſynu fry,
Cydſeiniwch a'r angylaidd lu,
Tra fyddoch byw na foed i'ch ſon,
Ond am rinweddau gwaed yr O'n.

HYMN XXXVIII. *Meddyginiaeth yn Angeu.*

1 MAE'm ffydd yn gweld ſy Mhriod draw,
Yn cymryd angeu yn ei law;
Yn gwneuthur iddo daflu ma's,
Ei golyn main, a'i wenwyn cas.

2 Ac yno T'wyſog mawr y nef
Ei hun yn yfed hono ef;
Ei godi ſynu ar ei ben,
A dweud, Gorphenwyd, ar y pren.

3 Pam ofnaf angeu a'i farwol glwy,
Pan nad oes colyn ganddo mwy?
Er mai angeu yw, nid yw ei rym,
Na'i wenwyn yn y diwedd ddim.

4 Mil o ryw farwolaethau nglyn,
Wy'n brofi, ond wrth ofni un;
A deng mil o gyſuron ſy
Wrth wneuthur ffrynd ag angeu du.

HYMN

HYMN XXXIX.

Rhai Gwerſi o'r lxix SALM, *wedi eu rhoi ar Gân yn agoſaf ag allwyd at Eiriau'r* Salm, *a rhoi pob Gwers ar ei Phen ei hun, ac yn dwyn ei Hyſtyr ei hun.*

1 A Chub O DDUW ſy enaid caeth,
O tan ei faith ofidiau,
Sy'n cael wrth geiſio dod i'r lan
Ei guro tan y tonnau.

2 Soddais mewn dom, euthum ynglyn
Mewn lle heb un ſefyllfa ;
A'r dyfroedd dyfnion pwyſau'r gro's
Yn llifo tros fy nghoppa.

3 Sychodd fy ngheg, a'm llygaid ſwrth
Dywyilodd wrth wylofain ;
A thrwy dy ddiſgwyl tan bob tonn,
Mi flinais bron a llefain.

4 Rhiſedi'm gwallt heb wybod pam
O elynion ſy am fy niwed ;
A minneu telais hwynt o'm bodd
Yr hyn nid oedd fy nyled.

5 Ond ti adwaenoſt ARGLWYDD da
Fy ynfydrwydd a'm ffolineb ;
Nid yw nghamweddau mawr eu rhi'
Guddiedig i dy wyneb.

6 O'm plegid i, DUW'r lluoedd maith,
Nad gwilydd chwaith na gwradwydd,
I'r rhai a'th ofnant tan y ne',
Neu geiſiant d' enw beunydd.

7 Can's er dy fwyn, O ARGLWYDD DDUW,
Y dygais bob rhyw warthrudd ;
Trwy'th ganlyn dryg-air immi rowd,
A'm hwyneb dowd a chwilydd.

8 Dieithr mi es i blant fy mam,
I'm brodyr a'm cyfeillion ;

Pwy ſy'n gwneud cyfrif o honof well,
Na phererin pell neu eſtron.

9 Can's ſeroh i'th waith, a'th gyfraith gu,
A ſel i'th dŷ a'm hyſodd;
A chabl y rhai a'th gablent di,
Oll arnaf fi ddeſgynnodd.

HYMN XL. *O Waith y* Dr. WATTS, *tu Dalen* 172.

1 MOR wag ac mor dwyllodrus yw
'R holl bethau ſ' yma yn deg eu lliw;
Yn ein pleſerau gwenwyn cawn,
A'n melus ſydd yn chwerw iawn.

2 Pethau diſgleiriaf yn y byd,
Twyll yw eu llewyrch oll eu gyd;
Wrth eu mwynhau mae aeth a braw,
Rhag ofn bod rhyw ddrwg gerllaw.

3 Perthnaſau a chyfeillion llawn,
Yn fynych yn elynion cawn;
Wrth gadw rhan o honoi lawr,
A ſpeilio rhan ar IESU mawr.

4 O boed dy degwch IESU cu,
Yn ymborth pur i'm henaid i,
A gras i'm harwain gyd ag ef,
O bob creadur tan y nef.

HYMN XLI. *Griddfan am Gyfiawnder a Nerth.*

1 MAith yw'r nos a mawr yw'r twyllwch,
P'odd y gallai threulio ma's?
Heb gael Arglwydd dy gwmpeini,
Nerth dy anorchfygol ras;
Gormod gofid, &c.
Hebot allu yma i fyw.

2 Mil a mwy o wag feddyliau,
Trwy fy nghalon ſydd yn gwau,
Nid oes meddwl nad yw'n ceiſio
Fy rhoi yn llwyr i lwfrhau;

Anghred

Anghrediniaeth, &c,
Rhyfedd yw dy nerth erioed.

3 Mae fy mhechod yn fy erbyn
Fel y moroedd mawr eu grym,
Diluw cryf heb feſur arno,
Nid oes a'i gwrthneba ddim ;
Tad toſturi, &c.
Rho gyfiawnder im' a nerth.

4 Os dangoſi 'n eglur immi,
Dyna'r pryd i lawenhau,
Fod dy lyfr wedi ei groeſi,
Ac nad oes yn aros fai ;
Cymmer feddiant, &c.
Yna o honof oll yn lân.

5 Os agori im' dy fynwes,
I gael gweld y cariad llawn,
Lifodd allan fel y moroedd,
Ar *Galfaria* un prydnhawn ;
Di gai 'r cwbl, &c.
Roddaiſt i mi yn fy rhan.

6 Aed y ddaear ffordd y mynno,
Aed i'r ſawl ſo arni a'i fryd,
Aed creaduriaid o bob enwau
Yn elynion immi gyd ;
Bodlon ddigon, &c.
Byddaf byw heb ffrynd ond ti.

7 Doed eulunod o bob rhywiau,
Doed y gwrthddrych tecca ei bryd,
Doed pleſerau maith brenhinoedd,
Ac anturiant ſugno mryd ;
Ofer, ofer, &c.
Tra ſo gennyf wrthddrych mwy.

8 Deued Satan a'i holl rwydau,
Deued a'i biccellau tân,
Caſgled gyfoeth mawr yr *India*
A goſoded hwy o'm bla'n ;
Byth ni'm temtia, &c.
Tra ſo'm henaid yn dy go'l.

9 Nis gall hwnnw, bai fy meiau
Sydd yn boſtio ei anferth rym ;
Os amgylchu wnai fy enaid
Wneuthur unrhyw niweid im',
Rho dy Yſpryd, *&c.*
Mi gongcwera feiau maith.

10 Ond os troi dy gefn arnaf,
Darfu'm cyſur yma i fyw,
Y mae 'r cwbl oll a feddaf
Yn gartrefu yn fy Nuw;
Llwyr annedwydd, *&c.*
Ydwyf hebot ti dy hun.

11 Nid oes rhwyd, ac nid oes magl,
Heddyw gan y gelyn mawr,
Nid oes pydew heb dy allu
Nas tramcwyddaf iddo lawr;
Dal fi fynu, *&c.*
Yn dy allu rwyf yn byw.

12 Mae nghyfeillion, mae'm perthnaſau
Mae ngelynion bob yr awr,
Fel mewn cyngrair gyd a'u gilydd
Am fy nghael yn lân i lawr ;
O'r Jehofah, *&c.*
Nad fi golli ngafael byth.

HYMN XLII. *Digalondid.*

1 LLawn euogrwydd, llawn o ddychryn,
Llawn o boen yw 'm henaid gwan,
Anghrediniaeth cryf yn haeru
Byth na ddóf oddi yma i'r lan
Balm yn *Gilead*, *&c.*
Unig ag all wella nghlwyf.

2 Mae'm blynyddau hirion maithion
Wedi eu treulio oll yn ddim;
'Dyw 'm pechodau o'r dechreuad
Etto nemawr llai eu grym ;
O na allwn, *&c.*
Gredu bod ei ddydd gerllaw.

3 Mi feddyliais yn y boreu,
Byddwn amſer maith cyn hyn,
Wedi maeddu fy mhechodau,
Ac yn canu ar *Seion* fryn ;
Swn y rhyfel, *&c.*
Ydyw 'r lle 'r wyf etto yn byw.

4 Weithiau bron yr wyf a chredu
Ches eioed effeithiol ras,
Credu bron mai fy mhechodau,
Yn y diwedd bia'r ma's ;
Dwg fi Arglwydd, *&c.*
Dwg fi o'r caethiwed hyn.

HYMN XLIII. *Ymbil am Nerth a Goleuni.*

1 TYwyllwch du-dew ſydd o ddautu,
Ffaelu codi mhen i'r lan,
Ni bum i tan feichiau mawrion,
Etto erioed ond eiddil gwan ;
Gwrando ngweddi, *&c.*
Oni's gwnai mi lwfwrha.

2 Dadrys y cadwynau tynnion,
Rho fy enaid gwan yn rhydd,
Tynn fi maes o'r pydew tywyll
I gael gweld y goleu ddydd ;
Gwaredigaeth, *&c.*
Gwna i mi waeddi tra fwyf byw.

3 Mwy o weithiau nag a rifir,
Gwn yn ſicr Iob dy fod,
I mi 'n well nag un creadur
Etto weiais tan y rhod,
Gwna i mi anghofio, *&c.*
Fy holl eulunod er dy fwyn.

HYMN XLIV. *Gweddi am Breſennoldeb Duw, a Nerth yn erbyn Pechod.*

1 NID oes arnaf faich yn gorphwys,
Dim ond eiſiau dy fwynhau ;

Nid oes arall tan y nefoedd
All yn hollol fy iachau ;
Rho dy gwmpni, &c.
Cyn im' fynd i'r cenfor glas.

2 Mae fy nyddiau yn hir i'w rhifo,
Ac nid ynt i'w cyfri ddim,
Maent yn diange beunydd arnaf,
Fel yr awel deneu lym ;
Darfod, darfod, &c,
Mae fy oes bob munud awr.

3 Tyn yr ofn hen o farw,
Sydd yn llechu tan fy mron,
Rho i mi heddwch, rho orfoledd,
Tra fwi ar y ddaear hon ;
Na therfyfged, &c,
F' enaid gwan yngrym y dw'r.

4 Mae fy anadl, mae fy efgyrn,
Mae ngwthiennau oll o'r bron,
Heddyw yn haeru mai fy ngwely,
Fydd yn foreu tan y don ;
Wyneb angeu, &c.
Iesu dere yno dy hun.

5 O na ad fi ymdrabaeddu
Yn anialwch mawr y byd,
Mae yma eirth, mae yma lewod
Yn elynion i mi eu gyd ;
Tyn fi allan, &c.
Nawr o balfau i'r gelyn mawr.

6 Nid wy'n caru fy mhechodau,
Poenau ydynt oll eu gyd,
Hwnnw fy'n fy mhoeni fwyaf,
Ag fy'n ceifio mynd a mryd ;
Tyrr hwy 'n fuan, &c.
Dyna finneu wrth fy modd.

7 Doed dy Eglwys a galared
Tros fy meiau oll o'r bron,
Nid yw hynny un egwyddor
Ond fy'n aros tan fy mron ;

Do mi ſlinais, &c.
Ar fy meiau ſawr a mân.

8 Iesu cymmer fy anwireddau
Trymmion ar dy yſgwydd gref,
Nid oes nerth i ſefyll tanynt,
Onid gallu mawr y nef;
Gwaed ei hunan, &c.
All yn unig dynnu 'm baich.

9 Dyma yn gwbl fy neiſyfiad,
I mi gael bod yn dy go'l,
Er na theithiais etto nemawr,
Nad fi dynnu hynny 'n ol;
Gwna i mi gadw, &c.
Ngolwg tu a'r hyfryd wlad.

HYMN XLV.

1 MAE arnaf ofn temtaſiwnau,
Nid wyf fi ond lleſg erioed,
Mae'r un wanna 'n ddigon abl,
Fynd a'm henaid tan ei throed;
Gwaed yn llifo, &c.
Ar *Galfaria* a'm dal i'r lan.

2 Mae rhyw awel wyllt ei natur,
A chyndeiriog iawn ei grym,
Ar y moroedd mawr yn dyfod,
Fy ofn ddwedodd hynny im';
Gwaed yn llifo, &c.
Ar *Galfaria* a'm dal i'r lan.

3 Ynnof fy hunan mae hi'n rhuo,
Yn fy yſpryd mae hi gyd,
Dyma yn unig a'i congcwera,
Golwg ar dy wyneb pryd;
Gwaed yn llifo, &c.
Ar *Galfaria* a'm dal i'r lan.

4 Paid fy enaid gwan ag ofni,
Nid rhyw ddrygau ſy'n neſau,
Newydd da ſy o dir y bywyd
Lle mae cariad yn parhau;

Gwaed

Gwaed yn llifo, &c.
Ar *Galfari* a'm dal i'r lan.

5 Er bod arnaf ofnau filoedd,
Pan y delo'r drwg ymla'n,
F'allai caf fi nerth i ſefyll
Fel y graig ynghanol tân;
Gwaed yn llifo, &c.
Ar *Galfaria* a'm dal i'r lan.

6 Mi deithiais heibio i lewod lawer,
Mi gongcwerais eirth cyn hyn,
Do mi nofiais trwy'r *Iorddonen*,
Ac mi ddringais anferth fryn;
Gwaed yn llifo, &c.
Ar *Galfaria* a'm dal i'r lan.

7 Darfu ofn temtaſiwnau,
Darfu ofni drwg i ddod,
Darfu ofni marwolaethau,
A phob cyſtudd ſydd yn bod:
Gwaed yn llifo, &c,
Ar *Galfaria* a'm dal i'r lan.

HYMN XLVI. *Mwynhad o Dduw yn Nerth a Goleuni.*

1 O Tyred Awdwr hedd
Rho i mi brawf o'th wledd, dragwyddol rad;
'Does yma ddim ond trai,
Cyſtuddiau, poen a gwae,
I'r diwedd yn parhau, mewn anial wlad.

2 Mae pechod o bob gradd,
Yn fawr am gael fy lladd, a minnau'n wan;
O eſtyn fraich i ma's,
Dangos dy effeithiol ras,
O'r tiroedd anial cras, dwg fi i'r lan.

3 Mor greulon yw fy nghlwyf,
Ti Iesu weli rwyf bron llwfrhau;
'Does arall ond dy wa'd,
A ddyry im' iachad,
Na dim a nertha'm tra'd, ond dy fwynhau.

4 Un golwg ar dy wedd,
A'm c'od i'r lan o'r bedd, i'r goleu clir;
I deithio yn y bla'n,
Trwy ganol dw'r a thân,
Er gelynion fawr a mân, i'r ſanctaidd dir.

5 Gwna f' enaid bach ynglyn,
Duw wrthyt ti dy hun, i'th fwynhau;
Ac yna gallaf fyw,
Tan gyſtudd o bob rhyw,
Mewn llawn tawelwch gwiw, byth i barhau.

HYMN XLVII. *Gwaed y Groes yn unig Feddyginiaeth.*

1 IAchawdwr dynol-ryw,
Tydi yn unig yw, fy Mugail da;
Mae angeu 'r groes yn llawn,
O bob rhinweddol ddawn,
A ffrwythau melus iawn, rhai'n a'm iacha.

2 'Does medſwn laeſa 'm poen,
Ond gwaed yr addfwyn Oen, gwaed fy Nuw;
Mae ei hun yn fwy na 'r byd,
Na 'r tryſor ſy yntho gyd;
A theccach yw ei bryd, na dynol-ryw.

3 Mae torf aneirif fawr,
Yn ddiſglair fel y wawr, nawr yn y nef;
Trwy ganol gwawd a llid,
A gwrthnebiadau 'r byd,
Ac angeu glas ynghyd, a'i carodd ef.

4 Thal holl bleſerau 'r byd,
Na phob teganau ynghyd, ddim i'm boddhau,
Y gwrthddrych mwya erio'd,
O gariad ac o glod,
Sydd uwch neu îs y rhod, wyf yn fwynhau.

HYMN XLVIII. *Gweddi am bob Gras i fyw i DDUW.*

1 CHeiſiais Arglwydd ddim ond hynny,
Dim ond treuſio'm dyddiau ma's,

I dy garu a'th ryfeddu,
Ac ymborthi ar dy ras ;
Dyna ddigon, dyna ddigon, &c.
Cheiſiaf nabod dim ond hyn.

2 Dal fy llygad, dal heb wyro,
Dal ef ar dy addewid bur,
Dal fy nhraed heb gynnyg yſgog,
Allan o dy gyfraith bur ;
Boed dy orchmynion, &c.
I mi yn gyſur ac yn hedd.

3 O darfydded i mi garu,
Un rhyw bleſer is y ne',
A darfydded im' ſyfyrio
Ar un gwrthddrych yn dy le ;
Aed fy yſpryd, &c.
Oll o'i fron yn eiddot ti.

4 Rho 'r tymherau, rho 'r graſuſau,
Yn fy enaid bach ynghyd,
Roddaiſt ti i'th rai anwylaf,
Oll yn rhad o ddechreu byd ;
Dedwydd, dedwydd, &c
Fyddaf byth tra nef yn bod.

5 Os rhaid dwyn y groes demheſtlog,
A'r cyſtuddiau ſydd o'i hol,
O gad immi Iesu orphwys
Yna yn dy gynnes gôl :
Ymhob cyſtudd, &c.
Dwg fy meichiau oll dy hun.

HYMN XLIX. *Anghrediniaeth, a Gweddi am Ffydd.*

1 Y Mae ofn yn fy nghalon,
Gan mor lleied yw fy ngrym,
Rhag ryw awr i'm temtaſiwnau
Creulon i fy ngwneud yn ddim ;
Nid oes gryfder, &c.
Trwy fy yſpryd mewn un man.

2 Mae

2 Mae dyfnderoedd anghrediniaeth,
Wedi 'm rhoddi 'n lleſg a gwan,
Pechod yn ſy ngwneud i ofni,
Ofni yn ſy rhwyſtro i'r lan;
Gwna i mi gredu, &c
Dyna'm henaid wrth ei ſodd.

3 Oll o mewn nid oes ond t'wyllwch,
Oll o mewn nid oes ond poen,
Rhyw ddieithrwch oer di gariad,
At y croeshoeliedig Oen;
O na roddit, &c.
Immi Arglwydd dy fwynhau.

4 Mae eiddigedd yn fy nghalon,
Weled cannoedd yn gyttun,
Oll i gid mewn gwiſgoedd gwynion,
Ac yn canu i ti yn un;
Yn y carchar, &c.
Yr wyf finneu oll yn rhwym.

5 Mae mor boſibl i mi glymmu
Haul a daear fawr yn un,
Ag yw im' dderchafu nghalon
I fynu attat ti dy hun;
Gair o'th eneu, &c.
A'th wna di a minneu'n un.

HYMN. L. *Gobeithio yn erbyn Gobaith.*

1 SEfwch bellach fy ngelynion,
Sy'n fy nghuro bron erioed,
Dalſoch f' enaid yn ymddifad,
Cawſoch fy yſpryd tan eich troed;
'Chydig oriau, &c.
Dof o'ch rhwydau oll yn lan.

2 Mae fy Mhriod, mae f' Anwylyd,
Nawr yn dangos i mi wlad,
Na's gall dyfais temtaſiwnau,
Fyth i fyflyd dim o'm traed;
Mi af yno, &c.
Dyma'r man caf ddedwydd fyw.

3 Uwch y bryniau, uwch y gwyntoedd,
Uwch y ſtormydd mawrion cry,
Uwch cymmylau tew o d'wyllwch,
Mae 'r tawelwch hyfryd fry ;
Mae fy nghyſur, &c.
Oll yn trigo uwch y byd.

4 Mi ddes yma i'r anialwch,
Byd o newyn, byd o wae,
Heb un achos, heb un neges,
Ond yn unig dy fwynhau ;
Hyn ei hunan, &c.
Fydd fy ymgais tra fwyf byw.

5 Ac ni's cefais ſylwedd ynddo,
Ac ni's cafodd neb erioed,
Neu gyfeillion neu dryſorau,
Nid ynt bleſer im' eu bod ;
Duw ei hunan, &c.
Ydyw 'm cwbl yn y byd.

HYMN LI. *Criſt oll yn oll.*

1 FY nghadwedigol ras,
O honot dardd i ma's, Iesu yn ddi-drai;
Daioni ni fu yn bod,
O fewn i mi erio'd,
Tydi a bia 'r clod, byth i barhau.

2 'Doedd ond dy anfeidrol ras,
A'm tynnai I i maes, o'r ffernol ffau ;
Anfeidrol rym a ſcil,
I nerthu un o fil,
I gadw'r llwybr cul, byth i barhau.

3 Dy enw di fy Nuw,
Ei hunan digon yw, i'w ei fwynhau ;
Pob peth o fewn y byd,
Y gwerthfawrocca a drud,
Sy'n gryno yno 'nghyd, byth i barhau.

4 Y *Myrrh* a'r *Aloes* pur,
Y *Caſſia* gwerthfawr gwir, ynddo y mae ;

Y per-

Y per-aroglau drud,
Gwell na rhai eitha 'r byd,
Sydd ynddo ef ynghyd, byth i barhau.

5 Mae doniau f' ARGLWYDD mawr,
Yn lliſo oll i lawr, fel môr didrai;
Tros dir *Immanuel*,
Yr hyfryd laeth a mel,
O ficrwydd pur a ſel, byth i barhau.

6 Yn gwiſgo gynau gwyn,
Pan gwelir ſaint am hyn, dydd ſy'n neſau;
Caniadau am ei glwy,
Fydd eu caniadau hwy,
A'r rhei'ny fyddant mwy byth i barhau.

HYMN LII. *Gogoniant yr Oen, ac ymbil am Ras.*

ANgylion doent yn gyſon rifedi gwlith y wawr,
Rhoent eu coronau auraidd o flaen y faingc i lawr,
A chwarient eu telynau ynghyd a'r ſaint yn un,
Fyth fyth ni chanant ddigon am Dduwdod yn y dyn.

Ni fuaſai gennyf obaith am ddim ond fflammau ſyth,
Y pryf nad yw yn marw a'r tywyllwch du dew byth;
On' buaſai'r hwn a hoeliwyd ar fynydd *Calfari*,
O ryw anfeidrol gariad i gofio am danaf fi.

'Rwi'n edrych arnaf fy hunan a rhyw gaſineb mawr,
Mwy diddim, mwy diſylwedd na phryfed man y llawr;
'Does ond yr aberth hwnnw wnawd ar *Gaerſalem* fryn,
A'm crea oll yn newydd, a'm golch i oll yn wyn.

Ti Barnwr byw a meirw ſydd ag allweddau'r bedd,
Terſynau eitha'r ddaear ſy'n diſgwyl am dy hedd;
'Dyw gras i ti ond gronyn, mae gras ar hyn o bryd
Ryw filoedd maith o weithiau i mi yn well na 'r byd.

O flaen y faingc rhaid ſefyll, ie ſefyll cyn bo hir,
Nid oes a'm nertha yno ond dy gyfiawnder pur;
Myfi anturia yn eon trwy ddyfroedd a thrwy dân,
Heb oleu ac heb lewyrch ond dy gyfiawnder glân.

Os ai di i chwilio nghalon, ni chai di yno fawr,
Ond beiau maith mor amled a gwlith y boreu wawr ;
Pechodau o'r dechreuad, rhai nawr ac yn y man,
Sydd yn cyttuno a'u gilydd i wasgu'm henaid gwan.

Yn natur fy ngweddiau a'm dyledswyddau mae,
Rhyw frynniau o anghredinıaeth, rhyw for o lwfrhau ;
Y weithred gas ei chammawl yn uchel iawn gan ddyn,
Mae torf o lygredd ynddi i weld i mi fy hun.

Am hyn bydd immi ymwadu a'r cwbl yn gyttun,
Pob cylch o ddyledswyddau goreu-deg hardd yn un ;
Yn angeu'r groes yn unig mae'm iechydwriaeth lawn,
Ac am y groes mi ganaf o foreu hyd brydnhawn.

Myfi abertha'r cyfan yn union i dy wa'd,
A thyna'r balm oddi wrtho rwi'n difgwyl gwir iachad:
Nid oedd o tan yr haulwen, nid oedd o tan y ne',
Ddim allfai faddeu pechod yn unig ond efe.

HYMN. LIII. *Hyder Ffydd ar yr Addewid mewn Cyfyngderau.*

1 AR dy enw mae 'r Cenhedloedd
Yn nhervynau eitha'r byd,
Yn rhoi goglud gan ddymuno
Gweled tegwch d' wyneb pryd :
Mae dy eiriau oll yn gywir,
Llwon mawrion ydynt hwy,
I'th fanctteiddrwydd pur y tyngaift,
Allfit dyngu i ddim oedd fwy.

2 Bellach minneu yn eon deuaf,
Mi ymgrymmaf wrth dy draed,
Ac mi blediaf am dryforau,
Wedi eu haddo oll yn rhad ;
Nid oes neb o tan yr wybr,
Mewn mwy diffig, mewn mwy trai
Tlawd o'r cyfan, ond yn benna
Tlawd wyf Arglwydd o'th fwynhau.

3 Mae cyfyngder mawr yn rhuo,
Ac yn bygwth f' enaid gwan,

Profedigaeth

Profedigaeth drom ei phwyſau,
Sy'n fy rhwyſtro i godi i'r lan;
Ar d' addewid 'rwyf yn gorphwys,
Cadwa ngafael yno yn dynn,
Nid oes ond y nerth tragwyddol,
Ag all faeddu 'r trallod hyn.

4 Nis gadawa 'r fillaf leia
O'th addewid fynd ar goll,
Mae yn ddigon, dim ond digon,
I mi ei hunan oll yn oll;
Podd y gallaf golli ngafael,
Pe cawn fydoedd maith yn rhodd,
Ar addewid ſydd mor gyflawn
O dryſorau wrth fy modd?

5 Rhyw dryſorau heb eu meſur,
Rhyw dryſorau heb ddim trai,
Rhyw ddyfnderoedd heb ddim gwaelod
Yn dy addewidion mae:
Crynu rwyf ac ymafaelu,
Glynu yn galed wrth dy air,
F' enaid byth tro ar y ddaear,
Dyna yr unig fan y cair.

6 Os gwaredu fi o'm cyfyngder,
Ac os ſefi ar fy rhan,
Os goſtegu rym y ſtorom,
Os cynheli fi i'r lan;
Ti gai nhafod, ti gai nghalon,
Ti gai feddwyf yn y byd,
Ti gai'r clod, a thi gai'r moliant,
Ti gai 'r enw i ti gid.

7 Nid yw 'r holl greaduriaid iſod,
O ba enwau, o ba lun,
Ddim yn ddigon dinas noddfa,
Pe baent yn cyttuno yn un;
Nid oes Iesu ond dy hunan,
Nid oes ond d' effeithiol ras,
O'r pydewau dyfnion mawrion,
Ceithion all fy nhynnu ma's.

3 Addunedau fy nghyfyngder,
Deuent ARGLWYDD ger dy fron,
Er dy Enw, er dy Ogoniant,
Torr fy ofnau lawr o'r bron;
Duw tofturi yw dy Enw,
Duw fy'n arfer trugarhau,
C'od fy yfpryd lleſg o'r moroedd,
Tynn fy enaid back o'r ffau.

HYMN LIV. *Ymeſtyn at y Nôd.*

1 NID yw y ddaear fawr ei gid,
Ddim teilwng o fy ſerch a'm bryd,
Nag un rhyw wrthddrych yn y byd;
Rwi'n caru gwrthddrych mwy:
Nid llai y fawl wi'n garu yw,
Na pherffaith ddyn a pherffaith DDUW,
Dioddefodd unwaith farwol friw,
O werthfawroccaf glwy.

2 Ni fedr tafod mewn un modd,
I ddodi'th ras i maes ar goedd,
Nag anfeidroldeb maith dy rodd,
Dy gariad a dy hedd:
Pe deuai'r ſaint o'u bron eu gid,
Sy'n canu nawr mewn nefol fyd,
Nis gallent fyth i draethu 'nghyd,
Mor decced yw dy wedd.

3 Ti roddaiſt ynnof nawr ynglyn,
Egwyddor nefol bur ei rhin,
Fel nad oes dim ond ti dy hun,
Fyth bellach wna fy modd:
O dere ARGLWYDD dere yn glau,
Gad i mi bellach dy fwynhau,
Atteba'r tuedd pur didrai,
A roddaiſt i mi yn rhodd.

4 Ni fyddai bywyd maith pe cawn,
Ond di-ddim a di-fylwedd iawn,
Heb gael rhyw ran o'th nefol ddawn
Yn waſtad i'w mwynhau:

'Does

'Does un o'm holl ſynwyrau eu gid,
Nag un o nwydau'm henaid drud,
A gwrthddrych iddo yn y byd,
Am hynny dere yn glau.

5 Rwi'n dlawd, rwi'n dlawd o oll yn awr
Nid wi'n cyttuno dim a'r llawr,
Rwi'n griddfan tan anobaith mawr,
Os hebot rhaid im' fyw ;
Ac nid oes dim o tan y ne',
Wna fynu'r colled o hono fe,
Na dim atteba yn ei le,
Anfeidrol yw fy Nuw.

6 Yr holl wrthddrychiau teg eu bryd,
Ac wi'n eu caru oreu gid,
O gongl faith i'r llall o'r byd,
Diflannant wrth dy glyn ;
Os un rhyw eulun ar y don,
A gais ryw loches tan fy mron,
Yn union mi ffieiddiaf hon,
Mi'th garaf di dy hun.

7 Wel dyma'r cariad fydd yn awr,
Yn curo pob cariadau lawr,
Yn llyngcu enwau gwael y llawr,
Oll yn ei enw ei hun ;
O ffiam angerddol, gadarn gref!
O dân ennynnwyd yn y nef,
Tragwyddol gariad ydyw ef,
Wnaeth Duw a minneu yn un.

8 'Dyw tad a mam, a brawd a chwa'r,
A gwraig a phlant, a phawb a'm car,
A'm holl gyfeillion ar y dda'r,
Ond diddim wrth dy glyn ;
Hebot 'dynt ond dim erio'd,
O honot mae eu da yn d'od,
Ni raid chwanegiad yno i fod,
Y lle b'ech ti dy hun.

Yr ail R A N.

1 NID oes ond f' Arglwydd mawr ei ddawn,
A leinw f' enaid bach yn llawn,
Ni's gallwn ddala mwy pe cawn,
Mae ef yn ddigon mawr;
A digon, digon, digon yw
Dy hyfryd breſennoldeb wiw,
Yn angeu ceidw hyn fi 'n fyw,
A bodlon wyf yn awr.

2 Doed y trueiniaid bawb ynghyd,
A rhannent holl dryſorau 'r byd,
Meddiannent eu pleſerau eu gid,
Mewn eithaf blys a chwant;
Nid yw y rhai'n ond llwch y llawr,
I bwyſo heddwch f' Arglwydd mawr,
A gwedd ei wyneb oleu wawr,
Sy'n gyrru'r nos i bant.

3 Anfeidrol berffaith ſanctaidd Fod,
Gwna immi weld na chawd erio'd,
Ac na chair pleſer tan y rhod,
Yn rhagor na'th fwynhau;
Wel dyma'r oriau goſiaf mwy,
A'r pleſer gefais ynddynt hwy,
Ddymunaf bellach fyth tra fw'i,
Yn unig i barhau.

4 Wel ffowch ar ffrwſt bleſerau gid,
Diflennwch oll wrthddrychiau'r byd,
Na boch gael effaith ar fy mryd,
I'm dwyn oddi wrth fy Nuw;
Doed tân a diluw yn gyttun,
Aed dw'r a daear fawr yn un,
Mi fyddaf yr happuſaf ddyn,
Mae'm Iesu etto yn fyw.

5 A phe diffoddai r haulwen fawr,
Pe ſyrthiai ſer y nen i lawr,
A phe diffygiai'r foreu wawr,
A thywyllwch gael ei le;

Cawn drigo mewn ſancteiddiol dir,
Yn llewyrch Haul cyfiawnder pur,
Tragwyddol faith ddiwrnod clir,
O fewn i furiau'r ne'.

6 Pan collo gwellt y maes eu dawn,
A'r wybr faith ei boreu a nawn,
A deſtryw ddod yn gyfan iawn,
Ar nef a daear lawr;
Caf weled ſanctaidd newydd dir,
O degwch ac o bleſer pur,
Yn tarddu maes o'r Duwdod gwir,
Gyd a gogoniant mawr.

7 Ac yno f' enaid bach ti gai,
Dragwyddol bleſer i'w fwynhau,
Na all angel fyth, ond dyn yn llai,
Yn hollol ddodi ma's;
Ond digon yw i'm henaid gwan,
Myfi gaf eſgyn gwn i'r lan,
Ac yſed yno yn y man,
Fyth o afonydd gras.

8 O torr fy llyfetheiriau'n glau,
Mae hiraeth arnaf dy fwynhau,
A dwg fi maes o'r carchar clai,
Rho fy nghadwynau 'n rhydd;
Rhy fach, rhy brin i mi yn awr,
Yw'r holl greadigaeth ehang fawr,
Rwi'n gruddfan beunydd ar y llawr,
Am weld y boreu ddydd.

9 Myfyrio am fynd fydd felus iawn,
Mae f' enaid eiſioes foreu a nawn
Am gynnefino ei nefol ddawn,
A chwareu ei adain bur;
Fel pe b'ai am anturio 'n hy,
Trwy ganol y cymmylau fry,
A neidio i mewn i blith y llu,
Lle mae'r *Meſſiah* gwir.

HYMN LV. *Yr Anialwch a'r* Canaaneaid.

1 PA beth a wnaf fi yma yn byw,
Ymhell, ymhell oddi wrth fy Nuw?
Mewn gwledydd fychion drwg eu rhyw,
Lle diangc pob mwynbau;
Os llewyrch bach o oleuni cawn,
Ar ol cymmylau duon iawn,
Daw temeſtl eilwaith cyn prydnhawn
O ddychryn, aeth a gwae.

2 Mae ngofid yn yr ardal hon,
Yn dod ymlaen o donn i donn,
Does ond gruddfaennau tan fy mron,
Dwi'n gwneuthur dim lleshad;
Ym myſg dieithriaid eon hy,
Gelynion duon, creulon cry,
Oddi wrth y ſawl a garaf fi,
Ymhell o dŷ fy Nhad.

3 Wel dyma'r ardal, dyma'r maes,
Lle y teyrnaſa angeu glas,
A phechod cryf, a Satan gas,
A drygau o bob rhyw;
Mae ngwlad a mhleſer i ei gid,
Fy ſerch, fy ngobaith, a fy mryd,
Fy Nghariad gwerthfawroccaf drud,
Mewn gwledydd gwell yn byw.

4 O gwna i mi wilio bob yr awr,
Rwi'n rhodio tan beryglon mawr,
Ac nid oes dim ond llewyrch gwawr
Dy wyneb gwridog gwyn,
Wna i mi deithio'r anial nos,
Rhyd llwybr cyfyng angeu'r groes,
Myfyrio am dy farwol loes,
Ac hefyd canu hyn.

5 Pan ymddattodo'r tŷ o bridd,
A'm henaid i ddihengu yn rhydd,
O'r holl gadwynau cryfion fydd
Yn dala nawr yn dynn;

Caſ-

Gaf deimlo pleſer uwch y rhod,
Na ddaeth i galon dyn erio'd
I feddwl nac i gredu fod
Y fath fwynhad a hyn.

6 Chwychwi ffynhonnau'r bywyd gwir
Afonydd o bleſerau pur,
Chwi lifwch tros yr anial dir,
Fy enaid lleſg ei wedd;
Chwi lenwch yr ehangder mawr,
Y nwydau ſydd yn wag yn awr,
Ac yn hiraethu bob yr awr,
Am bleſer draw i'r bedd.

7 Fe gaiff fy ſerch, fe gaiff fy mryd,
Ei lanw yn lân ar hyn o bryd,
Pob rhan yn llwyr o'm henaid drud,
A gaiff ei nefol ddawn;
Pob rhyw ddymuniad gaiff mwynhad
Anfeidrol faith, anfeidrol rad,
Pan ddihunwyf yn y nefol wlad,
A'th ddelw di yn llawn.

8 Pob hiraeth, pob ſychedig ddawn,
Fydd marw mewn llawenydd llawn,
Ac enw gobaith mwy nis cawn,
Nac eiſiau byth na thrai;
Ond rhyw bleſerau maith dilith,
Heb drai na therfyn iddynt fyth,
Yn ſicr fel mynyddau ſyth,
Cawn bellach i'w mwynhau.

9 Fy Nuw, fy Nuw, i gid ei hun,
Fydd fy anfeidrol gariad cun,
Llawenydd anchwiliadwy'n un,
A chariad o hono dardd;
Ehangder o oleuni clir,
Mwy diſglair nag o'r Dwyrain dir,
Môr o bleſerau perffaith pur,
Gwrthddrychiau nefol hardd.

10 Llawenydd bythol i'w fwynhau,
Byth ar fy nghoryn yn dd-drai,

A chariad

A chariad perffaith i barhau,
Heb nabod diwedd mwy;
Galar a gruddfan ymaith ffy,
Achwynion a chyſtuddiau lu,
A medu yn y nefoedd fry,
Trwy rinwedd marwol glwy.

HYMN LVI. *Hiraeth am Fwynhad o Dduw.*

1 O Arglwydd gad im dy fwynhau,
Ac onite rwi'n llwfrhau,
Ble ffeindir immi tan y ne',
Un math o gyſur yn dy le.

2 Rhy drwm yw'm hofne i gyd o'r bron,
Rhy drwm yw'r cyſtudd tan fy mron,
Ni wna fy ofnau ond parhau,
Nes cael dy wyneb i'w fwynhau.

3 Pe cawn gyſuron o bob rhyw,
O fewn dy holl greadigaeth wiw,
Os cuddio wnai dy wyneb cu,
Mae'n uffern eilwaith arnaf fi.

4 Fel diſgwyl y gwiliedydd prudd,
O awr i awr am oleu'r dydd;
Ac felly finneu o bryd i bryd,
Sy'n diſgwyl am dy wyneb pryd.

HYMN LVII. *Cariad.*

1 RWY'n dy garu fy anwyl Dduw,
Yn well na phleſer o bob rhyw,
Rwi yn dy garu, dyna ei gid,
Fy holl ddiddanwch yn y byd.

2 Ni's gallaf ddim fynegu p'odd,
Yr wyt ti'n ddigon wrth fy modd;
Datguddir y dirgelwch pur,
Yn hollol yn y neſol dir.

3 Pan dyſgwyf nabod iaith y wlad,
A phur ganiadau tŷ fy Nhad;
Dechreuaf gân, am farwol glwy,
Na chlywir diwedd arni mwy.

4 Can's mae dy harddwch Iesu maw
Yn fwy na harddwch nef a llawr ;
A harddach, harddach fyth o hyd,
Yw hyfryd wedd dy wyneb pryd.

5 Ymhen rhyw oesoedd rif y gwlith,
Fe wel y saint di'n harddwch fyth
A blas o newydd iddynt hwy,
Fydd canu am dy farwol glwy.

HYMN LVIII. *Disgwyliad wrth Ddaw.*

1 O Na ymguddia f' Arglwydd cun,
Oddi wrth fath bryfyn gwael ei lun,
Sy'n teithio trwy bob poen a gwae,
Yn methu beunydd dy fwynhau.

2 Dy bresennoldeb sy mor fawr,
Yn llanw yn hollol nef a llawr,
Ond heb gael gweld dy wyneb cu,
Pa gysur ydyw hyn i mi ?

3 Rwi'n mofyn yn dy deml lân,
Dy weld fel gwelais di o'r bla'n ;
Does ond dy wg wna im' driftau,
Dy wên yn wastad lawenhau.

4 Mi welais gwedd dy wyneb gwyn,
Mewn dirgel leoedd, do cyn hyn,
'Run fyched heddyw, a'r un gais
Sydd ynnof am dy hyfryd lais.

5 A gaf ond hynny weld dy wedd ?
Ond hynny brofi o dy hedd ?
Dy heddwch fy mor fawr ei rym,
Mae 'm nerth i hebddo 'n mynd yn ddim.

6 Pa bryd gwasgara'r tywyllwch du,
Cymmylau o anobaith cry ?
A'r boreu wawr i dywynnu'n rhad
O bur gynteddau tŷ fy Nhad.

HYMN

HYMN. LIX. *DUW oll yn oll.*

1 YMan bech ti fy Arglwydd mawr,
Yn rhoi dy nefol hedd i lawr,
Mae holl happuſrwydd maith y byd,
A'r nef ei hunan yno ei gid.

2 Nid oes na haul, na ſer na llo'r,
Na daear fawr a'i holl yſtor,
Na brawd, na chyfaill, dâ na dyn,
A'm pleſia hebot ti dy hun.

3 Ni's gall angylion nef o'r trwch,
I godi'm hyſpryd gwan o'r llwch;
'Dyw peth creuedig ddim i mi,
Heb fod mewn undeb a thydi.

4 Dyw 'r gair maddeuant immi ddim,
Nid oes mewn gweddi ronyn grym;
A llais heb ſylwedd ynt eu gyd,
Heb immi weld dy wyneb pryd.

5 Na ſoniwch am un pleſer mawr,
Na dim gogoniant ar y llawr;
Nid oes gogoniant o un rhyw,
Na neb rhyw bleſer ond fy Nuw.

6 Pan byddo 'n cuddio ei wyneb cu,
Beth wna teganau'r byd i mi;
Rhith a breuddwydion diau yw
Pob peth a welir, ond fy Nuw.

7 Os collaf wedd ei wyneb-pryd,
'Does dim wna iawn o fewn i'r byd;
'Does dim yn bod o'r ddaer i'r nen,
A ddwg y colled hyn i ben.

HYMN LX. *Tegwch yr Eglwys.* Can. vii. 6.

1 PRiod-ferch Iesu tan ei nod,
Sydd iddo erio'd yn ffyddlon,
Wedi ei phwrcaſu i'r nefol wlad,
A gwerthfawr waed ei galon.

2 Yngwres y dydd, ymhoethder ha',
Yn bur parha dy harddwch ;
Ni's gall y bedd er maint ei rym
Salwino dim o'th degwch.

3 Fy nghariad wyt, fy nghariad pur,
Mi ddes o dir y bywyd.
Des er dy fwyn o fynwes Ion,
I ddioddef po'n a gofid.

4 A phe bai raid mi ddewn yn awr,
O'r nefoedd fawr yn union,
Dioddefwn etto angeu du,
Tros un ag fy mor ffyddlon.

5 Nid dyfais dyn, nid geiriau'n wir,
Nid angel pur ei hunan,
All ddodi'th harddwch mawr i ma's,
Na'th nefol ras yn gyfan.

6 Dy degwch mawr, a'th ddoniau cu,
Rhyfeddol eu rhifedi,
Sy'n rhoi rhyw bleſer im' fy hun,
Na fedr dyn ei gyfri.

7 Dy wiſg fy o aur y gwledydd pell,
A pherlau gwell eu hanian;
Cyfiawnder anherfynol yw,
Cyfiawnder Duw ei hunan.

8 Gwaith edau nodwydd, grafau hardd
O'th fewn a dardd yn gyfon ;
Yn ffrydiau peraidd mae fy ngras,
Yn tarddu ma's o'th galon.

9 Ni welaf yn y nef ei gid,
Nac yn y byd o ddautu,
Does un mor gywir, un mor wynn
A hon wyf yn ei charu.

10 Y mae fy nghalon, mae fy mryd,
Bob awr o hyd yn tynnu,
Am im' fod yno yn ddi-ffael,
Y man bwi'n cael dy gwmpni.

Yr Ail RAN.

1 YR wyt ti'n dêg, yn dêg ei gid,
O fewn y byd cwmpaſog,
Ymhlith y rhai a gawd o ddyn,
Nid oes yr un mor ſerchog.

2 Mae'th wiſgoedd gwynion hyfryd iawn,
Fy nefol ddawn fy hunan,
Fy aur a'm perlau diſglair i,
A'th wiſgodd di yn gyfan.

3 Fy angeu du ar ben y bryn,
Yw 'r lliain gwyn diſgleir-lan,
Sy'n cuddio'th noethni oll yn lân,
Bob pryd o'm bla'n fy hunan.

4 Ti eſt a'm bryd, ti eſt a'm ſerch,
Anwylaf ferch y brenhin;
Fe fydd i'm hyſpryd bellach byth,
Tro ynnot chwyth dy ganlyn.

HYMN LXI. O'r *Caniadau* viii. 6.

1 O Iesu 'r Arch-offeiriad mawr,
Rho'm henw ar dy fraich i lawr;
Rho eilwaith mewn llythrennau clir
Fe ar dy ddwyfron ſanctaidd bur.

2 Fel deued arnaf bob rhyw dro,
Fyth gallwyf fod o fewn dy go':
Na byddo arnaf unrhyw faich,
Ond fyddo'n pwyſo ar dy fraich.

3 Na bo na phoen, na chyſtudd nwyf,
Na phroſedigaeth fyth na chlwyf,
Na dim ochneidiau, na dim dîr,
Ond pwyſo ar dy galon bur.

4 Fel gallwyf fyth yn ſicr fod,
Yn briod ffyddlon tan dy nôd;
Ac na bo unrhyw ofn mwy,
Yn ddirgel yn rhoi immi glwy'.

5 A gwa

5 A gwna fy nghariad innau'n rhydd
I redeg attat ti bob dydd ;
A gwiſgo'th enw ſanctaidd llon,
Fel ſeren ddiſglair ar fy mron.

6 A dod fy nghalon wag yn llawn,
O'th gariad peraidd fore a nawn ;
Car ditheu finneu yn ddidrai,
A'r undeb yma fyth barhau.

Yr Ail RAN.

1 TI 'r Arch-offeiriad mawr ei ddawn,
Sydd o bob rhyw rinweddau'n llawn,
Gwna fi fel perlau gwerthfawr drud,
Yn fawr, yn anwyl yn dy fryd.

2 Dy briod wyf, ac 'rwyf yn wan,
Dy unig nerth a'm dal i'r lan :
Dy nerth a'th gariad dyna hwy,
Nid ofnaf ddim gelynion mwy.

3 Mi ddringa'r creigydd mawrion ſerth
Mi gongcra Satan trwy dy nerth ;
'Dyw eirth a llewod immi ddim,
Pan bo dy freichiau immi yn rym.

4 Os bydd dy galon gynnes gu,
Unwaith yn caru'm hyſpryd i,
'Does gofid bellach, nid oes gwae,
Fath nefoedd ydyw dy fwynhau.

HYMN LXII. *O'r* Can. viii. 6. *Cariad ſydd gryf*, &c.

1 ANſeidrol felus yw dy hedd,
A chryf yw'th gariad fel y bedd ;
Lle caroſt di 'does dw'r na thân,
Nac un rhyw rwyſtr ſaif o'th fla'n.

2 Dy gariad neidiodd uwchder mawr,
O faith eithafoedd nef i lawr ;
Ni's gallſai tân nac afon gref,
I attal dim o hono ef.

3 Ni's gallfai'r creigydd mwya ferth,
Na fflammau uffern yn eu nerth ;
Na dim oddiar, neu îs y rhod,
Yn drech na'th gariad pur i fod.

4 Mae'n difa'r dw'r, mae'n difa'r tân,
Mae'n difa'r cwbl oll o'i fla'n ;
Y mae yn cario yn ei wedd,
Ryw beth ag fydd yn conc'ro'r bedd.

5 Rhyw fflam angherddol gadarn gref,
O fewn i'm hyfpryd ydyw ef ;
Gwrychionen yw, mawr iawn ei rhin
O'r fflammau fy ynnot ti dy hun.

6 Ac er nad ydwyf fi ond gwan,
Ar ei adenydd af i'r lan ;
Neu huno mewn awelon pur,
A rhoi ffarwel i'r anial dir.

7 Anghofio'm cnawd, anghofio'r byd,
Anghofio'm holl deganau i gyd ;
Ac wrth fyfyrio ar dy hedd,
Anghofio angeu glâs a'r bedd.

8 Mae'th gariad gwerthfawroccaf drud
Yn fwyd, yn ddiod i mi o hyd ;
Mae'n gwmpni, mae'n llawenydd llawn,
Mae'n bob peth i mi foreu a nawn.

HYMN LXIII. *O'r Can.* viii. 6. *Eiddigedd fydd yn gryf fel Angeu.*

1 OND Oh ! eiddigedd fydd yn lladd,
Yn greulon iawn o radd i radd,
'Does iddo feddyginiaeth ddim,
Ond profi 'th gariad yn ei rym.

2 Rhyw ofnau ynnwi'n fynych mae,
Nad yw dy gariad yn parhau ;
Neu ofni eilwaith nad wyf fi
Yn ffyddlon yn dy garu di.

3 Rwi'n ofni gad dy Yſpryd cun,
Fi deithio'r llwybr cul fy hun ;
Rwi'n ofni na chaf ddim o'th hedd,
Yn erbyn uffern fawr a'r bedd.

4 Rwi'n ofni'r twyll, rwi'n ofni'r grym
Sydd ymhob eulun tanbaid llym ;
Rwi'n ofni ryw bryd gwelai'r awr,
Y caiff fy meiau cas fi lawr.

5 Ond yno mae fy eiddigedd hyf,
Yn fwya creulon, fwya cryf ;
Pan byddwyf bron ac ammen'th fod
Heb etto ngharu'n wir erio'd.

6 O nad fy ffydd byth i wanhau,
Nad yw dy gariad i barhau ;
Fel bo eiddigedd mawr ei rym,
O'r diwedd wedi mynd yn ddim.

HYMN LXIV. Can. viii. 7.

Dyfroedd lawer ni allant ddiffodd Cariad, &c.

1 ANfeidrol yw dy gariad drud,
A threch na'r cwbl yn y byd;
Rhyw fflam angherddol gadarn lym
Does tan y nef a'i maedda ddim.

2 Mae'n drech na'r dyfroedd mawr eu llid,
A'r fflammau tanllyd oll eu gid ;
Nid allſai'r groes, a'r biccell gref,
I ddiffodd dim o hono ef.

3 Ni's gallſai dynion creulon hy,
Na ſatan a'i uffernol lu,
Nac uffern fawr, na'r nef o'i bron,
I ladd y cariad tan ei fron.

4 Gwreichionen yw o'r fflammau fry,
Ennynwyd yn fy nghalon gu ;
Pwy for, pwy ddw'r, pwy afon fawr
A dyrr fy nghariad innau lawr.

5 Nid ofnau, nid deniadau'n hwy,
Wna im' anghofio ei farwol glwy';
Nid uffern fawr a'r ddaear hon,
A ladd yr awel tan fy mron.

6 Mae ynnof fflammau pur o dân,
A lyfg y cwbl oll o'u bla'n;
Nid einioes, ac nid angeu mwy,
A ddiffodd ddim o honynt hwy.

7 Nid goleu'r dydd, na thywyll nos,
Na gwynfyd llawn, neu ynte'r gro's,
Neu angel pur, neu ynte ddyn,
Na chnawd, na fatan yn gytun.

8 Pe cnigyd cyfoeth i mi'n rhodd,
Neu fri neu bleſer wrth fy modd,
Gwrthodid hwynt gan gariad drud,
I gariad, gwagedd ynt eu gid.

9 Diyſtyra cariad, cariad cu,
Oll a gyfladlo a thydi;
'Dyw gorfeddfeingciau iddo fe,
Ddim ond rhyw fotod yn dy le.

HYMN LXV. Job xxxv. 10. *Yr hwn fydd yn rhoi achoſion i ganu y nos.*

1 TYdi fu'n dioddef ar y gro's,
Wna i'n henaid ganu ganol nos
Mewn tw'llwch mewn cymylau o lid,
Nes elo'r tywyllwch heibio gid.

2 Does dim a ddeil ein henaid gwan,
Tan orthrymderau'r byd i'r lan,
Ond rhyw lawenydd diſtaw main,
I ganu a diyſtyru rhai'n.

3 Wel dyma'r gân ddymunaf mwy,
Sef canu am dy farwol glwy';
Ac nid oes arall wna iachad,
Ond canu yn unig am dy wa'd.

4 Tan holl gyſtuddiau'r ddaear hon,
Tan bob gorthrymder oll o'u bron;

Mi af trwy'r dw'r, mi af trwy'r tân,
Ond cael d' orfoledd immi'n gân.

5 Ni ddaw piccellau'r ddraig i'm cwrdd,
Mi gana 'm temtaſiwnau ffwrdd;
Nid ofnaf ddim a fo o'm bla'n,
Ond cael d' orfoledd immi'n gân.

HYMN LXVI. Can. Salomon iv. 16.

Deffro Ogledd-wynt, tyred Ddeheu-wynt, chwyth ar fy Ngardd, &c.

1 O Tyred y gogledd-wynt clir,
Anadla ar dy lyſiau pur;
Ac oni ddeui mewn iawn bryd,
Fe wywa 'r graſau oll eu gid.

2 Tyrd a'r awelon hynny lawr,
Sy'n deffro'r argyhoeddiadau mawr;
Tyr'd ditheu y deheu-wynt clud,
Sy'n codi 'n henaid uwch y byd.

3 Doed pob awelon yn eu lle,
I godi'm hyſpryd tu a thre',
Gwnaed pob rhyw foddion, pob rhyw ddawn,
I'th lyſiau ber-arogli 'n iawn.

4 Fel byddo pob rhyw nefol ras,
Yn tannu ſafwr pur i ma's;
A phob tymmerau yn eu rhyw,
Oll yn groeſawi fy anwyl Duw.

5 O tyr'd i'th ardd f' Anwylyd pur,
Mae 'r amſer hebot yma 'n hir,
Bwytta dy ffrwyth o nefol rin,
Pereiddiaf blannaiſt ti dy hun.

HYMN LXVII. *Fy Anwylyd ſydd wyn a gwridog, &c.*

1 O S gofyn neb ſydd ar y llawr,
Pam carai 'n llyn fy Issu mawr?
Pe gwelai pawb ef fel y mae,
Deu 'r byd i'w garu yn ddi-lai.

5 Nid ofnau, nid deniadau'n hwy,
Wna im' anghofio ei farwol glwy';
Nid uffern fawr a'r ddaear hon,
A ladd yr awel tan fy mron.

6 Mae ynnoi fflammau pur o dân,
A lyfg y cwbl oll o'u bla'n;
Nid einioes, ac nid angeu mwy,
A ddiffodd ddim o honynt hwy.

7 Nid goleu'r dydd, na thywyll nos,
Na gwynfyd llawn, neu ynte'r gro's,
Neu angel pur, neu ynte ddyn,
Na chnawd, na fatan yn gytun.

8 Pe cnigyd cyfoeth i mi'n rhodd,
Neu fri neu bleſer wrth fy modd,
Gwrthodid hwynt gan gariad drud,
I gariad, gwagedd ynt eu gid.

9 Diyſtyra cariad, cariad cu,
Oll a gyſtadlo a thydi;
'Dyw gorſeddfeingeiau iddo fe,
Ddim ond rhyw ſorod yn dy le.

HYMN LXV. Job xxxv. 10. *Yr hwn ſydd yn rhoi achoſion i ganu y nos.*

1 TYdi fu'n dioddef ar y gro's,
Wna i'n henaid ganu ganol nos
Mewn tw'llwch mewn cymylau o lid,
Nes elo'r tywyllwch heibio gid.

2 Does dim a ddeil ein henaid gwan,
Tan orthrymderau'r byd i'r lan,
Ond rhyw lawenydd diſtaw main,
I ganu a diyſtyru rhai'n.

3 Wel dyma 'r gân ddymunaf mwy,
Sef canu am dy farwol glwy';
Ac nid oes arall wna iachad,
Ond canu yn unig am dy wa'd.

4 Tan holl gyſtuddiau'r ddaear hon,
Tan bob gorthrymder oll o'u bron;

Mi af trwy'r dw'r, mi af trwy'r tân,
Ond cael d' orfoledd immi'n gân.

5 Ni ddaw piccellau'r ddraig i'm cwrdd,
Mi gana 'm temtaſiwnau ffwrdd;
Nid ofnaf ddim a fo o'm bla'n,
Ond cael d' orfoledd immi'n gân.

HYMN LXVI. Can. Salomon iv. 16.

Deffro Ogledd-wynt, tyred Ddeheu-wynt, chwyth ar fy Ngardd, &c.

1 O Tyred y gogledd-wynt clir,
Anadla ar dy lyſiau pur;
Ac oni ddeui mewn iawn bryd,
Fe wywa 'r graſau oll eu gid.

2 Tyrd a'r awelon hynny lawr,
Sy'n deffro'r argyhoeddiadau mawr;
Tyr'd ditheu y deheu-wynt clud,
Sy'n codi 'n henaid uwch y byd.

3 Doed pob awelon yn eu lle,
I godi'm hyſpryd tu a thre',
Gwnaed pob rhyw foddion, pob rhyw ddawn,
I'th lyſiau ber-arogli 'n iawn.

4 Fel byddo pob rhyw nefol ras,
Yn tannu ſafwr pur i ma's;
A phob tymmerau yn eu rhyw,
Oll yn groeſawi fy anwyl Duw.

5 O tyr'd i'th ardd f' Anwylyd pur,
Mae 'r amſer hebot yma 'n hir,
Bwytta dy ffrwyth o nefol rin,
Pereiddiaf blannaiſt ti dy hun.

HYMN LXVII. *Fy Anwylyd ſydd wyn a gwridog, &c.*

1 O S gofyn neb ſydd ar y llawr,
Pam carai 'n llyn fy Iesu mawr?
Pe gwelai pawb ef fel y mae,
Deu 'r byd i'w garu yn ddi-lai.

2 Does un rhyw harddwch yn y byd,
Nac un o ſewn y nef ei gid,
Na gras, doethineb, nerth na dawn,
Nad yw ef yn ſy Iesu yn llawn.

3 Mae'n wyn, mae'n ſanctaidd, mae'n ddi-fai,
Mae'n wridog, colli ei waed a wnai,
Mae'n iawn tragwyddol, aberth mawr,
Yn gymmwys i mi llwch y llawr.

4 Nawr Brenhin y brenhinoedd yw,
Uwch i'w gymmaru a dynol-ryw;
Rhinweddau'r Duwdod yn gyttun,
Sy nawr yn ddiſglair ynddo ei hun.

5 Mewn pleſer di-drai iddo ef,
Mae'n canu'n gyſon nef y nef;
Cerubiaid a ſeraphiaid cun,
Eu gyd yn ſeinio eu cân yn un.

Yr Ail RAN.

1 RHagori mae ar oll eu gyd,
O'r gwychaf bethau yn y byd;
Nid yw brenhinoedd mawr eu grym,
I ſefyll wrth ei yſtlys ddim.

2 'Dyw'r aur a'r arian yma i gael,
Na'r perlau gid ond ſorod ſael;
Na'r holl fwyngloddiau mawr eu bri,
Yn gymmar ddim i'm Harglwydd cu.

3 Pe byddai wedi eu caſglu ynghyd,
Holl werthfawroccaf bethau'r byd,
Y mae ei hun yn gan mil mwy,
Na chymmaint arall honynt hwy.

4 'Dyw tad, a mam, a brawd, a chwa'r,
Na gwraig, na phlant, a phawb a'm car
Ond pethau i 'madael a hwy yn un,
Cyn colli ei gwmpni ef ei hun.

5 Deng mil o angylion nef o'u bron,
Dng mil o ſeintiau 'r ddaear hon,
A deng mil eraill lawn nid yw,
Ond dim yn ochor Iesu'm Duw.

HYMN LXVIII. *O'r* Can. iii. 11.

Ewch allan Merched Seion, ac edrychwch ar y Brenhin, &c.

1 DEwch ferched *Seion*, dewch yn llu,
Dewch allan i ryfeddu,
A gweld eich Brenhin gwridog gwyn,
Yr awr hon yn teyrnafu.

2 Fe wifgodd un waith cyn prydnhawn,
Yn dawel iawn a diddig,
Er cymmaint poen oedd pigau main,
Y goron ddrain blethedig.

3 Fe ddarfu ei boen 'nawr gwelwch e,
O fewn y ne'n difgleirio;
Mewn gwifg gogoniant pur dinam,
A rodd ei fam om dano.

4 Tragwyddol glod, a mawl didrai,
Yw'r goron mae yn wifgo:
Ei nerth, a'i ras, a'i farwol glwy,
Yw'r caniad mwy fydd iddo.

5 Dewch allan bellach, dewch ar frys,
Gadewch eich blys anwyla;
Edrychwch ar y Brenhin, dewch,
Ac yna cewch eich gwala.

6 Dydd ei ddiweddi heddyw yw,
Diwrnod Duw ei hunan;
Ei hun bu'r achos hono fod,
Boed iddo'r clod yn gyfan.

Yr Ail RAN.

1 OH! Frenhin mawr! Oh! D'wyfog cun!
'Does iddo un yn gymmar;
Na neb i wifgo gyd ag ef,
Ogoniant nef a daear.

2 Wel, dyma'r dydd mae'n llawenhau,
I weld ei rai anwyla,

Yn

Yn ei briodas bur yn cwrdd,
Ac ar ei ſwrdd yn gwledda.

3 Priodas yw a rhwym dilith,
Na thorrir fyth o'r undeb;
Gorfoledd yw, a hwn barha,
Hyd eitha tragwyddoldeb.

4 Rhowch arno'ch goglud oll i gid,
Eich ſerch, a'ch bryd yn gryno;
Ac nid oes arall a gaiff hawl,
Ond ef y ſawl a gredo.

5 Gadewch y byd mae'n mynd ar goll,
Gadewch ei holl eulunod;
Dewch i'r briodas bawb ynghyd,
Pob peth ſy gid yn barod.

6 Mae'r Brenhin mawr yn hardd ei ddrych,
A'i wiſgoedd gwych o ddautu,
Mae perlau drud ei werthfawr ras,
Eu gyd i ma's yn tywynnu.

Y Drydedd RAN.

1 WEL, dyma'r dydd nid yw ond gwawr
Goleuni nawr ſy 'n dyfod;
Pan delo ef a'i lu ei gid,
I gwrdd ynghyd a'i briod.

2 Pryd hyn y cân neſolaidd lu,
Angylion di-riſedi;
I weld yr undeb mwya erio'd,
Nawr wedi dod i fynu.

3 A chlod ar glod di-drai ei ras,
Ledana ma's mor helaeth,
Nes ſeinio trwy holl entrych ne',
Am ddyfais iechydwriaeth.

4 Gad in' Dywyſog mawr ei fri,
I fod a thi mewn undeb;
Ac eiſtedd yn dy wleddoedd bra,
Hyd eitha tragwyddoldeb.

HYMN LXIX. *O'r Can. i. 12.*
Tra yw 'r Brenhin wrth ei Fwrdd, &c.

1 NAWR ar ei fwrdd mae'r Brenhin mawr,
Mewn gwisg o gariad hyd y llawr;
Yn rhoddi'n rhad o'i hyfryd wledd,
I mi faddeuant llawn a hedd.

2 Pan byddo'n eistedd yno ei hun,
Mae'm holl rasusau yn gyttun,
O fwy rhinweddau'n torri ma's,
Nag ason ar y crin-dir cras.

3 Mae per-aroglau cariad pur,
Yn mynd ar adain awel bur;
Ac yn cofleidio oll eu gyd,
Gyseillion Iesu yn y byd.

4 Haul hyfryd yw i'm henaid gwan,
Sy'n rhoddi'r grasau darddu i'r lan;
Mae'm hyspryd egwan wrth ei fodd,
Pan t'wynno ei lewyrch arnai'n rhodd.

5 Ond os absennol fydd efe,
A chwmmwl du-dew yn ei le,
Ni feddaf ddim ond poen a gwae,
A rhyw anghredu a llwfrhau.

6 Yn union pan y delo 'n ol,
A minneu 'n huno yn ei gôl,
Does ynnof ras, does ynnof ddawn,
Nad yw 'n arogli'n hyfryd iawn.

7 Yn fuan tyrd fy Arglwydd cun,
O eistedd wrth dy fwrdd dy hun,
A boed dy wleddoedd i barhau,
A minneu byth i lawenhau.

HYMN LXX. *O'r* Can viii. 3.
Ei Law asuy, &c.

1 FY Iesu pen-tywysog nef,
Nid oes gyffelyb iddo ef;

Cael

Cael huno yn ei gariad drud,
Sydd fil o weithiau'n well na'r byd.

2 Mae ei law aſwy fawr ei grym,
O tan fy mhen nid ofnaf ddim ;
Ei ddeheulaw ſy'n fy mawrhau,
A phob cyſuron pur didrai.

3 Ei breſennoldeb ſydd yn dod,
I mi a'r pleſer mwya erio'd ;
Ei allu mawr a'i gariad drud,
Sydd yn gymdeithion im' o hyd.

4 Wel, dyma f' enaid wedi dod,
I'r man dymunais gan waith fod,
I gael mwynhad o'i gariad ef,
Arfaethwyd cyn ſeilfaenu'r nef.

5 O groeſo groeſo nefol rodd,
Does arall bellach wrth fy modd,
Ond cael bod yn dy freichiau mwy,
A chanu am dy farwol glwy.

HYMN XLXI. *O'r* Can. i. 2. *Dy Gariad ſydd well na'r Gwin, &c.*

1 Y Mae dy gariad mawr ei rin,
Yn llawer gwell na'r melus win ;
Fe ddwg, fe god fy enaid gwan,
O ddyfnder ofnau mawr i'r lan.

2 Pan byddwyf mewn tywyllwch du,
Yngbanol torf o elynion hy,
Fe dyn dy gariad pur fi ma's,
I ganu'r gwaredigol ras.

3 Pan byddo ofnau o bob gradd,
Yn gwaſgu'n galed bron fy lladd,
Rhyw nerth ſydd gan dy gariad cun,
I ddod a'm henaid atto ei hun.

4 Mi deithia'r nos, mi deithia'r dydd,
Mi deithia'r criegydd mwya ſydd ;
Nid ofnaf eirth a llewod ddim,
Ond bod dy gariad i mi'n rym.

5 Ni

5 Nid ofnaf ddim o'r diluw mawr,
Sy'n bygwth i orchgudddio'r llawr;
Na'r afon gref, a'r môr a'i donn,
Ond bod dy gariad tan fy mron.

6 Mi allaf fod wrthyf fy hun,
Heb gwmpni 'r byd, neu gwmpni dyn,
Heb unrhyw gyfur tan y nef,
Ond huno yn ei gariad ef.

HYMN LXXII. O'r Can. vii. 11.

Tyred fy Anwylyd, awn i'r Maes, lletlyun yn y Pentrefydd.

1 TYr'd fy anwylyd, tyr'd i ma's,
O dwrf y byd a'i ddwndwr cas
I mi gael dy gymdeithas gun,
Yn ddiſtaw lonydd wrthyf f' hun.

2 Ac yno caf fi wir driſtau,
Ac yno hefyd lawenhau;
A gweld yn eglur yn y fan,
Dy fod dy hunan i mi yn rhan.

3 Yn dy gwmpeini gwerthfawr drud,
Mae pob pleſerau yn caſglu 'nghyd;
Un awr, un funyd fach o'th hedd,
Sydd fwy na'r gwerthfawroccaf wledd

4 Awn i'r pentrefydd cyn hwyrhau,
Lle mae terfyſgau'r byd yn llai;
Cawn garu yno o awr i awr,
Nes gwawrio'r tragwyddoldeb mawr.

5 Cawn lechu'n dawel yno 'nghyd,
Anghofio'n poen, anghofio'r byd,
Dibrifio'r cwbl îs y rhod,
A llawenhau mewn dydd fy'n d'od.

6 O dere ARGLWYDD, dere'n glau,
Mae nawr yn tynnu at hwyrhau;
Mae twrf a rhwyſg y ddinas fawr,
Yn curo 'm henaid bach i lawr.

HYMN LXXIII. O'r Can. i. 3. *O ran arogl dy ennaint, dy enw ſydd fel ennaint tywallt-edig, am hynny y gwyryfon a'th garant.*

1 TI yw'r arch-offeiriad mawr ei ddawn,
Tywalltwyd ennaint arno'n llawn;
Olew llawenydd mawr ei rin,
Uwch dy gyfeillion bob yr un.

2 Mae dy aroglau'n tannu ma's,
Ymhlith gwyryfon, nefol ras;
Yn ennyn tân ond braf ei ddawn,
Sy'n lloſgi foreu a phrydnhawn.

3 Dy gariad yw yr ennaint gwir,
Sy'n tynnu ſerch gwyryfon pur,
Fel nad oes cariad gan yr un,
Tu yma'r nef ond ti dy hun.

4 Mae dy enwau o ba benna ryw,
Dy enw yn ddyn, dy enw yn Dduw,
Offeiriad, Prophwyd, Brenhin mawr,
Oll yn arogli yn ber yn awr.

5 Y mae gwyryfon ſanctaidd cun,
Yn canu i'th enwau yn gyttun;
Ac mae dy ditlau yn rhoi blas,
Uwch holl bleſeran'r ddaear las.

6 Ni'th garwn di anwylaf Oen,
Pa gyflwr bynnag ynddo b'on;
Ni'th garwn mwy tro ynnom chwyth,
Ac yn y nef ni'th garwn fyth.

HYMN LXXIV. *Yr Arglwydd yw fy Nerth.*

1 GElynion ſydd o feſur mawr,
Yn curo f' enaid bach i lawr,
Rhaid i mi gael dy nefol ras,
Cyn gallwi'n hollol gario'r ma's.

2 Cryf yw dy fraich, mawr yw dy rym,
Nid oes a ſaif i'w herbyn ddim;

Gai

Gair o dy enau di dy hun,
Ladd fy ngelynion bob yr un.

3 Mawr iawn yw'r concweſt hynny gad
O ddechreu'r byd yn rhin dy waed,
Run rhyw elynion ydynt hwy,
Nawr ſy'n gwrthnebu'th farwol glwy.

4 Dy hunan yw yr oll ei gid,
A welir yma yn y byd;
Dy hunan yw rydd farwol glwy,
I'm holl elynion pe baent fwy.

5 Rho i mi lechu yna yn glud,
Tu hwnt i ſwn fy meiau gyd;
Uwch twrf a themtaſiwnau'r llawr,
Tan gyſgod dy gyſtawnder mawr.

HYMN LXXV. *Haeddiant yr Oen.*

1 DOES arnaf eiſiau yn y byd,
Ond golwg ar dy haeddiant drud,
A chael rhyw brawf o'i nefol rin,
I 'mado yn lân a mi fy hun.

2 Rwi yn ei weld, ei weld o bell,
Na'r cwbl dan yr haul yn well,
Ond O na allwn ddringo nawr,
I'r man lle mae 'n diferu lawr.

3 Er bod dy haeddiant gwerthfawr drud,
Yn fwy na'r nef, yn fwy na'r byd,
Yn rhyw anfeidrol berffaith iawn,
Rwi'n methu gorphwys arno'n llawn.

4 Rhyw ymdrabaeddu yn fy ngwa'd,
Ynghanol dyrus anial wlad;
Yn ceiſio dringo fyth i'r lann,
Heb etto ddod i'r hyfryd ſan.

5 O ſlaen y drugareddfa fawr,
Yn trengu wrth dy draed i lawr,
Gwel y pechadur dua gaed,
Yn breſu am rinweddau'th waed.

HYMN LXXVI. *Breſw am Gyſiawnder.*

1 YN yr anial rwyf yn gruddfan,
Ymdrabaeddu yn fy ngwaed,
Nid yw'r chwant ſydd arnaf godi,
'N abl fy rhoi ar fy nhraed;
Do, ſe'm lladdwyd gan ddymuniad,
Ac nid yw dymuno im',
Ragor na gwneud i mi yn oleu,
Nad oes ynnof ronyn grym.

2 Mae odfauon yn mynd heibio,
Dyddiau wedi eu treulio ma's,
Heb ddim cyfri nawr o honynt,
Ond griddfannu am dy ras,
Rhaid i mi gael mwy na hynny,
Dy gyfiawnder i mi yn rhan,
Onite yn fiwr mi drengaf,
Cyn y delwyf byth i'r lann.

3 Pa le bynnag yr edrychwyf,
Tu a'r llawr, neu ynte i'r lann,
Dryſu 'n rhyw le ynnof f' hunan
Rwyf heb ſymmud dim o'r fan;
Ceiſio gwneuthur, methu gwneuthur
Ffaelu pwyſo ar dy rym,
Oni ddeui i'r maes dy hunan,
A fy nymuniadau'n ddim.

4 O gyfiawnder pur tragwyddol!
O gyfiawnder maith di-drai!
Rhaid i'm henaid noeth newynllyd
Gael yn fuan dy fwynhau;
Rho dy wiſg ddiſgleir-wen oleu,
Cuddia'm noethni hyd y llawr,
Fel nad ofnwyf mwy ymddangos
Fyth o flaen dy orſedd fawr.

5 Nid oes gennyf ddim ond brattiau,
Dail yw'm gwiſgoedd goreu gid,
Tân digofaint oll a'n dua,
Llyſg y ſoſi crâs ynghyd;

Gw

Gem a *phorlan* gwerthfawroccaf,
Gwell nag eiddo'r *India* draw,
Yw'th gyfiawnder i ymddangos,
O fy mhlaid y dydd a ddaw.

6 Wrth yr orfedd nad fi feddwl
Am ddim haeddiant tra fwyf byw,
Nac addoned, na dymuniad,
Na dyledfwydd o uorhyw;
Iesu yn unig tan y fflangell,
Iesu yn hongian ar y gro's,
Bydded immi yn ddifyrrwch
O foreuddydd hyd y nos.

7 Dyma'r fan, a thyma'r cyfgod,
Dyma'r tryfor gwerthfawr drud,
Ddal fy enaid yn y corwynt,
Dyfroedd mawr anfeidrol lid;
Dyma yn unig wyf yn geifio,
Dyma geifiaf tra fwyf byw,
Bwytta, yfed fyth a gwifgo
O gyfiawnder pur fy Nuw.

HYMN LXXVII. *Crift oll yn oll.*

1 O'I yftlys bur yn cwympo lawr,
Yn afon fawr lifeiriol;
Hedd a maddeuant fy'n ddi-drai,
Fyth i barhau'n dragwyddol.

2 Rhaid immi gael pob gras, pob dawn
O'th dryfor llawn yn gyfan;
Ac oni chaf, fy enaid prudd
A goll y dydd yn fuan.

3 Dy wifg dy hun, cyfiawnder hael,
Sydd raid im' gael ymlaenaf;
Nid oes ond ofni tan fy mron,
Nes caffwyf hon am danaf.

4 Dy nerth drachefn rho i'm rhan,
Nid wyf ond gwan yn erbyn
Torf o elynion creulon cry,
Yn waftad fy'n fy nghanlyn.

5 O fy Iachawdwr gwerthfawr rhad,
Nid oes ond gwaed dy galon ;
Yn unig gyfur tan y ne',
Ddiddana'r pererinion.

6 Y fawl a ddelo doed yn ewn,
Yn awr i mewn i wledda ;
Fe gaiff ddanteithion mawr eu rhin,
A melus win ei wala.

7 Fe gaiff y *Manna* pur o'r nen,
Sy'n tyfu ar bren y bywyd ;
A'r dw'r fy'n llifo'n afon bur,
O graig a thir y bywyd.

8 Caiff niwl a thân byth ar ei daith,
Nes byddo ei waith yn gorphen,
A gorphwys yn ei farwol glwy,
Nes myned trwy'r *Iorddonen*.

HYMN LXXVIII. *Y Briodas.*

1 DEuwch hil fyrthiedig *Adda*,
Daeth y *Jubil* fawr o hedd,
'Rys yn galw pawb o'r enw
I fwynhau tragwyddol wledd ;
Bwrdd yn llawn yma gawn
O foreu ddydd hyd brydnhawn.

2 Dewch y deillion, dewch y cloffion,
Dewch y gwiwedigion rai,
Ymadewch o'r blaen ag oeddech
Yn cael pleſer i'w fwynhau ;
Chwi gewch win, nefol rin,
Yma i'w yfed yn ddibrin.

3 Ceiſiwch wiſgoedd y briodas,
Gwiſgoedd hyfryd hardd eu lliw,
Nid oes enw teilwng arnynt
Ond Cyfiawnder pur fy Nuw ;
Lliain main yw y rhain,
Sydd yn cuddio pob rhyw ſtain.

4 Dyma'r wledd y cewch ddanteithion,
Yma cewch faddeuant rhad ;

Yma cewch chwi brofi'r cariad,
Hedd yn nofio yn y gwa'd ;
Dewch yn awr dyrfa fawr,
Ac eiſteddwch yma lawr.

5 Yma cewch chwi weld y ffynnon,
Dw'r a gwaed yn afon fawr,
O'r archollion wnaeth y biccell,
Ar *Galfaria* yn d'od i lawr ;
Cewch lanhad a iachad,
Cewch eich beiau tan eich tra'd.

6 Chwi gewch yfed yn ddioſn,
Chwi gewch fwytta yn ddi-drai,
Pob rhyw beth ddymuno'ch calon,
Chwi gewch yno i'w fwynhau ;
Gyd ag e' hyfryd le,
Fyth o fewn terfynau'r ne'.

HYMN LXXIX. *Ofnau.*

1 Y Mae arnaf fil o ofnau,
Ofnau mawrion o bob gradd,
Oll yn gwaſgu gyd â'u gilydd
Ar fy yſpryd bron fy lladd ;
Nid oes gallu all gongcwero,
Torf o elynion ſydd yn un,
Congcro ofn gelyn mwyaf,
Ond dy allu di dy hun.

2 Ofni rwyf na's ce's faddeuant,
Ac na's caf faddeuant mwy,
Ofni'n fynych na ches olwg,
Etto ar dy farwol glwy ;
Ofni bod fy meiau'n taro,
Yn erbyn iechydwriaeth rad,
Ac na chaiff fy enaid egwan,
Fyth ei olchi yn y gwa'd.

3 Gweled eraill yn trafeilio,
Fynu fry i ben y bryn,
Mi'n drabaeddu yn y pechod,
Pechod accw 'r pechod hyn ;

Gwneud

Gwneud fy hunan heddyw'n enog,
Heno 'n ceisio 'difarhau,
Ofn marw sy'n rheoli,
Etto'n ffaelu ufuddhau.

4 Nid oes awel fach yn dyfod,
Fyth o'r gogledd draw na'r de',
Nad yw yn fy yspryd ofnog,
Yma'n fuan gael ei lle;
Nid oes gweddi, nid oes odfa,
Nid oes cam ro'i ar y den,
Nad yw ofn yn teyrnasu,
Yn ddirgelaidd tan fy mron.

5 Tyred yr awelon hyfryd,
Tyred dros y bryniau pell,
Tan eich adain dawel rasol,
Dygwch y newyddion gwell;
Dygwch newydd at fy enaid,
Fy enw inneu yno ga'd,
Dedwydd enw yn argraphedig,
Yn yr iechydwriaeth rad.

6 Boed cysiawnder maith y nefoedd,
Yno i sefyll o sy mlaen,
Yn nysnderoedd mwyaf ofn,
Yn nysnderoedd dw'r a thân;
O gysiawnder aros yno!
Ar fy mron ar hyn o bryd,
Pan bo angeu yn gwahanu,
'M corph a'm henaid yn ei lid.

7 Annioddefol ydyw meddwl,
Marw heb im' wybod p'un,
A bod dy gysiawnder perffaith,
Wrth fy enaid bach ynglyn;
Dyna 'r awr wyf fi'n ei ofni,
Dyna'r awr yn gysyng sydd,
Rho im' nerthoedd y pryd hynny,
Nes bo im' ddihengu'n rhydd.

HYMN LXXX. *Gwlad well.*

1 O Tyred Awdwr hedd,
A chyfod ni o'r bedd, y pydew prudd;
Ein henaid griddfan mae,
Am gael ei wir iachau,
O dere dere yn glau, rho ni yn rhydd.

2 Ond gweled rym y wlad,
A dedwydd dŷ ein Tad, tros fryniau pell;
Ardaloedd lle y mae,
Ffynnonau 'n dyfrhau,
Llawenydd yn ddi-drai, paradwys gwell.

3 'Does yma ddim i'w gael,
Ond rhyw bleseraa gwael, na thal mwynhau;
Mae'm hyfpryd mewn rhyw gur,
Am fyned cyn bo hir,
I'r man mae gwynfyd pur, byth i barhau.

4 Mae cymmaint yma o boen,
Heb gwmpni 'r anwyl Oen, bob awr o'r dydd;
Gelynion creulon cry,
Hen lewod mawrion lu,
A dreigiau yn drygu fy, O! na bawn rydd.

HYMN LXXXI. *Yr Anialwch.*

1 C'Yfarwydda'm henaid Arglwydd,
Pan bwi'n teithio mlaen ar hyd
Llwybrau cullion dyrus anodd,
Sydd i'w cerdded yn y byd;
Cnawd ac yfpryd yn rhyfela,
Weithiau cariad, weithiau cas,
Tonn ar donn fydd yn gorchguddio
Egwyddorion nefol ras.

2 Weithiau torf yr ochr aſwy,
Weithiau torf yr ochr dde',
Ffaelu a deall pun fy'n canlyn
Hyfryd lwybrau Brenhin ne';

Dryfu

Dryſu mewn rhyw fyſyrdodau,
Methu cael y gwir yn lân,
Ymbalfalu wrthyf fy hunan,
Ac heb ſymmud cam ymla'n.

3 Cul yw'r llwybr i mi gerdded,
Is fy llaw mae dyfnder mawr,
Mae arnaf ofn yn fy nghalon,
Rhag i'm troed i lithro i lawr;
Yn dy law y gallaf ſefyll,
Yn dy law y dof i'r lan,
Yn dy law fyth ni ddiffygiaf,
Er nad ydwyf fi ond gwan.

4 Arglwydd dadrus glymau dyrus,
Clymau wneuthum i fy hun,
Ac ni feddaf ddim goleuni,
Ddyfod allan fyth o'r un;
Perffaith gyfan anwybodus
Wyf o'r cwbl îs y nen,
Bydd i mi ym mhob rhyw ddryſni,
Fyth yn Arglwydd ac yn ben.

5 Wrth dy orfedd 'rwyf yn cwympo,
Anheilyngaf ddyn erio'd,
Mewn anwiredd y'm cenhedlwyd,
Mewn anwiredd mynnaf fod;
Darfu'm nerth, a darfu 'm goleu,
Darfu'm haeddiant yn gytun,
Mae'm hapuſrwydd oll yn gorphwys
Ar a wiſgodd natur dyn.

6 Nertha'm henaid egwan bellach,
Deithio'n fanwl lwybr cul,
Ac na byddo im' gael fy niſa,
Gan biccellau'r ddraig a'i hil;
Cadw yn gywir fy ngherddediad,
Na ogwyddwyf ar un llaw,
Nac i garu y creadur,
Na'i ffieiddio trwyddo draw.

7 Na foed gelyn i mi yn un lle,
'N fwy na'm hunan îs y rhod,

Lled

Lled na'r moroedd gwna fy nghariad
A'm toſturi'n waſtad fod;
Dyſg fi ddweud, a dyſg fi wneuthur,
Dyſg fi gymdeithaſu'n llwyr,
Dyſg fi dreſnu fy meddyliau,
O foreu ddydd hyd yr hwyr.

8 Dyſg fi gerdded trwy'r aſonydd,
Ac na'm hofnir gan y lliſ,
Na bwi'n ildio gyd â'r tounau,
Temtaſiwnau fwy na rhif;
Cadw ngolwg ar y bryniau
Uchel hardd tu draw i'r dw'r,
Cadw ngafael yn yr a'on,
Ar yr Iæaw 'r blaenaf wr.

9 Ond i demtaſiwnau'm ganwyd,
Cefais hyn gan arfaeth rad,
A'r un arfaeth a ordeiniodd,
I fy ngolchi yn y gwaed;
Temtaſiwnau 'rych chwi'n aml,
Etto 'rych chwi'n gymmorth im',
I chwanegu'm ffydd a'm cariad,
Eilwaith i chwanegu ngrym.

10 Oni bai miloedd o elynion,
Sydd yn curo o bob tu,
Oddi mewn, ac oddi allan,
Diau cyſgu buaſwn i;
Torf a thorf yn gwaſgu arnaf,
Ac yn gwaeddi am fy ngwaed,
Sydd yn dodi 'm henaid orphwys,
Yn y iechydwriaeth rad.

11 Am fy mod i yn y rhyfel,
Yn y rhyfel nos a dydd,
Dyna pam yr wi'n hiraethu
Cymmaint am gael cario'r dydd;
Maith rifedi fy ngelynion,
Wnaeth i'm henaid ganu'n llyn,
A fy nghwympo rhyd y creigydd,
Wnaeth im' frefu am *Seion* fryn.

12 Oh!

Oh! anialwch maith o ddrysni,
Oh! afonydd mawr eu grym;
Pa faint o amser roddwyd i chwi,
Fod yn ddigalondid im?
Derfydd tywyllwch, derfydd galar,
Derfydd pechod o bob rhyw,
Nid yw'r wlad caf ynddi drigo,
Ddim ond presennoldeb Duw.

HYMN LXXXII. *Pfarwel.*

1 NID oes enw ymhlith angylion,
Ymhlith dynion, ac ni cha'd,
Ali bod immi yn ddinas noddfa,
Yn unig ond Iachawdwr rhad;
Mae'r afonydd twi'n mynd trwyddynt
Ac mae'r tonnau mawr mor gryf,
Nad oes dim ond nerth tragwyddol
Ddal fy enaid yn y llif.

2 Cant ffarwel o gylch y ddaear,
Cant ffarwel i bawb o'r bron,
Cant ffarwel i'r gwerthfawroccaf
Bethau enwir ar y don;
Dâ a dynion aeth yn angof,
A phleserau o bob rhyw;
Bellach i mi ddim ond canu,
Canu cariad i fy Nuw.

3 Duw yn unig fydd o'm bochr,
Ni thal dynion i mi ddim,
Llawer trymach ydyw meichiau,
Nag yw cewri'r byd o rym;
Iesu ddal fy maich er cymmaint,
Iesu ei hunan laesa 'm loes,
Eitha llid y nef ac uffern
Ddaliodd unwaith ar y groes.

HYMN

HYMN LXXXIII.

1 RWi'n morio tua gartre'm Ner,
Rhwng tonnau maith yn byw;
A dyn heb neges tan y ſer,
Ond mofyn am ei Dduw,
Ond mofyn am ei Dduw,
Ond mofyn am ei Dduw.

2 Mae'r gwyntoedd yn fy nghuro i 'nol,
A finneu 'd wyf ond gwan,
O cymmer Iesu fi yn dy gôl,
Yn fuan dwg fi i'r lan, &c.

3 Nad fi ar aſwy nac ar dde,
I redeg o dy flaen,
Ond dilyn llwybrau Brenhin ne',
Trwy ddyfnder dw'r a thân, &c.

4 O gwna fy nghalon redeg trwy
Oll attat ti dy hun;
Na bo difyrrwch genni mwy
Mewn daear dâ, na dyn, &c.

5 A phan bo 'n curo f' enaid gwan
Elynion fel y ſer,
Derchafa'm hyſpryd lleſg i'r lan
I fynwes bur fy Ner, &c.

6 Na byddo gwrthnebiadau'r byd,
Na chroeſau o unrhyw,
I'm hoeri nac i fugno mryd,
Un dim oddiwrth fy Nuw, &c.

7 Boed dioddefiadau pur y groes,
I laeſu'm cur a'm gwae,
Griddfannau dwfn angeu'r groes
I'm rhoddi lawenhau, &c.

8 Marwolaeth fy Ngwaredwr mawr,
Yn fywyd pur i mi,
Fel gallwi roddi'm oll i lawr
Yn gof am *Galfari*, &c.

HYMN LXXXIV.

1 MAE rhyw ddirgelwch llawer mwy,
Oes Iesu yn dy farwol glwy,
Nag y gall saint tro ynddo chwyth,
Na seraph pur ei ddeall byth,
Seraph, seraph, seraph, seraph, seraph pur
ei ddeall byth.

2 Ni cheisiai yn lloches ond dy glwy,
Tan donnau mawrion fwy na mwy;
Mae'th waed yn nyfnder culni a gwae,
Yn abl fy rhoi i lawenhau, &c.

3 Cyflawna'th air, doed immi ddel,
Dy eiriau di sy eu gid dan sel;
Nid rhaid ond gair, a thyna ei gid
I godi'm henaid i o'r byd, &c.

4 Mae hyfryd swn dy Yspryd pur,
Sy'n chwythu yr awelon gwir,
Yn peri im' anghofio'r byd,
Yn gyfan a'i deganau gid, &c.

5 Rwi wedi blino ar fyd o wae,
Lle nad oes plesser i'w fwynhau,
A'm mlinder fyth yw'r un ag oedd,
Sef ffaelu'th garu wrth fy modd, &c.

6 Os caf fi'th garu, rho di'r byd
I'r rhei'ny sawl sydd arno a'u bryd,
Rho iddynt hawddfyd, parch, a bri,
Ni cheisiaf ond dy garu di, &c.

HYMN LXXXV.

1 YMae happusrwydd pawb o'r byd,
Yn gorphwys yn dy angeu drud,
Hyfrydaf waith angylion fry,
Yw canu am fynydd *Calfari*,
Canu, canu, canu, canu, canu
am fynydd *Calfari*.

2 O

2 O holl weithredoedd nef yn un,
Y bennaf oll oedd prynu dyn,
Rhyfeddod mwyaf o bob oes,
Yw'm Iesu'n hongian ar y groes, &c.

3 Wel dyma'r tryſor mwya drud,
Gwaed Duw yn llifo tros y byd,
Fyth na foed ond ei farwol glwy',
Yn ſeiliaen pob caniadau mwy, &c.

4 Darfydded canmawl neb rhyw un,
Darfydded ſon am haeddiant dyn,
Darfydded ymffroſt o bob rhyw,
Does ymffroſt ond yngwaed ſy Nuw,

5 Darfydded caru tref a gwlad,
Na brawd na phriod, mam na thad,
Does unrhyw gariad îs y rhod
Ond Iesu dal ei garu erio'd, &c.

6 Ffarwel, ffarwel gariadau'r byd,
Ffarwel bleſerau oll yngbyd,
Ffarwel yr harddaf deccaf un,
Mae Iesu yn ddigon im' ei hun, &c.

HYMN LXXXVI.

1 WEL daccw'r Brenhin mawr yn dod,
Mewn rhwyſg na weladd neb erioed;
Mae angeu, uffern fawr a'r bedd,
Yn ofni edrych ar ei wedd,
Ofni, ofni, ofni, ofni, ofni
edrych ar ei wedd.

2 Ond holl gariadau gwych ſy Nuw,
Fu gynt yn farw, ond nawr yn fyw,
Llawenydd anrhaethadwy dardd,
Wrth edrych yn ei wyneb hardd, &c.

3 Ni wel y rhai'n ond gras ei gid,
Gras a ddechreuodd cyn bod byd;
Llifeiriol afon fawr o hedd,
A chariad unig yn ei wedd, &c.

4 Fe lyſg y byd yn ulw mân,
Fe dry'r greadigaeth fel o'r blaen,
Cwymp y p'anedau er eu maint,
Bydd Iesu yn frenhin ar ei ſaint, &c.

5 O dere ddedwydd happus awr,
Boreu-ddydd tragwyddoldeb mawr,
Poen yw mhleſerau, poen yw'm loes,
Wrth bechu yn erbyn gwaed y groes, &c.

6 Mi wela'n codi'r ſeren ddydd,
Mi glywa'r canu yno ſydd,
Angylion gyd a'r ſaint yn un,
Yn cadw cwmpni Mab y dyn, &c.

HYMN LXXXVII.

1 CHwychwi ſy mhechod o bob gradd,
Sydd ſwya cadarn am ſy lladd,
Er maint eich grym, er maint eich clwy,
Mae angeu'm Iesu'n llawer mwy. Angeu angeu, angeu, angeu, angeu'm Iesu'n llawer mwy.

2 Mwy rhinwedd ſy mewn marwol loes,
Mwy grym, mwy nerth ymhoenau'r groes,
Nag ſaif y pechod cryf o'i fla'n,
Nac angeu ei hun, nac uffern dân, &c.

3 Y mwya ei bwyſau oll i gyd,
Ydyw euogrwydd beiau'r byd;
Mae'r aberth ar *Galfaria* fryn,
Yn golchi'r euog cas yn wyn, &c.

4 Mae heddwch llawn yn angeu loes,
Llawenydd pur yngwaed y groes,
Mae cariad anrhaethadwy'n lli,
Gan ruddfan hyfryd *Calfari*, &c.

5 Doed im' a ddel bodlonaf mwy,
Tan dawel adain marwol glwy;
Doed mellt, doed ſtormydd o bob rhyw,
Mae gydaf un a'm ceidw'n fyw, &c.

6 Ffowch ofnau ffwrdd, doed yn eich lle,
Awelon hyfryd pur y ne';
Doed pob graſuſau pur eu rhin,
I lanw'm henaid bach yn un, &c.

HYMN LXXXVIII.

1 PErerin gwan heb rym heb ſgil,
I deithio wyf ymlaen,
Trwy gynifer llwybr dyrus cul,
Dieithr im' o'r blaen,
Dieithr im' o'r blaen,
Dieithr im' o'r blaen.

2 Yr ochr draw a'r ochr hyn,
Pob peth ſy am wneud fy mrad ;
Mae mil o demtaſiynau yn un,
Yn ceiſio rhwydo'm traed, *&c.*

3 Yn nyſnder profedigaeth ddu,
Dos dy hunan o ſy mlaen ;
Ond i mi gael bod gyda thi,
Nid ofnaf ddw'r a thân, *&c.*

4 At wedd dy wyneb nid yw ddim,
Dryſorau maith y llawr ;
Mae hanner gair o'th enau yn fwy
Ei rym nag uffern fawr, *&c.*

5 Mae angeu 'r bedd ac uffern ddu,
Yn hongian wrth dy groes,
Mil o elynion gongeraiſt ti,
Trwy ddiodde angeu loes, *&c.*

6 Dy allu yw fy nerth a ngrym,
Yn dy allu byddai byw,
Rwi'n wan, rwi'n lleſg, ni allai ddim
Un funud heb ſy Nuw, *&c.*

HYMN LXXXIX. *Ar Feſur* Calfari.

1 IESU 'r dirmygedig un,
Ddioddefodd angeu loes,
Gan ryw ddihenyddwyr llym,
Yn wirion ar y groes ;
Y gruddfannau rodd e ma's,
Ddaeth a'r trueiniaid oll yn rhydd,
Bellach holl ganiadau'r nef,
Fyth am *Galfaria* fydd.

2 Bydd torf o angylion gwych,
Cerubiaid pur yn un,
A maith dorfeydd o ſeraphim,
Yn canu i Fab y dyn;
A chaniadau fydd y rhain,
Na ddaeth i feddwl dyn erioed,
Ac ſy'n tarfo is y nen,
Ei fod eu bath yn bod.

3 O foreuddydd dedwydd iawn,
Pan delo 'r dorf yn un,
O bob cwrr i'r ddaear faith,
I gwrdd a'n Harglwydd cun;
Derfydd gofid a phob gwae,
Derfydd temtaſiynau maith,
Derfydd pechod mawr ei rwyſg,
A derfydd dyrus daith.

4 Ac wrth weld yn agoshau
'R fath hyfryd foreu wawr,
Un diwrnod goleu clir,
Maith dragwyddoldeb mawr;
Pam na bawn yn llawen iawn,
Hyn wi'n moſyn ei fwynhau,
A thyma fref fy enaid gwan,
Idd i'w weld yn agoshau.

HYMN XC.

1 CYN yſtyried mi ddechreuais,
Daith o'r *Aipht* i'r *Ganaan* wlad,
Fod fath anial mawr mor ddyrus,
Rhyngwi erioed a thŷ fy Nhad;
Pharao a'i lu creulon cry,
Gyntaf a'm gwrthnebodd i.

2 Yna torf a thorf dracheſn,
Bob yn fyrdd neu bob yn un,
Moab, *Midian* a *Philiſtin*,
Oll yn cyngrair yn gyttun;
Goſod wnad, rwydau i'm tra'd,
Fyrdd rhwng yma a thŷ fy Nhad.

3 Weithiau fe *Goliah* cadarn,
Ddeuai ymlaen yngrym ei nerth,

Weithiau *Midian* fyddai 'n lliwio
Pen y creigydd mawrion ſerth;
Cyn pen awr ſ' Arglwydd mawr,
Wnai i'm gelynion gwympo lawr.

4 Da i mi fod yr addewid,
Wedi ei rhoddi gan ſy Nuw,
A bod gair o eneu'r nefoedd
Uwch gelynion o bob rhyw;
Ei addewid ef, gadarn gref,
Arwain eiddil gwan i'r nef.

5 Ac er bod y llwybrau yn ddyrus,
Ar ba rai y ſenga 'm traed,
Ac na bum i yn teithio arnynt,
Er madewais i a'm gwlad;
Caf o'm bla'n ddwr a thân,
Ac a'm dwg i'r *Ganaan* lân.

6 Bron yr wyf a digalonni,
Pan bwi'n gweld rhyw lwybr cul,
Rhwng rhyw greigydd ſerth dychrynllyd,
Lle tramgwyddodd llawer mil;
F' enaid gwan yn y man,
Ddringa etto fynu i'r lan.

7 Mi ryw ſynna ar rai oriau,
Pan debygwi nad oes dyn,
Sydd yn teithio llwybrau newydd,
Beunydd ond myfi fy hun;
Etto llu welai fry,
Fu 'n gyfeillion i myfi.

8 Dyna'r pryd mae fwya cyfyng,
Pan bo gelyn ar bob llaw,
Un o'm hol i'm bradychu,
Un o'm blaen i'm hofni draw;
Etto i'r lan ſ' enaid gwan,
A tro Iesu i mi yn rhan.

HYMN XCI.

1 RHwng *Pihairoth* a *Balſephon*,
Tra fwi byw mi gofia'r lle,
Mewn cyfyngder eitha caled,
Gwaeddodd ſ' enaid tu a'r ne',

Yn ddioed dyma 'n d'od,
Waredigaeth fwya erioed.

2 Aros ronyn barwyd immi,
Ti gai weled cyn prydnhawn,
Fyrdd yn ſoddi yn y dyfnfor,
O elynion creulon lawn;
Maes o law gwynfyd ddaw,
Ti gai ganu yr ochr draw.

Daccw'r gelyn ebe f' Arglwydd,
Ganwaith faeddodd d' enaid gwan,
Nawr yn methu gan y tonnau,
Godi ei wyneb dig i'r lan;
Tyrd ymla'n dechreu'th gân,
Dy holl elynion boddi wnan.

4 Y mae dyfroedd *Mara* yn chwerw,
Fyth i'w hyfed ddydd a nos,
Iesu gwyddoſt ti beth ydyw
Dwyn y bwyſig boenus gro's,
Rho i mi wir gariad pur,
Ffrwythau peraidd *Canaan* dir.

5 O gwna i mi broſi ſwppian,
Swppian peraidd rawn y wlad,
Blas maddeuant pur a heddwch,
Gwleddoedd hyfryd tŷ fy Nhad;
Dyma hwy perlau mwy,
Gloddiwyd yn ei farwol glwy.

HYMN XCII.

1 O Tyred Arglwydd mawr,
Dihidla o'r nef i lawr, gawodydd pur,
Fel byddo'r egin grawn,
Foreu-ddydd a phrydnhawn,
I darddu yn beraidd iawn, o'r aniaf dir.

2 Mae peraroglau 'th ras,
Yn tanno o gylch i maes, awelon hedd;
Eſtroniaid ſydd yn d'od,
O'r pellder eitha erio'd,
I gwympo wrth dy droed, a gweld dy wedd.

3 Mae

3 Mae tegweh dy wyneb-pryd,
Yn maeddu oll i gid, ſy ar y ddaear las;
Mae pob rhyw neſol ddawn,
Oll yno yn gryno llawn,
Yn tarddu yn hyfryd iawn o'th glwyfau ma's.

4 Arofaf ddydd a nos,
Byth bellach tan dy groes, i'th fwynhau;
Mi wn mai 'r taliad hyn,
Wnawd ar *Galfaria* fryn,
A'm canna i oll yn wyn oddiwrth fy mai.

5 Yn ayfnder dw'r a thân,
Calfaria fydd fy nghân, *Calfaria* mwy.
Y bryn ordeiniodd Duw,
Yn nhragwyddoldeb yw,
I godi 'r marw yn fyw trwy farwol glwy.

6 Mi af bellach tu a'r wlad,
Bwrcaſwyd im' â gwaed, rwi 'n neſau;
Caf yno oll i'm rhan,
Sydd eiſieu ar f' enaid gwan,
A hynny yn y man i'w fwynhau.

HYMN XCIII.

PWy ddyry im falm o *Gilead*, maddeuant pur a hedd?
Nes gwnend i'm hyſpryd edrych yn eon ar y bedd:
A diangc ar waſgfeuon euogrwydd creulon cry,
Does neb ond ef a hoeliwyd ar fynydd *Calfari*.

Yr hoelion geirwon caled gynt a'i trywanodd e',
Sy nawr yn dal y neſeedd gwmpaſog yn ei lle;
Mae gobaith meibion dynion yn lliſo i maes ynghyd,
Oddiwrth yr awr trywanwyd Creawdwr mawr y byd.

Pe un waith y darfyddai awdurdod *Calfari*,
Darfyddai pob cyfuron ar unwaith genayf fi:
O bawb yn ſicr byddwn y truenuſaf ddyn,
Fe lyngcai'r bedd dychrynllyd fi 'n fuan iddo ei hun.

Anfeidrol fyth anfeidrol drugaredd faith y nef,
Parhad yr holl greadigaeth ſy'n gorphwys arno ef;
Gruddfannau pen *Calfaria*, *Lama ſabachthani*,
Yw'r perlau mwya gwerthfawr a tedd ein daear ni.

Y baich

Y baich oedd annioddefol i'r cryfa o ddynol-ryw,
Gas orwedd yn ofnadwy ar yſgwydd gref fy Nuw ;
Cyfiawnder oedd yn gofyn am bechod di-naccad,
Y ſwm anfeidrol dalwyd trwy eitha chwys a gwaed.

Y mynydd mawr anfeidrol â gymrodd ef i gyd,
Oddi ar yſgwyddau gweinion yr euog aflan fyd ;
Pan gwelodd y greadigaeth i fod y baich mor fawr,
Fe guddiodd nef ei hwyneb, fe grynodd ynte'r llawr.

Yr Ail RAN.

PE buaſai fil o fydoedd yn cael eu prynu ynghyd,
A'r cyfryw bris buaſent yn flawer iawn rhy ddrud,
Does angel fyth na ſeraph na cherub o unrhyw,
I'r filfed ran all ddwedyd mor werthfawr gwaed fy Nuw

Mae tân o ſewn i fynwes myrddiynau pur y nef,
Rhyw newydd fflam wrth feddwl am dân ei angeu ef,
Yn attal eu caniadau wrth ſynnu oll yn un,
I weld eu Duw yn diodde a marw yn natur dyn.

O na allwn ninneu'r awrhon i ehedeg fynu fry,
A dyſgu rhyw ganiadau fydd gan y nefol lu,
Fel byddei cydfain hyfryd rhwng daer a nef yn un,
Caniadau anfeidroldeb marwolaeth Duw yn ddyn.

O deffro di fy nghalon myfyria farwol loes,
Does arall ddim a'th ddeffro on's deffro angeu'r groes ;
O tan y groes y torrodd afonydd mawrion fydd
Yn troi tywyllwch dudew yn awr yn hanner dydd.

Am angeu'r groes bydd canu i dragwyddoldeb maith,
Ond im gael teimlo ei rinwedd rwi bron ar ben fy nhaith;
Fy nefoedd yw ei deimlo, a'i deimlo yn union fydd
Yn troi pob rhyw dywyllwch o mewn yn oleu ddydd.

RHAN y Drydedd.

GWell gantho na halogi cyfiawnder pur y Tad,
Oedd lliwio'r croes-bren garw fel ſcarlet yn ei wa'd ; [drud,
Y gwaith oedd yn fwy rhyfedd a'r gwaith oedd yn fwy
Nag i gyfiawnder ddial, i faddeu beiau'r byd.

P'un

P'un mwy wnaf a ffieiddio, neu foftio f' euogrwydd cas,
A dynnodd y fath ddial, ennynnodd y fath ras?
Cyfiawnder di drugaredd a chariad di neccad,
Sydd yn cofleidio'r euog, yn llawen yn y gwaed.

Cyfiawnder amddiffynwyd, a chariad yn dy glwy;
A rhagor nag amddiffyn nawr fe dyrchafwyd hwy:
O weithred o ryfeddod! Dirgelwch mawr ei hun,
Nid arall allfai ei ffeindio yn unig Duw ei hun.

Mae'r fath feddyliau mawrion yn codi'm hyfpryd gwan,
O war pob peth creuedig yn uchel iawn i'r lan;
Yn prifio aur ac arian y perlau mwya drud,
Wrth glyn cyfiawnder dwyfol yn forod cas i gyd.

Nol edrych ar ol edrych o gwmpas immi mae,
Rhyw fyrdd o ryfeddodau newyddion yn parhau;
Pan bwi'n rhyfeddu un peth, un arall ddaw i'm bryd,
O iechydwriaeth rafol rhyfedded wyt ti gid!

Bendithion ar fendithion, tryforau angeu loes,
Grawn fwppiau mawrion addfed yn hongian ar y groes,
Sydd yn cwmpafu'm henaid rhinweddau mawr eu grym,
A minneu yn eu canol heb allael dwedyd dim.

Mi wela yn ei fywyd y ffordd i'r nefoedd fry,
Ac yn ei angeu 'r taliad a roddwyd trofof fi,
Yn ei efgyniad gwelaf drigfannau pur y nef,
A'r wledd dragwyddol berffaith gai yfed gyd ag ef.

HYMN XCIV.

1 YMhell uwch fwn dacarol fyd,
Mae fy nhryforau oll i gyd;
Y wlad lle mae, y wlad lle mae
Rhyw for didrai o berffaith hedd.

2 Wel daccw'r man tra paro chwyth,
Sychedai am fod ynddo byth;
Fe dry fy ngwae, fe dry fy ngwae
Yn llawenhau yn nhŷ fy Nhad.

3 Mi gofia yno am y dydd,
Y rhowd fy llyfetheiriau 'n rhydd,
Ac am y gair, ac am y gair
Dedwyddaf bair i'w gofio byth.

4 O ddedwydd, happus, berffaith le,
Mae ſ' enaid eiſioes ynddo ſe!
Cwmpeini Nuw, cwmpeini Nuw
Yw 'r cyſan yw ſydd yno i gael.

5 Ffarwel i oll feddylia i ſod,
Yn hyfryd yma îs y rhod;
Nid dâ, nid dyn, nid dâ, nid dyn,
Ond Iesu ei hun ſy'n ſwy na'r neſ.

6 Rwi nawr ar adain yſgafn ffydd,
Yn edrych ar dryſorau ſydd;
Mae llawer mwy, mae llawer mwy
Mewn marwol glwy nag ſedd y byd.

HYMN XCV.

1 TYdi ſy Nuw, tydi ei gid,
Yw 'r cwbl feddai yn y byd;
Yr wyt ti'n well, yr wyt ti 'n well
Na'r *India* bell a'i pherlau drud.

2 O ſewn i'r anial dyrus maith,
Yn diſgwyl hyfryd ben ſy nhaith,
Rwi'n gweld yn wir, rwi'n gweld yn wir
Yr oriau'n hir heb dy ſwynhau.

3 Yn nyſnder pob rhyw drallod mae,
Un radd o'th wedd yn llawenhau;
Diddanwch ſy, diddanwch ſy,
Yn dy wyneb cu ſydd ſwy na'r byd.

4 Rho im' yfed afon loyw las,
Mewn tiroedd anial dyrus cras;
Maddeuant gwir, maddeuant gwir,
O'r ffynnon bur ſydd tan y faingc.

5 Mwy yw ſy mhleſer, mwy ſy rhodd,
A mwy yw ſ' enaid wrth ei fodd
I weld dy wedd, i weld dy wedd,
A phroſi'th hedd na'r byd ei gid.

6 Mae'r funud leiaf fach o'r awr,
I garu ſy Iachawdwr mawr,
Yn well ryw ddydd, yn well ryw ddydd
Na 'r cwbl ſydd o tan yr haul.

7 Aed heibio'm dyddiau i bob yr un,
Wrth garu'm Crewr mawr yn ddyn;
Fy enaid cân, fy enaid cân,
I'th Brynwr glân, a dos i'r bedd.

HYMN XCVI.

1 FY mywyd wyt, fy Nuw, fy nhad,
Cynheliaiſt f' enaid ar ei dra'd;
Deſt a fi maes, deſt a fi maes,
Er angeu glâs o groth y bedd.

2 Pan rown i'n gyrru yn y bla'n,
'Rhyd llwybr rhydd i uffern dân,
Ti ddwedaiſt air, ti ddwedaiſt air,
A hwnnw bair tra paro nef.

3 Ti roddaiſt blaau lawer iawn,
Ar fy mhechodau i fore a nawn,
Fe wawria'r dydd, fe wawria'r dydd,
Im ddod yn rhydd, mae hyn gerllaw.

4 Pan elo'm ſyched i yn fawr,
Dihidla'r nefoedd *Fanna* lawr,
Daw dw'r i ma's, daw dw'r i ma's,
Yn afon las o greigydd byw.

5 Fe ddaroſtyngir er eu grym,
Bob gelyn ag ſy'n greulon im',
Fe fodd y llu, fe fodd y llu,
Yn awr ag ſy'n gobeithio nghwymp.

6 Mae Satan gadarn yn y bla'n,
O'i ol ef luoedd fawr a man;
Im rhwygo'n friw, i'm rhwygo'n friw
Ond mae fy Nuw yn drech nag ef.

HYMN XCVII.

1 MAE pyrth y nef o led y pen,
Mi wela ſor o waed,
Y gallaf fi'r ffieiddiaf ddyn,
Yn hollol gael iachad,
Yn hollol gael iachad, &c.

2 Mae'r orfedd fawr yn awr yn rhydd,
Gwrandewir llais y gwan ;
Wel cyfod bellach f' enaid prudd
Anadla tua'r lan, &c.

3 Wel anfon eirchion aml ri',
I mewn i byrth y nef,
Gwrandewir pob ymddifad gri
Yn union ganddo ef, &c.

4 Myfi anturia 'nawr ymlaen,
Heb alwad îs y ne',
Ond bod perffeithrwydd mawr y groes
Yn atteb yn fy lle, &c.

5 *Calfara* fryn yw'r unig fail,
Adeilaf arno mwy,
A gwraidd fy nghyfur fyth caiff fod
Mewn dwyfol farwol glwy, &c.

6 Ellyllon uffern ni's gall ddim,
Er cymmaint yw eu rhi' ;
Myrddiyne o weithie mwy yw pwys
Ochneidiau *Calfari*, &c.

HYMN XCVIII.

1 MI dafla maich oddi ar fy ngwar
Wrth deimlo dwyfol loes,
Euogrwydd fel mynyddau'r byd,
Dry yn ganu-wrth dy groes,
Dry yn ganu wrth dy groes, &c.

2 Os edrych wnaf i'r dwyrain draw,
Os edrych wnaf i'r de,
Ymhlith y fu neu ynte ddaw,
Does tebyg iddo fe, &c.

3 Fe rodd ei ddwylo pur ar lled,
Fe wifgodd goron ddrain ;
Er mwyn i'r brwnt gael bod yn wyn
Fel hyfryd liain main, &c.

4 Eſcyn a wnaeth i entrych ne',
I eiriol dros y gwan;
Fe ſugna f' enaid inneu 'n lân
I'w fynwes yn y man, &c.

5 Ac yna caf ſod gyd ag ef,
Pan el y byd ar dân,
Ac edrych yn ei hyfryd wedd,
Gan harddach nag o'r bla'n, &c.

HYMN XCIX.

1 MAE 'r Brenhin yn y bla'n,
'Rym ninneu oll yn hy;
Ni ſaif na dw'r na thân,
O flaen fath arfog lu;
Ni awn, ni awn tan ganu i'r lan,
Cawn weld ein concweſt yn y man,
Cawn weld, cawn weld, &c.

2 Ni welir un yn lleſg
Ym myddin Brenhin nef,
Can's derbyn maent o hyd
O'i nerthoedd hyfryd ef;
Ni gawn, ni gawn y gloyw win,
Melus ei ryw, ſancteiddiol rin, &c.

3 Dechreued tafod mwy,
Os tafod fedr gân,
Na boed ond dwyfol glwy,
Holl ddyddiau f' oes o'i flaen;
Fe gawd, fe gawd o't diwedd fraint,
Na phrofodd Seraphim ei maint, &c.

4 Gerubiaid dewch ymlaen,
Edrychwch yma lawr,
Ar dewynion uffern dân,
Ynghanol nef yn awr;
Pob un yn gweld ei hyfryd wlad,
A phyrth ſancteiddiol tŷ ei dad, &c.

5 Fe ddarfu'r ofn du,
'R euogrwydd cas a'r braw,

Pan gwelſom aberth ſu
Ar ben *Calfaria* draw;
Fe dalwyd iawn ar bren mor ddrud,
Oedd fwy na holl ffieidd-dra byd, &c

6 Un fillaf ar y groes
O eneu Crewr y byd,
Yn nyfnder angeu loes,
Sydd fwy nâ meiau gyd;
O maddeu Nhad i'm heiddo i,
Lama, Lama Sabacthani, &c.

HYMN C.

1 MAE llueedd maith ymlaen,
Nawr o'u carcharau'n rhydd,
A gorſoleddu maen'
Oll wedi cario 'r dydd;
I 'r lan, i'r lan dihang'ſant hwy,
Yn ol eu traed y ſangwn mwy, &c.

2 Gadewn y byd yn ol,
Y byd y cawſom wae,
Y byd ag ſydd bob dydd
Yn ceiſio'n llwfrhau;
Ni welwn wlad rhwng ſer y ne',
Sydd fil o weithiau well nag e', &c.

3 A fodd tifeddion gras
Yn nyfnder môr i lawr?
Un waith a ddaeth i maes
O'r dwfn gyſtudd mawr;
Na wna, na wna, ni ddewn i'r lan,
I dir y bywyd yn y man, &c.

4 Cawn landio mewn i fyſg
Y rhai y clywſom ſon,
Gannaſant bawb ei wiſg
Yn nwyfol waed yr OEN;
A dawnſio gwledd heb ddiwedd mwy
Yn bur yn eu cwmpeini hwy, &c.

5 Cawn

5 Cawn weld yr addfwyn Oen,
Fu farw ar y bryn,
Yn medu ffrwyth ei boen,
Yn hyfryd y pryd hyn;
Myrddiynau heb rif yn canu nghyd,
I'r hwn fu farw tros y byd, &c.

6 Fe genir coron ddrain
Wrth ganu gwaed y groes,
Fe gofir piccell fain
Wrth gofio angeu loes;
Fe feinia'r holl dorfeydd yn un,
Bob rhan o boenau Mab y dyn, &c.

HYMN CI.

1 ER bod faethyddion lu,
A rhwydau fwy na mwy,
Rhyd llwybrau *Salem* fry,
A dyrus iawn ynt hwy;
Fe dyrr y rhwyd, fe dry pob fa'th,
Oddiwrth ei faint nid oes o'i fath, &

2 Mae'r byd yn tannu maes
Mewn cydfain ddyrys iawn,
Ei demtafiynau cas,
O foreu hyd brydnhawn;
Fe ddeil i'r lan ei nefol hil,
Er cwrdd a hwy mewn llwybrau cul,

3 Ni hwyliwn gyd a'r gwynt,
Mae 'r gwynt o dŷ ein Tad;
Awelon hyfryd ynt
Tros fryniau ammod rhad;
Yr ym mewn hwyl, ni feiniwn gân,
Nes mynd i glyftiau rhai fy o'r bla'n,

4 Er maint yw lled y dw'r,
Er maint yw grym y don,
Ac er i'r demeft' gref,
I guro ar fy mron;
Dyw'r tonnau maith, dyw'r demeft' ddim,
I nerth yr hwn fy 'n briod im', &c.

HYMN CII.

1. FFarwel bleſerau o bob rhyw,
FFarwel i'r cyfan ond fy Nuw,
Does dim a dal o ſewn y ne',
I'w garu yn unig ond efe,
Garu, garu, &c.

2. Nawr y creadur breulyd ſydd,
Yn mynd ar goll o ddydd i ddydd;
Does dim foddlona'm henaid gwan,
Ond Iesu ei hunan i mi yn rhan, &c.

3. Mae ynddo ef dryſorau hael,
Sydd eiſiau arna I i'w cael;
Mae ynddo ef dryſorau llawn,
Wna'r tlotta yn gyfoethog iawn, &c.

4. Mi 'drycha dros y dwfn ſedd,
Nawr i gyffiniau'r wlad o hedd;
Mi wela fwy nag aur *Peru*,
Mewn defnyn bach o waed fy Nuw,

5. Does dim wna i mi lawenhau,
Ynghanol ſtormydd mawr o wae,
Na dim a ddeil fy enaid gwan,
Ond gweled Iesu i mi'n rhan, &c.

HYMN CIII.

1. O'R holl fendithion ga's y byd,
Wel dyma'r fwyaf un ei gid,
I'm Iesu ei hun, i'm Iesu ei hun,
Tros aflan ddyn roi fywyd pur.

2. Wel f' enaid bellach dos ymla'n,
Nac ofna ddw'r, nac ofna dân;
Aeth tan y groes, aeth tan y groes,
Ac angeu loes ei hun o'm bla'n.

3. Fe gonc'rodd angeu â'i farwol gledd,
Fe faeddodd uffern fawr a'r bedd;

Gwnaeth ffordd i mi, gwnaeth ffordd i mi,
Ar *Calfari* o'r ddaer i'r nef.

4 Boed iddo mwy ganiadau o glod,
Tro nefoedd fawr a daer mewn bod,
Ac na bo ſon, ac na bo ſon,
Ond am yr OEN a'i farwol glwy.

5 O dweded pawb am rin y gwaed,
Maddeuant llawn, maddeuant rhad,
Dim achwyn mwy, dim achwyn mwy
Ond canu am glwy *Calfaria* fryn.

HYMN CIV.

1 DAccw 'r hyfryd ſan cai drigo,
Gwn cai drigo cyn bo hir,
Draw i'r bryniau oer tymeſtlog,
Yn y ſanctaidd hyfryd dir;
Gwelai nawr, foreu wawr,
Glir o dragwyddoldeb mawr.

2 O ddwyrain dir gras mae'n tywynnu
Lle mae teml fawr fy Nhad,
Lle mae'r arch, a lle mae'r manna,
Lle mae'r drugareddfa rad;
Un prydnhawn chwerw gawn,
Yno wedi'n diengu wnawn.

3 Ni gawn yno weld a garwn,
Mewn gogoniant llawer mwy,
Nag y gwelſom e ar y croes pren,
Tan ei farwol ddwyfol glwy;
Lluoedd mawr ſydd yn awr,
Yn ei garu bob yr awr.

4 Ni gawn weld a'i carodd e' yma,
Yn y man yr ochor draw,
Oll yn gwledda ar ei gariad,
T'lynau auraidd yn eu llaw;
Oll yn un a chyttun,
Moli'r Duwdod yn y Dyn.

DIWEDD y RHAN *Gyntaf.*

HYMNAU
Sacramentaidd,
A gellir eu Canu yn gymmwys hefyd ar Amſerau eraill.

Yr AIL RAN.

HYMN I.

1 RHyfeddol yw effeithiol rin,
Y moddion bwyntiaiſt ti dy hun
Dy gnawd yw bara'r bywyd gwir,
O'th glwyfau tardd y ddiod glir.

2 Mae ſyched ynnof ARGLWYDD mawr
Am broſi'r gloyw win i lawr;
Ac i mi gael chwanegu ngrym,
Trwy fod dy gnawd yn ymborth im.

3 Rwi'n ofni 'r dyfroedd, ofni'r tân,
Rwi'n ofni'r creigydd ſydd o'm bla'n,
Rwi'n ofni'r pethau lleia ma's,
Nes cael ymborthi ar dy ras.

4 Y dyfroedd gloyw pur di drai,
Gad i mi yr awrhon i'w mwynhau;
Dwg fi o dwrf daearol gryw,
I wledda ar dy ſwrdd tr'wy byw.

HYMN

HYMN II.

1 AI dyma'r arwydd roiſt i mi,
O angeu poenfawr *Calfari*,
A all 'r elfennau hyn yn un,
I'm tywys attat ti dy hun?

2 Ai bara a ſynega'th loes?
A'th glwyfau mawrion ar y groes?
A draetha'r gwinwydd di-leſad,
Anfeidrol haeddiant pur dy wa'd?

3 Na wna ſy Nuw, O tyrd yn awr,
A danfon dy Yſpryd pur i lawr;
Dy Yſpryd di gymhwyſa 'r gwa'd,
Gymhwyſa 'r iechydwriaeth rad.

4 O dal fi, nad fi gwympo mwy,
Na'd fi anghofio'th farwol glwy';
A gwna ſy lloches ddydd a nos,
Tan wir ddiferon gwaed dy gro's.

5 Na'd im' i'th fwrdd i fentro mla'n,
Heb wiſgoedd gwynion pur a glân;
Gwaith edeu nodwydd hardd eu llun
Dy ras a'th haeddiant di dy hun.

HYMN III.

1 DY fwrdd ſydd yn gyſoethog iawn,
O bob danteithion foreu a nawn,
Ac nid oes ond dy wleddoedd drud,
Rydd bywyd i golledig fyd.

2 Cariad yn ddwfn fel y bedd,
Sydd ymhob rhan o'th nefol wledd;
A beth yw'r gloyw win di-drai,
Ond cariad hyfryd i barhau.

3 Tlawd oeddem ni a chloff a dall,
Yn gorwedd ynghadwynau'r fall;
Heb chwant na gallu i godi'n llef,
I ſynu tu a theyrnas nef.

4 Tydi dy hun a ddaeth i'n hol,
Tydi a'n cym'rodd yn dy gol;
Ni's gallsai ond anorchfygol ras,
Ein dwyn o'r pydew mawr i ma's.

5 O'r diffaith dyrus anial dir,
Lle buom ni yn crwydro'n hir,
Ni ddaethom yma i dy dŷ,
A chwant cael gweld dy wyneb cu.

6 O tyrd dy hunan dere i'r wledd,
Digon i ni yw gweld dy wedd,
Ac ar dy fwrdd mae 'n ofid blin,
I aros hebot ti dy hun.

HYMN IV.

1 O Anwyl Iesu tyr'd i'n cwrdd!
A gwel drueiniaid ar dy fwrdd;
Eu gyd yn ffol heb fedru o'r un,
I bledio gronyn drosto ei hun.

2 Nid yn y bara down a'r gwin,
Ond yn dy gnawd a'th waed mae'r rhin:
Gad inni weld dy angeu drud,
Yn ein dyrchafu i'r lan o'r byd.

3 Ti roist dy fywyd pur i lawr,
A phwy all pwyso gwerth mor fawr?
Does neb a fesur faint dy wae,
Na ffrwythau 'th gariad i barhau.

4 Ti roist i lawr dy fywyd drud,
I brynu im' dragwyddol fyd;
Mynd dan fath boen, fath dristwch chwith,
I minneu fod yn llawen byth.

HYMN V. O'r Can. ii.

1 O H! Rhosyn *Saron* hardd,
O'r Lili wen ei lliw!
Nid oes o'r ddaear a dardd
Flaguryn fel fy Nuw;

Ym-

Ymhlith y coed rhyw gangen lawn,
O ſwppiau grawn ſ' Anwylyd yw.

2 Pan 'r oeddwn i yn wan,
Ymron llewygu yn wir,
Fe'm codedd Li i'r lan,
I mewn i'w win-dŷ pur;
Ces yfed gwin, hyd heddyw mae,
Fyth yn parhau ei nefol rin.

3 Ces eiſtedd tan ei wydd,
A'i ffrwyth oedd ſelus iawn,
Goleuni ynddynt ſydd,
A phob rhinweddol ddawn;
Bwytais yn hŷ, ei wir fwynhad,
A'i gariad rhad concwerodd fi.

4 Mae 'm nwydau nawr yn wan,
Gras ſy 'n gorchfygu 'n llwyr,
Rwi 'n aros yn y fan
Dymunwn fore a hwyr;
Rwi'n glaf yn wir o'i gariad cu,
Cyſurwch fi â falau pur.

5 Nawr gwedd wynebpryd im'
Holl feibion *Adda* o'r trwch,
Eu nerth, eu rhwyſg, a'u grym,
Sy'n darfod yn y llwch;
Ond pan el chwyth (ond rhyfedd yw)
Fe beru Duw yn briod byth.

HYMN VI.

1 WRth edrych Iesu ar dy groes,
A meddwl dyſnder d' angeloes
Pryd hyn rwyf yn dibriſio 'r byd,
A'r holl ogoniant ſy ynddo gyd.

2 Nad fi ymddiried tra fwyf byw,
Ond yn dy angeu di fy Nuw;
Dy boenau a dy farwol glwy,
Gaiff bod yn ymffroſt immi mwy.

3 Myfi aberthaf i dy glod,
Bob eulun ſydd o tan y rhod;
Ac wrth fyfyrio ar dy waed,
Fe gwymp pob delw tan fy nhraed.

4 Gwelwch yn nwylo Mhrynwr pur,
Ac yn ei draed ef hoelion dur!
Edrychwch ar y wayw-ffon,
Yn torri 'r archoll tan ei fron.

5 Dyma'r lle yr ydoedd ar brydnhawn
Raſuſau yn diſgleirio'n llawn;
Mil o rinweddau yn gytun,
Yn prynu 'r gwrthgiliedig ddyn.

6 Poen a llawenydd tan y loes,
Triſtwch a chariad ar y groes;
Ble bu rhinweddau fath y rhai'n,
Erioed o'r blaen tan goron ddrain?

7 Pam carai 'r byd a'i dda yn hwy,
Ond dyma wrthddrych llawer mwy?
A dâl ei garu tra ynnof chwyth,
A thragwyddoldeb wedi'n byth.

HYMN VII.

1 PWy na ſwytai y ffrwyth o'r nen,
Sy'n tyfu ar bren y bywyd?
A phwy na roddai wrth ei fin,
Rinweddol win mor hyfryd?

2 Ti yw'r winwydden hyfryd lawn,
Sy a'th ſwpiau grawn yn hongian;
Ac yn diferu gwin o'r nen,
Fyth fyth uwchben dy winllan.

3 Hon yw dy ardd, braf yw ei bri,
Dy blaniad di dy hunan;
O tyrd i mewn ac arni chwyth,
Gwna ynddi fyth dy drigfan.

4 Caſgl dy fyrr, a'th aloes pur,
Graſuſau gwir dy Yſpryd ;
Bwytta dy ddil ynghyd â'th fel,
I ni gael ſel o fywyd.

5 Wel yſ dy win a'th laeth yn hael,
Boed hyn yn dâl o'th lafur ;
Am it' ddioddef ar y groes,
Anfeidrol loes a dolur.

HYMN VIII.

1 DY gnawd yw'r bara hyfryd fwyd,
Yn unig gwyd ein henaid,
Pan gwelom ynddo'r wayw-ffon,
Fe'n dadrus o'n caethiwed.

2 Y chwys diferiol gollaiſt ti,
A'n cannodd ni mor wynned ;
Pan gwelom ol y wayw-ffon,
Fe'n dadrus o'n caethiwed.

3 O rho i ni ffydd oleuwen glir,
Fo'n dangos tir y bywyd ;
Hir buom leſg, ſymmuda'n tra'd,
Tu a'r wlad ddymunol hyfryd.

4 Gad inni wledda, gwledda o hyd,
Anghofio'r byd yn gyfan ;
A boed ein trigfan yn dy dŷ,
I'th weled di dy hunan.

HYMN IX.

1 BLE mae toſturi tan y nef,
Cyffelyb i'w doſturi ef ;
Creawdwr dae'r a nefoedd fawr,
Yn rhoddi ei fywyd oll i lawr.

2 O ewyllys rhydd, o gariad rhad,
Y collodd ef ei werthfawr wa'd,
Fe 'nillodd enw mawr dilith,
A chlod na dderfydd o hono fyth.

3 Troſeddwyr oeddem ni eu gid,
Yn rhwym o tan anfeidrol lid;
Neb yn y nef, neu'r ddaear y ſydd,
A roiſai 'n cadwyn fawr yn rhydd.

4 Y felldith fawr ſe cymrai 'n un,
Fe hoeliai wrth ei groes ei hun;
Rhwng nef a dae'r concwero wnaeth
Holl awdurdodau uffern gaeth.

5 Wrth ddiodde'r anghymmarol loes,
Y felldith hoeliwyd ar y groes,
Fe brynodd bendith yn ei lle,
Sydd ſwy ei phris nâ dae'r na ne'.

6 Mi olchaf yma nawr yn rhad,
Fy ngwiſgoedd budron oll â gwa'd,
Ac yno y iachaf fy nghlwy,
Fel na bo ofn angeu mwy.

7 O ffynnon ſendigedig wiw,
Torrodd o honi waed fy Nuw;
Ond dyma'r gwaed a'r dwfr drud,
Sy'n golchi holl bechodau'r byd.

HYMN X.

1 FE pren y bywyd gwerthfawr ſy
Yn tyfu yn y nefoedd fry;
A'i gangau per yn pyngo i'r llawr,
Yn llawn o ffrwythau bob yr awr.

2 Y ffrwythau pennaf oll eu gyd,
Yw cariad anfeſurol drud;
Maddeuant, hedd, doethineb, grym,
Does o'r cyffelyb iddynt ddim.

3 Tra ſom yn eiſtedd tan ei wŷdd,
Rhyw nefoedd anorchfygol ſydd;
Hardd idd iw gweld yw ffrwythe'i ras
A melus hyfryd yw eu blas.

4 Rhont fywyd o rinweddol ddawn,
I galon fyddo'n galed iawn;
Nerth a llawenydd pur ſy'n dod,
Heb unrhyw wenwyn ynddo erioed.

5 Y cleddyf tanllyd doed ymla'n,
A chadwent *Eden* goed yn lân;
Does pren o fewn paradwys gwn,
Ddwg ffrwythau peraidd megis hwn.

HYMN XI.

1 DUW er mor ehang yw dy waith,
Yn llanw'r holl greadigaeth faith;
Does dim trwy waith dy ddwylo oll,
At gadw dyn fu gynt ar goll.

2 Dyma lle mae d' anfeidrol ras,
Hyd eitha yn cael ei dannu maes;
A holl lythrennau d' enw gawn,
Yn cael eu dangos yma'n llawn.

3 Ar *Galfari* rhwng dae'r a ne',
Llewyrchodd ei ogoniant e';
Un haul ymguddiodd y prydnhawn,
A'r llall a wnawd yn eglur iawn.

4 Nid oedd ond gwaed, 'sgrifennai gid,
Ddyfaderoedd sy'n anfeidrol lid,
Nid oedd ond gwaed osodai maes,
Derfynau'r gwaredigol ras.

5 Pwy ddawn sydd yn y Duwdod mawr
Nad yw e'n 'sgrifen yma lawr?
Beth allfai ddangos pwy wyt ti,
Yn well nag angeu *Calfari?*

6 Mi wela gariad yma 'nghyd,
A digter ac anfeidrol lid;
Yn gwaedu ei Fab i'r llawr yn lli,
I wneuthur plesser i myfi.

7 O fyrddiwn ryfeddodau'r groes,
Dioddefodd f' Arglwydd angeu loes;
Caru hyd at ddioddef llid,
Caru a marw yr un pryd.

8 Fy yspryd a fy mywyd drud,
Sy'n cael ei faeth oddi yma gyd;

Y dw'r a'r gwaed ddaeth yma'n lli,
Yw nerth a gallu'm hyſpryd cu.

9 Dymunwn roi dy glod i ma's,
Mewn iaith na's deall daear las ;
O flaen y faingc ymhlith y llu,
O ſeintiau ac angylion fry.

HYMN XII.

1 RYM wrth dy fwrdd O Arglwydd cun,
Yn ceiſio 'th weled di dy hun;
Gwag ydyw'r bwrdd, triſt ydyw'r wledd
Heb weled dull dy hyfryd wedd.

2 Dy ogoniant mawr a'th angeu drud,
Dywynno arnom ni eu gyd ;
A hyn wna 'n gwleddoedd ni'n ddidrai,
A hyn wna inni lawenhau.

3 Yfafom win fel peraiſt in',
Bwyttafom fara, beth dal hyn ?
Oni chawn fwytta'th gnawd yn rhad,
Ac yſed yn lle gwin dy wa'd.

4 Fel gallom fyth i lawenhau,
Mewn gobaith perffaith o fwynhau,
Cymdeithas o nefolaidd rin,
Mewn gwledd waſtadol â thi'th hun.

5 Ni gawn ymddangos cyn bo hir,
O flaen yr orſedd ddiſglair glir,
Mewn gwiſgoedd gwynion lleiſion rhad,
Wedi eu taenellu yn y gwa'd.

6 Treuliwn ein bywyd bellach byth,
Mewn un llawenydd pur dilith,
Cofiwn ei enw, canwn glod,
Tro'r neſoedd wen hyd fyth yn bod.

DIWEDD yr Ail RAN.

RHAI

RHAI
CANIADAU DUWIOL,
AR
Amryw Yſtyriaethau.

Y DRYDEDD RAN.

YMBAROTTOAD.

O Deffro'm henaid cod dy ben
O'r ddaearen i fynu,
Neſau mae'm iechydwriaeth wiw,
A hyfryd yw ei henwi;
Mae fy Mhriod, nefol hynod,
Nawr yn bwrw'm bod yn barod,
Paid ac oedi, cod i fynu,
Trwſia'r lamp y mae 'n diffoddi,
Mi a gaf fynd i'r nefol wledd,
Tu draw i'r bedd i ganu.

Wrth gael fy nghuro tan bob tonn,
Rwi yma mron deffygio,
Gelynion nerthol fy bob cam
Yn ddiwid am fy nhemtio;
Prin amddiffyn rhwydau 'r gelyn,
Sydd yn dewon ymo yn diwin,
Ac yn barod i fy ngorfod,
On' b'ai iechyd fydd oddi uchod,
Dere fy Nuw cod fi yn glau,
I'r man y mae fy Mhriod.

O cadarnha fy egwan ffydd
Tra paro dydd fy ſiwrne,
Fel gallwi ymhob cyſtuddiau ddaw,
I weld tu draw i'r bryniau ;
Canu yn hyfryd yn fy ngofid,
Treulio'm hoes mewn croes a hawddfyd
Tan ddifyrru yn yr Iesu,
Bloeddio concweſt eyn ei feddu,
Edrych i'r ochr draw i'r bedd
Am dan yr hedd ſydd immi.

CAN am y ddaear-gryn a ddigwyddodd mewn amryw o deyrnaſoedd helaeth yn y flwyddyn 1755 *a* 1756, *ar y dôn a elwir* Lovely Peggy.

A Ydyw 'r diwedd yn neſau,
A natur gadarn yn lleſgau ?
Beth ynte ydyw'r dychrynfau,
Y ſyndod, aeth, a braw ?
Brenhinoedd, ymerawdwyr byd,
Yn ofni, yn crynu o'u bron i gyd,
A'u glyniau lleſg yn curo ynghyd,
Yn credu 'r llid a ddaw.

Ond dyma'r newydd ſydd yn awr,
Fe grynodd môr a daear fawr,
Dinaſoedd cedyrn ddaeth i lawr,
Myrddiynau 'n feirw gaed ;
Ond yma torrodd tân i maes,
Ac accw ſoddodd daear las,
Afonydd ddaeth o'r crindir cras,
O liwiau fel y gwaed.

Hi *Perſia* fras gyſoethog iawn,
Yn *Aſia* faith yn achwyn cawn,
A *Liſbon* gynneu oedd yn llawn,
Yn *Portugal* o ddâ ;
Barbaria rhyngom ni a'r lein,
Firginia eilwaith gyd a'r rhai'n,
A llawer iawn o wledydd ffein
Sy'n gruddfan tan y pla.

Morocco

Morocco yn ochneidio mae,
A *Spain* a brofodd ran o'r gwae,
A gofid *Ffes* nid gronyn llai,
Pan ddrylliwyd hi bob darn;
A *Mecwines* gyfoethog fras,
A'i byddin lyngcodd daear las,
Yr *Ethiop* di-gred yno gas,
A'r *Iuddew* ran o'r farn.

Y môr anefmwyth oedd o hyd,
Yn rhuo, yn bygwth diwedd byd,
A'r tywod yn ei gadw ynghyd
Nawr yn terfyfgu fydd;
Yn curo, yn briwo llongau mawr,
Yn ofni 'r morwyr c'lonnog dewr,
Ac yn rhoi myrdd i ddifgwyl gwawr
Yr adgyfodiad ddydd.

Afonydd cochion llidiog llawn,
O fynydd yn *Nbetuna* cawn,
A foddwyd *Sali* agos iawn,
A *Thangier* boblog gron;
Yr afon fawr yn torri maes
Yn donnau fel y cenfor glas,
Tros ddeunaw gwaith mewn chydig fpâs
Nes fgybo heolydd hon.

O'r blaen fe figlwyd *Llundain* lawn
Ddwy waith yn ddychrynadwy iawn,
Blodeuyn *Europ* faith lle cawn,
Feddiannau 'r India draw;
Ac er mor gadarn oedd ei fail,
A'i phobloedd o rifedi 'r dail,
A'i theg ogoniant fel yr haul,
Fe'i foddwyd hi mewn braw.

Duw, os wyt am ddibennu 'r byd,
Cyflawna'n gynta'th air i gid,
Dy etholedig galw 'nghyd
O gwmpas daear fawr;
Aed fain dy Efengyl trwy bob gwlad,
A golch fyrddiynau yn dy wa'd,
A dyro iddynt wir iachad,
Ac yna tyrd i lawr.

DUW Awdwr Rhagluniaeth.

NID o'r ddaear daw fy ngofid,
Nac o'r awyr deneu lym;
Nid yw drygau 'r holl blanedau,
Yn abl gwneuthur niweid im';
Nid oes neb all fy niweidio,
O uffern drift i eitha 'r nef,
Os fy Nuw a edrych arnaf,
A'i fendithion gyd ag ef.

Er y gall creaduriaid foftio,
Tybied bod eu rhwyfg yn fawr,
Nid ynt ddim ond rhyw gaeth-weifion
Sydd yn gorfod cwympo lawr;
Difgwyl am gael ei orchymmyn,
Bob munudyn oddi fry;
Yno tywallt llid neu gariad,
Fel y mynno ein Iesu cu.

Ei genhadon ef a'i weifion,
Yw 'r twymynnon fel y tân,
Rhyfel, newyn du, a'r chwarren,
Sy'n yfgubo'r byd o'u bla'n;
Pla o ddyfroedd, neu ynte fychder,
Pob rhyw farnau tan y nef,
Yn gofp neu'n addyfg i blant dynion,
Sydd yn dyfod trwyddo ef.

Nid yw'r dolur lleia i'w deimlo,
Nid yw'r cyftudd ifa ei ryw,
Heb hen drefn a phwrpafiad
Lawn y gogoneddus Duw;
Myrdd fy ganddo o bethau i'n drygu,
Eilwaith myrddiwn a'n iacha,
Dyna 'r achos pam y creodd
G'nifer rhyw o ddrwg a da.

O'i ragluniaeth mae yn dyfod,
Bod y ddae'r yn cael ei chloi,
Gwynt y gogledd oer anferchog
Yn ei nerthoedd yn crynhoi;

C'ledu

C'ledu'r moroedd fel y grifial,
Rhwymo r 'fonydd oll bob darn,
Nes bo dynion a 'nifeiliaid
Oll yn griddfan tan y farn.

Nid yw bod brenhinoedd cedyrn,
Yn terfyſgu wyneb llawr,
Torri ammod, gwneuthur cyngrair,
Codi rhyw fyddinoedd mawr;
Difa gwledydd llawn a helaeth,
Rhoddi trefydd mawr ar dân,
A gwaſgaru 'r hyn a gaſglwyd,
Oll ond o'i ragluniaeth lan.

Mae deng mil o ddychryniadau,
Yn gorwedd yn ei enw pur,
Ac aneirif at ei feddwl,
Yn y môr ac yn y tir;
Diſgwyl wrth ei air a'i awgrym,
Mae tryſorau 'r rhew a'r tân,
Fel y dwedo, os i'n herbyn,
Neu ynte gyd a n' felly gwnan.

Nid yw'r ſychder croes dracheſn,
Sydd yn magu'r newyn du,
A rhyw filoedd o glefydon,
Yn yſgubo 'r ddaear ſy;
Ddim ond gwreichion ei ddigofaint,
Arwydd o fod ynddo lid,
Pan bo 'n gado ei haul gwmpaſog,
Agos iawn i loſgi 'r byd.

Nid yw'r gwyntoedd cryf cynddeiriog,
Cenllyſg gwyn, y gwlaw a'r llif,
Stormydd ſydd yn briwo llongau,
'N erbyn creigydd heb ddim rhif;
Boddi myrddiwn yn y moroedd,
Ryw feſurau maith o dre',
Fyth yn rhuo 'rhyd y cenfor,
Ond wrth ei orchymmyn e'.

Nid yw'r ddaear-gryn ofnadwy,
Sigla holl golofnau 'r llawr,

Cwympo

Gwympo trefydd maith ardderchog
Yn garneddau cymmyſg mawr,
Nid yw ond cynnifer gwialen,
Sydd yn coſpi môr a thir,
Pan euogrwydd wedi cyrraedd
Fynu i'w ei gluſtiau pur.

ANGEU.

NID yw y mur ond teneu a gwan,
Rhwng yma ac anfarwoldeb,
A'r naid yn fyrr o'r byd a'i bla,
I foroedd tragwyddoldeb;
Dyw'r gagendor ddim yn rhagor,
Nag yw'r anadl 'dyw e' nemmawr;
Amſer terfyn yw munudyn,
Cŷd a thrawiad yr amrentyn,
Ac wrth ddechreu 'r fiwrneu faith,
Ar ben y daith yr ydyn.

Ynghanol bywyd gwych yr y'n,
Ynghanol gwyn yr angeu,
Pob amgylchiad ſydd yn wag,
I'n cadw rhag ei ſaethau;
Mae mor barod ei awdurdod,
Nad oes ſefyll rhag ei ddyrnod,
Cywir enbyd yw ei argyd,
Buan fel y fellden hefyd,
A'i ſaethau yn gymmyſgedig ſydd,
Wyr neb pwy fydd e'n fymmud.

Ynghanol pleſer mynych clywn,
I dd'od i mewn yr angeu,
O flaen y dulſinier a'r gwin,
Ac arfer min ei gleddeu;
Yn y dawns, ac wrth y cardiau,
A phob rhyw o laweu chwareu,
Gwnaeth yn union i'r ynfydion
Yn eu tegwch pryd a'u coron,
Newid gwedd a gwir driſtau,
Ac uſuddhau yn gyſon.

Dug

Dug un i ffwrdd yn hardd ei ddrych,
O blith ei wych gyfeillion.
Heb odfa i waeddi i'r nefoedd wiw,
Na ffarwel i'w gymdogion;
Roedd yr ergyd mae yn debyg,
Yn yr arfaeth cyn y cynfyd,
Duw 'n appwyntio ac yn leflo,
Neb yn gweld y faeth yn taro,
Mae nef a daear tan ei law,
Fe yma a thraw fy'n gweithio.

Pob rhyw ddigwyddiad tan y nef,
A welodd ef yn foreu,
Ac ar ol ei ddoethineb mawr,
Maent oll yn awr yn chwareu:
Fe rodd gleddeu yn nwylo angeu,
Gwys a phwer a gwarantau,
Gwnaeth e'n eon ladd yn gyfon,
Bawb fy a'i enw'n ei gommifion;
Nid oedd yr angeu creulon cas,
Ond un a gas ei ddanfon.

Nid yw yn edrych ar un gradd,
Ond llwyr y lladd fydd iddo,
Mor gynted rhed yr oriau maes,
Gan Duw a gas ei appwyntio:
Rhifo ei lyfr yn groes natur,
Yn y diwedd dechreu 'n bryfur,
Peidio fymmud henaint hyfryd,
Mynd a'r baban yn ei febyd,
Y iengctyd gyd a'r canol o'd,
Sy wedi dod i'w hawddfyd.

Na rown ein pwys ar oed na grym,
Na dâ, na dim mewn dynion,
Y cwbl fydd ond Duw ei hun,
Yn twyllo dyn yn gyfon;
Angeu heddy fy'n gwneud gwely,
Yn y pridd cymmyfglyd obry,
Rhaid mynd yno pan y galwo,
Er anhawfed fydd ymado,
Heb ddim rhyddhad o'i gadwyn gref
Nes dae'r a nef fyn'd heibio.

Mwrddiwnau maith ſydd yno ynghyd,
Nawr wedi cyd-gymmyſgu,
Yn llonydd yn eu gwely ſyth,
Maent blith dra phlith yn llechu;
Swyddau, graddau, dyſg a doniau,
Dygiad, ſynwyr a meddiannau,
Gwaed, dyſgeidiaeth a derchafiaeth,
Ni wna yno ddim gwahaniaeth,
Oddi wrth y tlawd a'r bab dirym,
Heb feddu dim gwybodaeth.

Dim awydd i eiſte 'mlaen y ſy,
O fewn i dy galarnad,
Nac yno neb yn diſgwyl caen,
Ryw uchel flaen gyfarchiad,
'R hen wr doniol ſydd brofiadol
Yn ei oes a da rhyfeddol,
Sy 'n boddloni nawr i lechu,
Gyd a 'r baban yn ei wely,
A'r un ſut annedd ſydd i'w gael
I'r gweiſion gwael a'u meiſtri.

Y noeth, y tlawd, a'r rheidus prudd,
Mor llonydd fydd yn cyſgu,
Ag yw 'r cyfoethog ſarrug ſynn,
Fu lawer yn feddiannu;
Y gwahaniaeth ſydd yſowaeth,
Yw 'r adeiliad gwael neu helaeth,
Carreg barrieg, werthfawr enwog,
Neu ynte 'r twmpath glas llyſeuog,
Er cymmaint gynne ei rwyſg a'i rym
Yn awr i ddim yn chwaneg.

Ymhlith fath lu o amrywiol oes,
Mae rhai ſy 'n groes aflonydd,
A rhai o farnau pur wahan,
Yn pledio o flaen eu gilydd;
Angeu creuloo gas ei dd.nfon,
Fe wnaeth heddwch rhwng partion,
Parodd iddyn fod yn gyttun,
Ac anghofio 'r bar fu rhynddyn,
Eu heſgyrn ſy 'n cymmyſgu ynghyd,
A'u cnawd yn cyd goſteidio.

Can am farwolaeth amryw o rai duwiol, a fuant feirw yn ſir Aberteifi *yn agos i* Langeitho, *o ddautu yr un amſer, ac o'r un gynnulleidfa honno; ac un arall o ſir* Gaerfyrddin.

HED ſy enaid cod i fynu,
Yſgwyd ſorod y carchar dŷ,
Draw rai gwedi cael eu gwared
O gadwynau eu holl gaethiwed,
Eu cnawd a'u heſgyrn oll yn llechu,
Yn y ddaear eu hen letty,
Yno ynghyd, heb un byd
Diffrwyth i'w deffro;
Ac i aros hyd nes delo
Swn yr udgorn i'w dihuno.

Rwi'n dychmygu im' weld eu ceſen,
Fry yn hwylio heibio'r haulwen,
A phob un yn chwareu ei aden
Un yn ol y llall yn llawen;
Heibio'r ſer o bob rhyw raddau,
Gado'r lloer a'r holl blanedau
Obry lawr, bellder mawr,
Aethus i ſynnu,
Hwythau 'n eſgyn fyth i fynu,
Yn yr ehangder pur yn canu.

Roedd angylion megis muriau,
Bob tu'n gylch yn ôl eu graddau,
Rhes 'nol rhes yn dyſgu ynt ganu,
Newydd gaingc i'r anwyl Iesu;
Nawr maent gwedi dyſgu eu gwala,
Roeddent gwedi dechreu yma,
Gyd a'r Oen byth heb boen,
Yn ymddigryſu,
Blith dra phlith a'r hardd gwmpeini,
Ehedodd gyd a hwynt i fynu.

Gwelaſ rai o'u cyd aelodau,
Wedi dringo fynu 'ſtyddiau,

Yn gweau yn eu hwyneb hyfryd,
Pan ar drotbwy drws y bywyd ;
Dewch i mewn a dewch heb rofyn,
Dyma'r wledd oech yn ei mofyn,
Gwrthddrych eich cred, a'i freichie ar led
Cannaid yn y canol,
Sy ar yr orfedd fawr dragwyddol,
Nawr yn groefo i mewn ei bobol.

Mae eu cadwynau wedi dattod,
A'u caethiwed wedi darfod,
Eu cyftuddiau, eu poen, a'u gofid,
Oll tu faes i borth y bywyd ;
Nid aeth arf, na ffon, na chleddau,
Na dim afreolus nwydau,
Tros y mur, grifial clir,
I fanctaidd dir *Seion*,
Na dim arall a dyrr gyfon
Heddwch di drai'r pererinion.

O na chawn i fynd fy hunan,
At y nefol gydfain gyngan,
A chael gwybod rhyw gweftiynau,
Pa fut y mae ar ben y fiwrneu ?
A oes llawer wedi blaenu,
Fel mae dynion yn tebygu ?
A oes llu difglair fry ?
O rif y tywod,
Mewn tangnefedd wedi darfod
A chyftuddiau eu pererindod.

Dwedwch im' pwy olwg hyfryd,
Sydd ar Dywyfog mawr y bywyd :
A yw ol yr hoelion yno,
Yn ei draed, ac yn ei ddwylo ?
P'un ai cariad ynte ofni,
Sy yno benna yn teyrnafu ?
Cariad mwy yn llofgi trwy,
Eu calon wy'n gredu,
Mae yno hefyd hyfryd ofni,
Ac anfeidrol faith ryfeddu.

A yw'n bleſer gan angylion,
Ganu Anthem hyfryd *Seion*,
A yw angeu'r croes-bren poenus,
I'r rhai ſafodd gynt yn ſelus?
Ai gwir bod yr angylion penna,
A'u ſail ar goppa bryn *Calfaria?*
Yno 'n cael perffaith hael,
Gadernid di-drai,
Wedi eu clymmu a'r holl ſeintiau,
Yn'r un pen, yn yr un clwyfau.

A ydych chwi yn gwybod yna,
Am ein gofid ni ſydd yma?
Neu a fedrwch gydymdeimlo,
A rhai hyn ſy 'n cael eu temtio?
A oes rhai oddi yna weithiau,
Yn dod yma ar negeſau?
Mawrion maith, fel y daeth
Moſes ac *Eli*,
Ar newidiad gwedd yr IESU,
Mewn gogoniant i ryfeddu!

Mae fy ffydd, neu mae'm dychymmyg
Yn hyderus iawn yn tebyg,
Fod rhyw ſwn yn dod i'm clyſtiau,
O'u dedwyddol faith ganiadau;
Mae yn hedeg tros y bryniau,
Ar adenydd awel deneu,
Yn dod a rhin nefol win,
I lonni 'm blin enaid,
Ac yn rhoi rhyw hyfryd ſyched,
Am fod yn eu gwledd fendiged.

Wrth fyfyrio ar eu rhoddion,
Mae cenfigen yn fy nghalon,
Fod fy nghoelbren i heb ſymmud,
O wlad gwae i dir y bywyd:
Deffro'm ffydd dos tros y bryniau,
Cymmer ran o'u gwleddoedd hwythau,
Mae'n brydnhawn diweddar iawn,
Buan cawn orphwys,
A rhoi'n beichiau lawr, ac arllwys
Ein holl ofid ym Mharadwys.

Ffortun, tan Enw Rhaglunïaeth.

FFortun wych ydyw yr enw,
Ond rhaglunieth gynt oedd hwnnw
Y gelwir duwies ſy'n teyrnaſu,
Ar y ddaear lâs o ddautu,
Fry mae 'n eiſtedd yn yr wybyr,
Yn gweld y pedwar gwynt yn eglur,
A'r holl fyd atti gyd,
Am ymddyrchafu;
Yn ei llygaid oll yn ſyllu,
Am gael derbyn rhyw beth ganddi.

Hitheu'n agor ei thryſorau,
Tannu ei diſglair faith deganau,
Dodi ei wâr o flaen y werin,
Peri i'r gwynt eu rhannu rhyngddyn,
Hwythau'n rhuthro 'mlaen yn eon,
Pawb yn wangcus am gael digon,
Rhoi tan draed fam a thad,
Ceraint a thraſau;
Ffeiriaid yn mynd dros eu Duwiau,
Meibion tros eu têg gariadau.

Ac er ſathru gwych gyfeillion,
Heb drugaredd fel gelynion,
Yn y diwedd myrdd yn ffaelu,
Gymmaint a chael ceiniog ganddi,
Yn lle coron hyfryd freiniol,
Weddai i un o waed yn waddol,
Hwn ni chae ond y gwae,
Trallod a chulni,
A rhyw ddiſgwyl maith am dani,
Yno marw heb ei meddu.

I un arall rhy heb ddiſgwyl,
Gyfoeth mawr tu hwnt i'w feddwl,
Yn ddiſymmwth daw i'w berchen,
Nes rhoi eraill mewn cenfigen;
Fe gaiff ſwydd, neu aur, neu dyddyn,
Neu lywodraeth gwlad, neu fyddin,

Ne

Nes dod i'r lan, y truan gwan,
Egwan ei ddoniau,
'R hwn na feddai enw gynneu,
Dyfg, na deall, na fynhwyrau.

Felly ffortun fy'n teyrnafu,
Neu ragluniaeth dyla'i henwi,
Hi bia fpeilio, ynte rhoddi,
Tynnu lawr a chodi fynu;
Y mae'r ddaear faith a helaeth,
Oll yn lân tan ei llywodraeth,
Hi bia 'r groes chwerw loes,
Hyfryd oes hefyd,
Tlodion, mawrion, henaint, mebyd,
Sydd yn difgwyl ei hwynebpryd.

Minneu fyddaf dawel ddiddig,
Rhoed im' lawer, ynte 'chydig,
'Dyw ei chroefau hi ond ennyd,
Na'i hawddgarwch hwy na munud;
Mi ddewifa 'r tryfor hwnnw,
Mewn cyfammod fydd ynghadw,
Lle nad yw'r groes chwerw loes,
Ddim ond molyfu,
'R goron a gawn i feddiannu,
Pan bo ffortun wedi ffaelu.

Y Byd yn cael ei addoli.

Y Byd yw ef ys yn gofteidio,
Cân fy enaid egwan iddo,
Sy a'i deganau coeg yn rhyw fodd,
O rifedi fwnd y moroedd;
Dyma 'r mwrddwr fydd yn tynnu,
Myrdd o gewri i'w ei garu,
Arf diball gan y fall,
Diwall i dwyllo,
Ffol, a chall fy'n eftyn atto,
Heb yftyried o'u diftriwio.

Pob gwag wrthddrych tan yr haul-wen,
Sydd yn barod yn ei berchen,

I'w preſentio wrth ei 'wyllys,
I rai tywyll dall anſedrus ;
Hwnnw'n gynta 'n barod ganddo,
Nol y natur ſo fe'n demtio,
Dirgel mae ef yn gwau,
Ei rith deg gau rwydau,
Yna eu goſod ar y llwybrau,
Dal ef ſiliwn o ſiliwnau.

Weithiau gwelir e'n ymdrwſio,
Yn yr harddwch ffeina feddo,
Mwy ei rwyſg ei bomp a'i degwch,
Na 'merawdwyr mwya eu harddwch,
Marchog yn ei freiniol gerbyd,
Synn ei wedd a ſiriol hyfryd,
Dw'r a thân, ni ſaif o'i fla'n,
Cyfan y caſodd,
Derfyn eitha dae'r a dyſroedd,
Feibion *Adda* fel y mynnodd.

Fe g'od un i fynydd hawddgar,
Uwcha ei ben o'r nen i'r ddaear,
Ac fe ddengys mewn munudyn,
Dir y Dwyrain a'r Gorllewin,
Tryſor *Ophir*, bryniau'r *India*,
Braſder *Twrci* fawr a *China*,
Os dy fryd roi imi gyd,
Goſyn yn gyfan,
Hynny rof a rhagor rwan,
I'w meddiannu wrth dy amcan.

Golud *Cræſus* fawr ſydd genni,
Glendid *Abſalom* os mynni,
Calon *Hannibal* ddiofan,
Pompey, *Cæſar*, *Dioclefian*,
Rhof it' yſpryd mawr a hyder,
Fel y caſodd *Aleciander*,
Tan dy draed, dref a gwlad,
Hylwydd a helaeth,
Aur a gwiſgoedd, a rheoliaeth,
Ac heb derfyn etifeddiaeth.

Rhif y dail neu'r gwellt̃dd gleiſion,
Y ſer neu ro di riſ yr aſon,
Sy'n ei ganlyn ef o ddynion,
Heb ffael oll o ſod yn ffyddlon;
Yn daroſtwng nos a borau,
Y lleſg a'r glewion ar eu gliniau,
Oll eu gid o'r un fryd,
Truein yn treio,
Fynd am yr agoſa atto,
Diſgwyl derbyn rhyw beth ganddo.

'Nol eu graddau fach a mawrion,
Pawb yn cynnyg iddo roddion,
Oll ſy ganddynt yn eu helw,
Edrych dim yn wyneb hwnnw,
Pawb yn rhoddi iddo eu hamſer,
Dyſg a nerth ac eitha meder,
Pob nwyd ynghyd cariad a llid,
Hyder ac ofni,
Eu holl reſwm a'u goleuni,
Tu ag at ei wir foddloni.

Mae'r 'ſgolheigion am gael enwau,
Clod di drai, ac uchel raddau,
Tryſor, pleſer, a gwag hawddfyd,
Moethau, cwmpai a ſeguryd,
Ac mae 'r annyſgedig yntau,
O'r un meddwl gwael pe medrai,
Oll a'i fryd i gael ynghyd,
Boen-fawr dryſorau;
Pwy a bia eu holl feddiannau?
Ym mhen ychydig bach o oriau.

Mentra 'r morwr i'r yſtormydd,
Bryniau o ddyſroedd cuwch a bronnydd
Tan y donn ac ar ei chefen,
Fyth yn lliwio 'mlaen yn llawen,
A'i fywyd bach yn wir beryglus,
Na dim coel i'w lefter breccus,
Etto 'mlaen hwylio wnaen,
Rowndian i'r *India*,

Ymfod;

Ymfoddloni i bob gwaſgfa,
I gael gweled aur eu gwala.

Fe â'r milwr caled enwog,
Yn erbyn câd o rif y tywod,
Saethau o ddautu iddo 'n hedeg,
Fel y cenllyſg gan mor amled ;
Awydd golud yn ei galon,
Chwant i glod a dod yn eon,
I fynd ymlaen trwy fwg a thân,
Temmeſtl rhuad,
Angeu creulon ond cael cennad,
Dyrr i lawr ei holl ddiſgwyliad.

Pa ſawl dyfais, pa ſawl trefen ?
A chwanegwyd tan yr haul-wen,
I gael golud a gogoniant,
Pleſer moethau maith a llwyddiant,
Y tlawd yr unwedd a'r cyfoethog,
Sydd yn chwennych ac yn chwannog,
I godi i'r lan i ryw fan,
Mae'n gyfan yn goelio,
Caiff ef well happuſrwydd ynddo,
Angeu yn ei ddiſappwyntio.

Tra ſo nerth a llawn ddiwidrwydd,
Yn ymgyrraedd at happuſrwydd,
Sel a dyfais yn cyd dynnu,
Ei perchennog i fodloni ;
'Nol amſeroedd maith o ddiſgwyl,
Oll yn dod ar ol eu meddwl,
Duw o fry yn chwerthin ſy,
Ar yr adeiliad,
Angeu 'n dawel iawn yn dwad,
Aeth ar goll yr holl ddiſgwyliad.

Twyll y BYD.

MEgis lleſtr hen a drylliog,
Ydyw'r byd ar ſôr tymheſtlog,

Pleſer

Pleſer braf yw edrych arno,
Ond peryglus iawn fod ynddo,
Os daw un i maes o'r tonnau,
Ar aſtyllen friwllyd deneu,
Fe glyw ſtwr ar y dw'r,
  Dwndwr yr angeu,
Draw ymbell gan ryw fyrddiynau,
Aeth yn iach i'r lleſtr gynneu.

Beth raid cymmaint poen a gofid,
Wrth a bery ond awr o ennyd?
A phe meddem aur yr *India*,
Perl *Braſil*, a ſidan *Perſia*;
Dyma'r man diwedda 'n henw,
Pridd i'r pridd a lludw i'r lludw,
Dyma ſe yn ei le,
  Gerwyn yn gorwedd,
Dyma ei œd mewn byd o wagedd,
Diarwybod daeth ei ddiwedd.

Uffern gau ei hun ſy 'n gwenu,
Fod plant *Adda* gwedi ynſydu,
Caſglu cyfoeth erbyn angau,
Ac euogrwydd mwy o bwyſau;
Rhoi i briodas, adeiladu,
Noah 'n gwneud ei arch i fynu,
Tyrio 'r donn, caſglu hon,
  Dilyw bron dyfod,
Erbyn bod yr arch yn barod,
Gorfod gado ſwn y ſorod.

A raid i'r henaint ſydd yn darfod,
Ac yn hongian uwch y beddrod,
Fel hen goedydd yrru eu gwreiddau,
Ddyfnach, ddyfnach rhwng y creigiau,
Caru 'r ddaear yn anwylach,
Fel bont atti 'n mynd yn neſach,
Y dwylo hyn gweinion gwyn,
  Crynnion yn crynu,
Etto 'n daer yn ymafaelu,
Am yr hyn ſydd yn eu nychu.

Rhwymo'r awyr las a'i gaſglu,
Beth yw ceiſio'r byd oed hynny!
Chydig iawn ar ddyn ſy'n eiſiau,
A thros ychydig o ſlynyddau;
Pwy mor gynted rhaid im' ado
'R lludw llwyd ſy nawr yn ciddo,
Yr hwn a geis er mawr les,
Gan anian tros eanyn.
Pan galwo hi y mae'n rhaid ſymmud,
A rhoi'm lludw iddi hefyd.

Dyddiau'm mebyd ſydd yn treulio,
Cyn cael ſynwyr a mynd heibio,
A phan delom briſio amſerau,
Prynu deall trwy brofiadau;
Dechre caffael allwedd bywyd,
Dawn a rheſwm, rhinwedd hefyd,
Yno mae angeu yn glau,
Yn dadrys ei ddryſau,
Gwneuthur ffordd ddinag, ddiammau,
Fynd i mewn idd i'w ſtafellau.

Pan bwi 'n edrych ar rifedi
O flynyddau 'nol i gyfri,
Nifer o ryw ffryns yſtyddiau,
O'r un oedran a'r un graddau,
Cryfach nerth, a mwy ſegurud,
Iangach hefyd yn eu bywyd,
Carcus iawn foreu a nawn,
I achub llawn lechyd,
Hwythau 'n gynta wedi ſymmud,
'Rwi 'n rhyfeddu medda 'i ſywyd.

Ffydd

Ffydd ac Anghrediniaeth,

GRAS a Serchiadau NATUR,

Yn cael eu darlunio mewn

CAN BENRYDD.

OH fyd! oh fyd! pa beth wna'i yma'n byw?
Fe ddarfu pleſer, pleſer o bob math;
Ddoe'r oeddwn mewn rhyw faith baradwys deg,
Ond heddyw trowd fi maes o honi'n llwyr.
Mil o bleſerau ddoe fu yn fy rhan,
Ond heddyw feddai'r un o tan y nen:
Mae dyn, mae dâ, mae'r cyfan îs yr haul,
Yn gryno wedi rhoi ffarwel i mi.
Yn awr mae 'm dealltwriaeth fel y môr,
Yn rhuo yma a thraw, un gronyn gwell,
Yn mofyn pleſer, nid oes un i'w gael.

Oes un i'w gael? oes un, di drange di drai,
A hwnnw ſydd yn dod i maes yn llif
O tan yr orſedd, gorſedd wen yr OEN.
Wel, mi obeithiaf ddringo i mewn i'r nef,
A gado 'r llawr, lle nad oes da i'w gael,
Y nef ei hunan ettyb ſy holl wae,
Y nef ei hunan, yno byddaf iach.
Ac os aeth lluoedd maith o'm hannwyl rai,
I maes o'r byd, caf yno eu cwrddyd oll.

Câf

Cáſ yno weld *Ouranus* nefol ddyn,
Fu'n rhodio'n hir trwy'r dyrus anial maith,
Yn cael ei ladd trwy gydol ſaith y dydd,
Ac yn dioddef oll heb rwgnach dim ;
Yn wirion fel yr Oen, heb roddi dant
Am ddant i neb ; end achwyn arno ei hun ;
Na blino dim am groeſau'r byd a'i wae,
Ond edrych ar y goron draw i'r bedd,
A llawenhau yn fynych wrtho ei hun,
Wrth weld ei olaf ddydd yn agoſau.
O'r diwedd daeth y buan rhodd ffarwel ;
Mae'n canu 'nawr ymhlith cynnifer myrdd
O ſeintiau, ac angylion, ag ſy o ſer
Yn chwareu yn yr ehang gloyw las ;
Wedi anghofio'i boen, anghofio'r byd.
Y gwawd, a'r erlyd, a'r ochneidiau triſt,
Hwynt yno oll 'nawr wedi eu troi yn hedd,
Yn gariad, a llawenydd maith di drai,
Ac anorchfygol bleſer, neb nis gwyr,
Ond ſydd yn canu nawr o flaen y faingc.

Oh ! ddedwydd ddyn, mi roddwn ugain mil
O fydoedd ehang, pe baent yn fy rhan,
Am gael bod yna heddyw'r man yr wyt.
Yno mae *Philomela* addfwyn ferch,
Dybygais i mai angel oedd nid dyn ;
A gwedd angylaidd ar ei hwyneb llon,
Yn ſugno holl ſerchiadau'r ſaint o'i hol.
Mi cerais uwch neb dynion is yr haul,
Pe buaſai'n fyw 'r un cwlwm o barhad
O gariad pur di lygredd fuaſai byth,
Ond nawr mae'n fyw, mae'n gorwedd yn y bedd.

Y nef ei hun ſydd yn terfynu gyd,
Bob rhyw droiadau chwerwon is y nen,
Mewn nefol gwſg yn dawel dug hi i'r lan,
Can's addfed oedd i wiſgo 'r goron bur,
A chanu'r delyn aur ei gwaith hi nawr,

O ran

O ran na chaiff neb ſeintiau fyw yn hwy,
Nag bont yn addfed at gwmpeini'r Oen.
Mi gwelai nawr a'i gwiſg fel eira gwyn,
Neu fel yr haul ymhlith y ſer diriſ,
Ymlaena o dorf forwynion llawn o wres,
A fflammau cariad at y Brenhin mawr,
Yn ledio côr nefolaidd gân i'r Oen,
Tu faes i'r ddinas ſanctaidd unwaith fu,
Rhwng dae'r a nef yn hongian ar y bryn.

Oh! wyryf bur na adnabu erioed beth yw
Nifeilaidd dlawd bleſerau cig a gwaed;
Un o gariadau 'r Oen yn ddiſtaw'n byw,
Wedi anhofio 'r byd, a'r byd un wedd
Wedi ei hanghofio hi.———
Fe ddarfu'm hiraeth, ac fe ddarfu'm poen,
Can's nid oes gennyf ddim ond noſwaith ferr,
Cyn etto gael rhan o'i chymdeithas bur.

Ca'i yno weld *Pediſta* aeth i'r bedd,
Cyn gweled haul ar y gyhudedd fawr
Un waith yn croeſi i wneuthur gaia' a haf;
Na'r lloer dair gwaith trwy'r 12 arwydd fynd—
Oh! bur flaguryn, hoff anwyldra ei mam,
A'm gobaith innau; gobaith ſiwr i'm tyb,
O fod yn nerth, yn gymmorth yn y byd,
Im' tra fawn byw, a phan y rhown ffarwel,
I gae fy llygaid, ac i'm rhoi 'n y bedd,
A phara 'n ffrynd i'm henw tra fawn byw,
A chofio tad pan y byddai yn y pridd.

Ond och! rhagluniaeth ddyrus ſydd yn gwau,
Ac megis pe b'ai am ddiddyfnu 'n llwyr,
Y drefn honno a ddyfeiſio dyn,
A rhoi ei phyngciau tywyll anial du
Lawr yn eu lle, i dorri dyn i'r llawr;
Wnaeth oll yn groes! aeth a *Phediſta* fwyn
O gôl ei mam i broſi angeu loes,
Ond daccw hi nawr o flaen yr orſedd fawr,

Ymhlith ſaith ugain mil o ſaint a nîwy,
Ddihangodd yno heb gael gweld yr haul,
Na derbyn dwfr bedydd yma erioed,
Na chael yr enwau roddir gan y byd ;
Ond bedydd oddi mewn a gawſant hwy,
Ac enwau na ddeallir îs y nen ;
Ac wrth fath enwau yno maent yn cael
Eu galw unol ôl at ganiad pur,
Fyth newydd gaingc i'r addfwyn anwyl Oen.
Mae chorph hi yn gorwedd heddyw yn y bedd,
Rhwng muriau o faen a chalch, yn fwyd i'r pryf,
Yn ol ni's daw, af atti 'n fuan iawn.
Caf ran o'i gwely yn ddiſtaw yn y pridd,
Ac yna ni gyfodwn pan del cri
Arch-angel mawr na chlyw'd erioed ei fath,
Nes chwareu holl ſeilfeini 'r ddaear drom,
A'r meirw i glywed, ac ynt godi i'r lan,
Yn lle hiraethu bellach llawenhaf.
Mi rois *Pediſta* i fyw. ———

Wrth lawenhau y mae rhyw ſtorom fawr
O mewn o maes yn dyfod yn eu grym,
Bron curo 'm hyſpryd gwan o tan y dw'r,
Aeth *Eloiſa* i'r bedd ? O addfwyn ddyn !
Addfwynaf ddyn fu ar y ddaear lâs,
O ymddifad fi ! Pa beth wna i yma 'n byw ?
Mae fy anwyl gymmar yno wedi mynd.
Un rhan o'm bywyd, ac un rhan o'm braint,
Cnawd ó fy nghnawd, ac aſgwrn o honof fi.
Nid felly tybiais pan y rhowd ei bys
O fewn fy llaw, pan ddaeth hi gynta i'm rhan,
Ni chofiais am neillduad yn y dydd
Gwnawd yr addunedd, feliwyd hi ag aur,
'Doedd marw'r amſer hyn ond pethau pell,
A chariad, cariad cadarn yn ei rym
Oedd yn teyrnaſu yn unig, ac yn dweud
Y mynnai ei le yn ddi-dorr flynyddau hir.
Ac na ddeu henaint, angeu, poen, na'r bedd,
I'n haflonyddu ddim dros amſer maith.

B'le

B'le mae'r addewid hyn fy rhyfig dwed?
Pan mae fy anwyl *Eloiſa* nawr
Yn cyſgu ac yn pydru yn y bedd.———
Pwy ardal fach o'r byd wnai yn artref im',
B'le bydda'i byw? pwy gyfaill gaſ fi mwy?
'Does dim, 'does dim, fe ddarfu oedd i mi.
'R un hawddgar dawel ddiwair nefol lân
Sy nawr yn ddiftaw obry yn y llwch.
'Does ond och'neidiau ynnwi oll o'r bron,
Rw'i oddi mewn fel môr temmeſtlog cryf,
Yn berwi i'r lan bob munud awr o'r dydd,
Poen, anghrediniaeth, ac anobaith cryf
Sy fel y donn yn dyfod 'n ol y llall.

A dderfydd byth o'm gofid i a'm poen?
A oes dim diwedd ar ochneidiau triſt?
A anghofir byth pan rhoddir ffyddlon un ——
Fo'n gnawd o'm cnawd i orwedd yn y bedd?

Ond taw fy enaid gwagedd yw dy lais,
Dy ochneidiau gwagedd ydynt oll o'r bron.
Pa le mae'r nef? pa le mae IESU 'n byw?
Pa le mae *Eloiſa* nawr ei hun?
Pa le mae'm ffydd? pa le mae'm graſau o'u bron?
Al colli cymmar wna i mi lwfwrhau?
Nag e, mi wela trwy ſpien-ddrych clir,
(O nefol waith) fod *Eloiſa* yn fyw.
Yn fyw mewn gwlad âf finnau cyn bo hir,
Rwi'n gwybod hyn, hi garodd IESU mawr,
Fil mwy na dim teganau îs yr haul.
Mi glywa hyfryd berffaith nefol dôn
Yn awr yn dod o rhwng ei dwylo hi maes,
Oddi ar y delyn aur.———

Rhaid i mi 'mofyn pleſer uwch y nen,
Pob dim ſy 'n hedeg ynaith îs y rhod.
Does genny nawr o ddynion i mi 'n ffryns
Ond *Theophi*', a phan el hwn i'r pridd,
Wel aed y byd ar dân.——

Clyw nefol hawddgar garediccaf ddyn,
Sy'n gwybod holl droiadau'm hyſpryd gwan;
Dwed p'un ai fi neu thi roir gynta i'r bedd?
Nid megis ffrynd rwi yn dy garu di,
Ond fel rhyw ſeraph ddaeth o rhwng y ſer, —
I ngalw i farw, ac i gofio'r bedd.
Bydd daer o flaen y drugareddfa fawr,
Pan clywech ti (cai glywed gan y gwynt,
Yr awel deneu ddwg y gair i maes
O dref *Caerdaf* i *Fon*, a llawer lled)
Fy mod i wedi'm rhwymo yn y fan,
Gan angeu frenhin mawr a'i gleddyf llym,
Heb allael ſyflyd troed, na llaw, na bys,
Yn diſgwyl am yr ergyd ſydd heb ail.
Pa un ai'r cloce ſydd bron a tharo ei awr?
Neu angeu dery yn gyntaf, Duw a'i gwyr,
O na baet yno 'r funud hon fy mrawd,
Docs mo *Maria* yn fyw, hi aeth o'r blaen,
O na baet yno i ddal fy mhen i'r lan,
Mi gongerwn angeu ryw funudau 'n hwy,
A ddeui ddim nawr gyd â mi i'r bedd?
A raid i mi fynd yno wrthyf fy hun?

Taw fy enaid beth yw y meddyliau gau,
Sy 'n llifo mewn fel *Niger* neu *Ddanube*,
Nid ynt eu gyd ond tonnau mawr eu grym, —
O anghrediniaeth, ac O lwſwrhau!
O cred fy enaid, cred yn fuan iawn,
Ac onis credu, â dy nerth yn ddim.
Beth dâl i neb ddod gyd a mi i'r bedd!
A all dynion pur i gadw angeu maes?
A ffrynd a gelyn 'r un peth ynt i mi,
Pan byddo 'r alwad wedi dod i ben.
Os yn *Borneo*, *India*, neu *Japan*,
Neu mewn rhyw ardal bellach caf fi fyw,
A marw yno yn unig wrthyf fy hun;
Pwy achos poen, neu anghrediniaeth mwy,
Nà marw gartref gyd â 'r hwn à'm eâr?

Mi

Mi greda mwy ni ddigalonna i ddim,
Bu Iesu farw, a fy Iesu yw :
Ac fe gas chwerwder angeu yn ei rym,
Daeth holl alluoedd uffern, nef a'r byd,
I wasgu ar enaid tirion addfwyn Oen.
Farwel *Ouranus*, *Rhode*, a *Theophil*,
A *Philomel*, a'm ffryns o gylch y byd :
Yr hen a'r ieuange, byw a'r marw yngbyd,
Ni rown i un o'r graian, graian mân
Heb rif sydd arnynt draw ar fin y môr,
Am gwmpni yr un o honynt yn y pryd
Bo oriau'r nefoedd wedi dod i ben.
Er bod y llif a'r tonnau'n fawr eu grym
Yn y *Iorddonen*, ac mae myrdd o'r byd
Yn ofni gweld ei ddyfroedd draw o bell,
Ond ofni mwy wrth dreio grym ei dwfr.
Mi a trwyddi etto, trwyddi âf yn hy,
Ond i sy Iesu, Iesu mawr ei rym,
Fod wrth fy ochr, 'mafiyd yn fy llaw.
Rwi nawr mewn hwyl yn gwaeddi maes mi âf,
Ffarwel greaduriaid, o bob lliw a llun, [ffryns,
Gwyr, meibion, merched, gwragedd, plant, a
Ffarwel, ffarwel, ni phwysa i arnoch mwy.
Aur a meddiannau holl drysorau'r byd,
Ei barch, a'i enw, darfu i chwi nawr,
Does genni ddim ond Duw ei hun o'm plaid,
A Duw sydd ddigon, mae e'n fwy nâ phawb,
Ac bellach nid oes arnai chwant y nef
Am fod *Pedista* wedi mynd o'r blaen,
Neu *Eloisa* cysaill llawer mwy,
Ond am fod Iesu ei hunan yn y bedd,
Ac am ei fod o fewn y nefoedd fry,
Yn ben ar gynnifer sanct a seraph pur,
Ag sydd o dywod mân ar fin y môr ;
Ac nid sy nghysur yw ymado a'r byd,
Am fod rhyw fyrdd o seintiau draw o'r blaen,
Ond am fod Duw ei hunan yno gyd,
I'w swynhau byth yn ddi drai 'n ddi drange.

Oh! ſſynnon bur o oleuni! Oh! ddidrai
Gyſuron! Oh! anfeidrol unig un!
Dy hunan ydwyt fwy nâ'r nef o'i bron,
Yn fwy nâ'r byd, yn fwy nâ'r moroedd mawr,
Yn fwy nag angeu, ac yn fwy nâ'r bedd,
Tydi wyt ddigon, a dim ond tydi:
Neb ond tydi ni cheiſiaf tan yr haul.
Ti ar y ddaear, ti yn y nefoedd fry,
Tydi yn angeu, a thi yn y bedd.
Wel digon yw i mi dy fod yn Dduw,
Mae pob dedwyddwch ynot ti dy hun,
Cyfoethog, tlawd, a chlaf, a iach ſydd un,
A byw a marw 'r un wedd ynnot ti,
Rhwng nef ac uffern nid oes dim gwahan,
Pe ffammiau 'th gariad ddoi i lanw 'r ail.

Mi gana bellach am yr hyfryd fraint
O golli cyfaill, ac o golli 'r byd,
A gyrru myrdd i mewn o'm blaen i'r nef,
A marw yno yn y man y bwyf.
Nid wyf heb ffrynd, yn awr mae genni Dduw,
Ffrynd ymhob ynys, ymhob dinas fawr,
Ar ben pob mynydd, ar y cenfor glâs,
Yn *Tripoli*, yn *Tunis*, yn yr *Aipht*,
Yn *Abyſſinia*, neu yn *Philippine*,
Yngwlad y *Negroes*, ynteu yn *Peru*,
Ynghanol *Twrci*, yr unwedd ag yn nhre.
Dewch foroedd bellach, rhuwch donnau maith
Rhyngof a'm holl gariadau gwych o'u bron,
Mi gongera angeu yr un wedd heb yr un.
Ar ei allu ef yn unig rwyf yn byw;
Anadlodd daear, yna daear bu,
Fe ddwed wrth angeu, angeu ſaif yn ol,
Ac nis gall angeu ddyfod gam ymlaen.
Mi wela ei wedd yn awr yr ochr draw,
Yn gwiſgo coron, nid y goron ddrain,
Ond coron o ogoniant, ac o glod,
Ac anherfynol gariad, oddi wrth lu
Sy 'n llanw nef y nef.

Daccw

Daccw fy Nuw, O daccw'r un a fu
Tan hoelion llymion unwaith ar y pren,
Ni cheifiaf ddim tu yma neu tu draw
I'r bedd, yn unig ond cael ei fwynhau.

P'le mae fy ffryns? ple mae'm perth'nafau nawr?
P'le ofn angeu? dychryniadau'r bedd?
Ffarwel, ffarwel, ni fedda'i ddyn yn fyw;
Nac un diddanwch gwael ni's ceifiaf mwy.
Ffryns anghrediniaeth ydynt oll o'u bron;
Ffryns pob gwan hyder, a ffryns llwfrhau.
Dihatrwch fi o'r cyfan tan y nef,
A rhowch fi'n noeth o flaen fy Mrenhin mawr,
Fe'm gwifg â'i nerth ynhanol *Chaos* ddu.

Pe d'wedech fod *Fidelia* fyth a lle
A *Chriftopher* hyd heddyw tan fy mron,
Pe dwedech fod tryforau'r gwledydd draw
A thrigfan hyfryd fyth heb fynd i maes,
Fod mil o bethau yn ddirgel tan fy mron,
Nas gwelais i fy hun.———
Fod enw yn ola un o gewri'r byd,
Saif hwn i'r lan pan elo aur yn ddim.

Ai felly mae? O prawf fy nghalon Ior,
Tynn bob adeilad godwyd yma gynt
Yn *Eden* gan y gelyn cyfrwys call,
Yn waftad gyd a'r llawr.——
Na bo un plefer nac un eulun gwael,
Na neb rhyw dduwiau fyth ond ti dy hun,
I gael un mymryn lleia fyth o le,
O fewn y galon a gyfegraift ti,
Yn deml fanctaidd nefol it' dy hun,
Ac yna clod ac anghlod ynt yr un,
Di les yw hwn, diniwaid yw y llall,
Duw yw fy rhan, 'dwi bellach ronyn waeth,
Pe cawn i ugain mil a miloedd mwy
O dryfor anwir o ryw eiriau drwg,
Neu gan ragrithwyr o ryw eiriau da:

A'u

A'u rhoi i'r gwynt a thannu hyn ar lled,
I for y deheu, yr ochor draw i'r lein,
I *Goromandel*, ac i *Malabar*,
Ac i *Magelan*, ac i *Mecsico*,
A dyfod tan *Arcturus* tu a thre,
A dilyn *ANSON*, eilwaith dilyn *DRAKE*;
Fy nerth, fy nghymmorth, a fy nghraig ywDuw.

Pa beth sydd eisiau mwy ar fy enaid gwan?
Mae yma i'w gael mewn iechydwriaeth rad,
Gyfiawnder pur sydd lawer fwy ei led
Na moroedd mawrion sydd yn golchi 'r de;
Cyfiawnder ettyb feiau g'nifer myrdd
Ag sydd o dywod yn y cenfor glâs,
A'u pwys fel bryniau, fwy nâ bryniau'r byd,
Eu gid o blwm.———
Oh! anherfynol iechydwriaeth fawr,
Wyt oll yn un, dy drefnu wnawd cyn byd;
Gorweddaf, hunaf dan dy adain byth,
A doed y drwg a ddel. ———
Gadawaf ddyn, anffyddlon ddyrus ddyn,
Gadawaf aur sy'n rhoddi 'r byd ar dân;
Yn ennyn cariad, ac yn ennyn cas,
Yn dwyn bywydau dynion nif y ser,
Gadawaf enw sydd yn fwy nâg oll,
Rhof fy mysyrdod ar y gwledydd pell,
Ac ar yr oriau byddai 'n mynd i'r bedd.

CERDD

CERDD newydd am Briodas, ſef, *Ymddiddan rhwng* Solinus *aſtudiwr oedd wedi addunedu i' wedd-dod.*—Thalamius *un a'i fryd i briodi.*—Jufentus *llengcyn gweddw heb ſefydlu ei feddwl.*—Ouranius *defeinydd.*—*A* Maritus *gwr priod.*

Jufentus.

POdd bellach bydd in' dreulio ein dyſg a'n doniau ynghyd?
Pa ffordd fydd adeiladol in' fwya fynd trwy'r byd?
Ai'n weddw mewn monachlog, neu fod wrth wraig ynglyn
Ei reſwm a'i brofiadau wel dweded pob yr un.

Solinus.

Mae hynny 'n ddigon eglur mai hawſach yw y gwaith,
Fr yſgafn droed ei hunan fynd trwy'r anialwch maith,
Na chario beichiau trymion digyſur yn ei go'l,
Sef lluſgo gwraig ac eppil trwy'r dryſni ar ei ol.

Thalamius.

Rwi'n credu'n llwyr wrthwyneb, ac mi wnaf hynny'n glir
Trwy yſgrythur y gwirionedd, os ſefwch yma yn hir;
Mai ſanctaidd yw priodas er creadigaeth byd,
Mai 'r cyntaf o ordinhadau, oedd cwplu dau ynghyd.

A bod priodas ſanctaidd o wr a gwraig yn un,
Yn gyſgod o'r briodas rhwng y MESSIAH a dyn;
Mae *Paul* wrth olrhain undeb y cwlwm diwahan,
Yn dweud ei fod yn meddwl am GRIST a'i eglwys lân.

Solinus.

Os oedd priodi *Adda* yn deip o'r marwol glwy',
Nol cwympo 'fu priodas ddim cyſgod o honi mwy;
Nid yw hi nawr ond arwydd rhaid i lygredig ddyn,
Wrth ryw bleſerau eraill heb gwmpni Duw ei hun.

Thalamius.

Pan tynnwyd ar y cyntaf yr aſen tan y fron,
A gwneud creadur menyw hawddgara erioed o hon;
Dangoſodd hyn nad perffaith un gwr o tan y ne,
Nes delo'r aſgwrn hwnnw dracheſen i'w ei le.

Solinus.

Y boreu gwnawd priodas yn dda a hawddgar iawn,
Ond rhyfedd yr yſgariad ddaeth ynddi hi brydnhawn;

Fe

Fe geiſiodd *Adda* briod pan oedd e'n berffaith ddyn,
Yn ſuan hon a'i ſpeiliodd o'i ddoniau bob yr un.

Mae'r unrhyw ddyſais etto wrth ferched *Eſa* ynglyn,
Os gallant ddim ond unwaith ledratta calon dyn;
Hwy tynant ef i wared at ryw bleſerau mân,
I fwytta o bren gwybodaeth waharddwyd iddo o'r bla'n.

Thalamius.

Beth os y wraig a gwympodd ac fu'n y troſedd mawr,
Ond hi a gas addewid o dorri'r ddraig i lawr?
Ac yn y nef oreu-deg bydd myrdd o honynt hwy,
Os daeth hi a melldith greulon hi ddaeth a bendith mwy.

A gwragedd oedd yn canlyn gan weini o bryd i bryd,
Bob peth oedd angenrheidiol i Brynwr mawr y byd,
Hwy ſaf'ſant gyd a'u gilydd yn gryno wrth y groes,
Pan oedd ein Harglwydd hyfryd yn diodde' angeu loes.

Solinus.

Rwi'n adde bod myrddiynau *Thalamius* yn ddible,
Ymhlith holl ferched *Adda* yn teithio tu a'r ne';
Ond beth raid eu priodi pob teulu wrtho ei hun?
Aed meibion gyd a'u gilydd a merched hwythau'r un.

Rhag ofn cael dy dwyllo mae cryfach nwydau a dawn
I dwyllo gan y fenyw nâ gwryw lawer iawn;
O cofia wraig *Jehoram* merch * *Abab* ydoedd hi,
Nid gwell nâ hon o boſibl *Thalamius* fydd i ti.

Thalamius.

Na ddywed yn wrthwyneb i'r 'Sgrythur fawr ei dawn,
Sy'n dwedyd fod priodi ym mhawb yn addas iawn,
Cyfreithlon yw ei phleſer, hardd a ſancteiddiol yw,
Dihalogedig wely yn unig foddia Dduw.

Solinus.

I rai fo'n ynfyd anllad rhyw feddyginiaeth yw,
Lladd pleſer trwy ei wneuthur ac felly'r chwant yn byw
Onte does un gorchymmyn i eraill îs y nen,
I roddi ffwrdd eu gwedd-dod, a chymryd gwraig yn ben.

Thalamius.

Tri diben gwnawd priodas, dibenion goreu'n fyw,
Sef goch'lyd brwnt odineb, a meithrin plant i Dduw,
I gael

* 2 *Bren.* viii. 18.

I gael rhyw gyfeillgarwch mewn hawddfyd mawr didrai
Ac i gael helpu eu gilydd tan orthrymderau a gwae.

Nid oes dibenion beunach nâ rhain o fewn y byd,
Mae crefydd a moefoldeb yn gryno yma 'nghyd;
Dyfgybliaeth gwlad ac eglwys, dyfgybliaeth teulu yw,
Ac does ond annibendod fyth heb y rhai'n o fyw.

Solinus.

Does nemawr yn priodi i feithrin plant i Dduw,
Er pledia pawb ddibenion o ardderchoccaf ryw;
Fe oera 'r cariad cynta yn glau os try y rhod,
A thyna brofedigaeth nad oes o'i bath hi'n bod.

Thalamius.

Mae dau erioed yn gryfach medd *Salomon* nag un,
I wr ymgeledd gymmwys yw gwraig medd Duw ei hun;
Pa fodd cynhefa 'r unig, pan delo llif didrai,
Fe gur y donn ei yfpryd, mae 'n fiwr o lwfrhau.

Solinus.

Nid o's ond chydig donnau ddaw gwrdd â gweddw ddyn
Ar rieni plant gan mwyaf y daw cyfluddiau yn un;
Ac ti gai weld *Thalamius*, nad ydyw gwraig ond gwan
Mewn dyfroedd o gyfluddiau i ddal dy ben i'r lan.

Thalamius.

Mae *Lemuel* ddyfgedig yn ddweud mewn geiriau llawn
Mai gwraig yw'r tryfor goreu, o tan y nef a gawn;
Mai'n well na llong marfiandwyr yn dwyn tryforau mwy
Does neb ond ti *Solinus* neu'th fath fydd hebddynt hwy.

Mai'n well nag aur nac arian, yn well nâ'r moroedd mawr
Yn well na'r holl dryforau fydd yn y dwyrain wawr,
Mai'n well nâ'r perlau goreu, yn well nâ'r beril drud,
Mae menyw 'n well ei hunan nâ'r cyfan yn y byd.

Solinus.

'Dyw honno ond un o gantoedd pe cawn y fath fy hun,
Nis gwaeth er mor anhawfed o fod wrth wraig ynglyn;
Ond gwell fod mewn monachlog heb weled menyw mwy
Nâ chlymmu mewn priodas â rhai o honynt hwy.

A honno fel y defni parhaus yn dod i lawr,
Bob pryd yn dwrf anefmwyth, rai prydiau 'n ftorom fawr
Yn tuchan, yn anfodlon, yn berwi ynddi ei hun,
Yn erbyn rhagluniaethau, yn erbyn Duw a dyn.

Thalamius.

Thalamius.

Anrhydedd ſy i briodas cyſylltu dau ynghyd,
Arferir o'r gorllewin i ddwyrain eitha'r byd ;
Ac nid oes unrhyw ardal ar wyneb daear lawr,
Nad yw priodas ynddi erioed o enw mawr.

Solinus.

Nid gras ſy'n rhai paganiaid ymharthau pella'r byd,
Ond dyfais o fywioliaeth i glymmu dau ynghyd ;
Gan un mae torf o wragedd yn llawer gwaeth eu bri,
Yn *Guini* neu yn yr *India* na ſlafiaid gyd â ni.

Thalamius

O na fydd ffrynd i wedd-dod mae hwnnw'n eanyn greddf
O fyw yn llwyr wrthwyneb i'r ſeithfed gair o'r ddeddf;
Mae'n fammaeth i ſegurdod, pob pleſer yn y byd
Ynghalon llengcyn gweddw lettuant yno ynghyd.

Solinus.

Mae ympryd triſt a gweddi ac argyhoeddiad llawn,
Yn well rhyw feddyginiaeth rhag chwantau o lawer iawn
Priodi ni chwanega fyth o'r diweiriol ras,
Ond f' alle gall ef gadw y tân rhag torri ma's.

Yf ddw'r, a bwytta'n brinnach, a chadw'r melus win,
Fel gallo'r claf a'r clwyfus i'w goſod wrth eu min ;
Bydd ddyſal wrth dy orchwyl, gweddia'n daer am ras,
Ti gedwi nwydau ienctyd fel hyn yn well i ma's.

Thalamius.

Mae gwraig at ddydd o ofid, mae gwraig at ddydd o wae
Mae gwraig at ddal ein hyſpryd rhag iddo lwſwrhau,
Ma'i mewn rhai gorthrymderau ryw brydiau megis cawr
Hi garia 'r gamp ei hunan pan elo'r gwr i lawr.

Solinus.

Ond beth os hi *Dalilah* fydd honno gwymp i'th ran,
Hi dyrr dy wallt, hi'th ſpeilia o'th lygaid yn y man ;
Speiliaſant hwy cyn heddyw (oni buaſai'r arfaeth gu)
Rai cryfach gras a deall o lawer nag wyt ti.

Thalamius.

Os gweddw fyth a fyddaf myfi gaf dreulio 'r nos,
Yn glaf heb unrhyw gymmar i gydymdeimlo'm loes ;
Does neb o'r un diriondeb, does neb o'r yſpryd cun,
Does neb o'r un rhyw gariad ag ydyw gwraig ei hun.

Bydd

Bydd rhai 'n dymuno im' farw, er wylo uwch fy mhen,
Dim cred i gyfneſeified, dim cred i forwyn wen;
'Nol olrain gylch o gwmpas 'rwi'n gwybod nad oes dyn
A'm câr yn well nâ'm cyſoeth, nes caffwi wraig fy hun.

Solinus.

Thalamius taw—ni's gwyddoſt am ofid o un rhyw,
Os gwedd-dod etto'n unig y buoſt ynddo 'n byw;
'Mhen chydig 'nol priodi er cael y lana erioed,
Daw miloedd o gyſtuddiau na's gwyddit ti eu bod.

Thalamius.

Pwy ofnau, pwy amheuon, pwy grynu, pwy neccad?
Pa wenwyn ſy'n dy yſpryd at briodaſol ſtad?
Wel aros di yn weddw, myfi brioda 'n glau,
Di flini fod dy hunan, ti yna 'difarhau.

Heb gennyt neb yn gymmar, na neb fod arno'n ffri,
Na neb o'r unrhyw feddwl yn gyfan fel tydi;
Na neb yn gryno i dderbyn dy holl gyſtuddiau 'nghyd,
A'u dadrus yn ei fonwes yn hyfryd bob rhyw bryd.

Solinus.

Mae'r ddegfed ran yn ddigon i rai o'r glebraidd hil,
Mae'r hanner yn llawn digon i'r oreu un o fil;
Mae ambell un pe dwedit dy feddwl wrthi'n llwyr,
Ti gait yn ol ei ddannod o'r boreu hyd yr hwyr.

Thalamius.

Os rhai ſydd yn dafod-rydd yn dwedyd oll eu gid,
Mae rhai a geidw'th gwnſel tra fyddont yn y byd;
Pwy wyr nas cafi un dyner a'm hargyhoeddo i'n fwyn,
A guddio fy ngweadidau ac fyddo'm beichiau'n ddwyn.

Solinus.

Dwed *Paul* mai da y cyflwr o fod wrth wraig ynglyn,
Ond etto gwell yw cyflwr y ſawl fo heb yr un;
Na phriodi gwraig anynad myfi ddewiſwn fod
Mewn anial fan o'r ddaear na welodd dyn erio'd.

Dewiſwn i fanachlog heb fyth i weld yr un,
A chael y Bibl ſanctaidd yn unig wrth fy nghlyn;
A darllain a gweddio yn waſtad yno cawn,
Heb fenyw byth i'm blino o foreu hyd brydnhawn.

Thalamius.

Yn awr rwi'n teimlo'm hyſpryd yn crwydro yma a thraw
At flodeu têg y rhedeg fy llygaid maes o law;

Rwi bron ſeſydlu meddwl, os câſ ſi un i'm rhan,
Fe ſaif fy ſerch nes marw hi bellach yn y fan.

Ma'i'n hardd, ma'i'n dêg, ma'i'n weddus, ac o raſuſau'n llawn,
Ma'i'n berchen yn ddiammau ar bob rhinweddol ddawn;
Ma'i'n well nâ'r byd ei hunan, 'dwi 'moſyn dim ond hon,
Mae'r meddwl am ei cholli yn angeu tan fy mron.

Solinus.

Na thryſta i'th ſerchiadau mwy anſefydlog y'nt,
Llai coel, a mwy cyfnewid, nag i'r awelau gwynt:
Fe alliſſ' nwydau cariad i fod yn fawr eu grym,
Ac iddynt er mor gryfed o'r diwedd fynd yn ddim.

Ac weithiau bydd eu fflammiau yn rhyw angerddol dân,
Fe chwyth, ſe lyſg, ſe ddifa y cwbl oll o'i fla'n;
Fe ddiffodd mewn munudyn, ac 'nol yr elo lawr,
Fe dry yn oerfelgarwch ac yn gafineb mawr.

Thalamius.

Os byddai 'n berchen cyfoeth trueni i hwnnw fynd,
I un nad yw'n garennydd, i un nad yw yn ffrynd,
I ryw un fy'n hiraethu fy ngweled yn y pri',
Gwell genni'm plant fy hunan i gael fydd gennyf fi.

A phe bawn mewn manachlog yn eſmwyth yn fy mryd,
A chaſglu yno arian fel tywod môr ynghyd;
Fe fyddai fy mherth'naſau fel cigfrain yn y nen,
Yn breſu am fy mywyd cyn deuai'r dydd i ben.

Solinus.

Cymmer dy ran o'th gyfoeth, o hynny dyro ran,
Cyfranna ef yn llawen i'r rheidus ac i'r gwan;
Ac am fo 'n ol wrth farw dy eiddo di nid yw,
Gad iddo fynd yn ddiddig i'r man y mynno Duw.

Thalamius.

Pa beth yw'r hiraeth hynny wy'n deimlo yn ddidrai,
O'm iengctyd am gael cymmar waſtadol i'w mwynhau;
Tybygwn fod yr aſgwrn hyd at y funud hon,
Yn creu puen o gariad, a dynnwyd tan fy mron.

Mae hiraeth ar ol hiraeth yn waſtad yn parhau,
Ac yn fy ochr aſwy tybygwn i y mae;
Mae cariad a chenfigen yn gweithio ynnwi'n un
Ac felly fyth y peru nes cael im' hawddgar ddyn.

Solinus.

Solinus.

Mae hiraeth am briodi yn tarddu'n llif i maes,
Oddi wrth y diffyg hwnnw ſydd o effeithiol ras;
Pan delo cariad IESU i mewn i enaid dyn
Mae'n ſugno'r ſerch a'r meddwl yn gyfan iddo ei hun.

A phrin y gellir arſer pob priodaſol ddawn,
Pe'r cyfryw fai yn boddi ynghariad Duw yn llawn;
'Doedd y pleſerau hynny ddim ym Mharadwys bur,
Ac ni fydd dim o honynt o fewn y fanctaidd dir.

Thalamius.

Na ddywed hyn *Solinus* beth pe bae pawb yn byw,
Mewn gwledd waſtadol loyw o hyfryd gariad Duw,
A fyddai dim priodi? a marw ſyddai gyd?
Darfyddai dynion felly cyn deuai diwedd byd.

Solinus.

Thalamius, beth os erlid ar grefydd bur a ddaw?
A ph'eth os ydyw'r dyddiau peryglus hyn gerllaw?
Dy ofid fydd dau cymmaint ſod gennyt wraig a phlant,
Am hynny rho feddyliau priodi ſyth i bant.

Thalamius.

Pwy bynna ſydd yn edrych ar yr awelon gwynt,
Neu ar gymmylau'n hedeg o ba fath liwiau y'nt;
Fe gwnaeth ei ofnau'n gyfan ddiddefnydd e'n y byd,
Ni heua, ac ni feda, ſe drenga eiſiau ŷd.

Solinus.

O na baet yn yſtyried pa beth yw bod yn dad,
Fath ofal maith dauddyblyg ſy i briodaſol ſtad,
Pa garc, pa gyd-ymdeimlad, pa ofnau diwahan
Fydd yn terfyſgu'th yſpryd am fam a'i gweiniaid mân.

Thalamius.

Taw ffwrdd a'th anghrediniaeth bae gennyt hanner mil,
Mae Duw yn ddigon abl i fwyda'r wannaidd hil;
Rho dro ymmyſg y lili ac edrych wiſg y rhai'n,
Neu cod dy ben i fynu drachefn at y brain.

Am hynny gad fi 'n llonydd mae genni fwy o ble,
I wneud yn ole itti mai priod yw fy lle;
Mae tân o fewn fy mynwes yn ennyn fore a nawn,
Breuddwydia immi fynnoſt mi dreia hyn o ddawn.

OURANIUS, *y Defeinydd.*

Na fryfia ddim *Thalamius* mae gormod o ryw dân,
O fewn dy nattur ynfyd i ddwyn y pwngc ymlaen ;
Mae llais o fewn y Bibl, mae llais gan Dduw ei hun,
Sydd i ti'n gynta i wrandó, cyn mynd wrth wraig ynglyn.

Paid ditheu a bod mor greulon *Salinus* pechod yw,
Gwrthfefyll deddf cyn cwympo mewn natur greodd Duw;
Yn wryw ac yn fenyw y ddau ddyn gynta wna'd,
A Duw ei hun a'u rhoddodd mewn priodafol ftad.

Gan roi gorchymmyn iddynt i arfer hyn o ddawn,
Ar ol cyfylltu a'u gilydd, fef hilio 'r byd yn llawn ;
Y gair mewn ftad ddiniwaid a roddodd Duw i ma's,
Ni alwodd 'nol mo hono tan oruchwiliaeth gras.

Am hyn mae'r memrwn cynta, ac felly y mae'r ail,
Mewn undeb llwyr a'u gilydd yn gofod hyfryd fail,
I briodafau nefol, bo'r ddau ddyn yn ddiball,
Yn caru CRIST yn gynta, a charu naill y llall.

Mae'n arfer er y dechreu, a hi gas cadarnhad,
Bu rai o'r rhai duwiolaf mewn priodafol ftad ;
Prophwydi, Patriarchiaid, a *Phedr* 'Poftol cu,
Fu'n arwain gwraig o ddautu fydd eglur i myfi.

Ond 'dryched dyn pa ddoniau a gafodd gan ei Dduw,
Pa un ai dawn o wedd-dod, ai dawn priodi yw ;
Hyn ŵyr y rhai fancteiddiol gylch o gylch tan y nef,
Derbynfant yr enneiniad oddi wrth ei Yfpryd ef.

Ac nid oes ond ei Yfpryd ddatguddia hyn o ras,
Nid rheſwm a llythyren a chwilia'r peth i ma's ;
Pob cangen fydd yn aros yn y winwydden bur,
A rhei'ny 'n unig ydyw a ffeindia maes y gwir.

Mae miloedd o efnychiaid diniwaid yn y byd,
Gan ddynion wnaethpwyd felly er rhyw ddibenion drud,
Mae miloedd o wrywaid golygus a dinam,
Mor farw ag efnuchiaid i gorph o groth eu mam.

Ac yn yr eglwys fanctaidd mae llawer nwyfus ddyn,
A addunedodd wedd-dod yn ddirgel wrtho ei hun ;
I gael bod mewn gweddiau a myfyrdodau 'nghyd,
Mewn caban neu wyryf-dy a'i yfpryd 'ddiar y byd.

Y cyfryw

Y cyfryw rai a hynny nid priod yw eu lle.
Gwaharddwyd hwynt i gynnyg fath ftad gan Frenhin ne';
Llai fydd eu temtafiynau, llai fydd eu gofal hwy,
A rhagor gânt fyfyrio ar Iefu a'i farwol gliwy.

Ac un o'r nifer hynny *Solinus* ydwyt ti,
Dy le yw bod yn weddw hyd a ddeallaf fi ;
Ond paid a haeru allan y dylai pawb i fod,
'Run feddwl a 'r un amcan a thi o tan y rhôd.

Ni throift ti erioed dy lygad ar degwch wynebpryd,
Mae cariad bron a dallu *Thalamius* oll ei gyd ;
Ti dorrit y gorchymmyn o fod wrth wraig ynglyn,
Fe'i torrai fe *Thalamius* o beidio cym'ryd un.

Jufentus.

Wel rho i mi air o gyngor, mae cyngor yn ei le,
Yn un o'r moddion mwya tycciannol tan y ne' ;
Pa fodd y gwnaf fi ddewis ? does le i ddewis ail,
O bethau mawrion daear y mwyaf tan yr haul.

Ouranius.

'Roedd *Adda*'n cyfgu'n llonydd pan torrodd brenhin ne',
Yr archoll i gael afgwrn wneud cymmar iddo fe,
Mae'n rhaid i tithau gyfgu 'th ewyllys mawr dy hun,
Yr amfer bech ti 'n dewis dy bur hawddgaraf ddyn.

Rhag ofn i gariad cyfoeth yr hwn fy'n fawr ei rym,
Neu gariad cnawd dy dwyllo yr hwn na thal ef ddim ;
'Dyw tegwch ond diwrnod, neu fel blodeuyn llawn,
Fe cerir ef y boreu, damfangir ef brydnhawn.

Rhyw berl yw gwraig rinweddol fiodeuyn gwych ei ryw
Y goreu erioed a dyfodd yn holl greadigaeth Duw ;
Os drwg fydd e'i tu arall nid oes un drwg o'i hail,
O'r drygau mawr aneirif a welwyd tan yr haul.

Duwioldeb raid gael ynddi onte ni thal hi ddim,
Duwioldeb yw ei rhinwedd, duwioldeb yw ei grym ;
O maes boed deg ganolig, mae'n rhaid ei chae' hi'n fiwr
O'i mewn yn deg a fanctaidd, yn ochr fanctaidd wr.

Y cyntaf peth a ddylai i lechu tan dy fron,
Yw gweddi daer i'r nefoedd mae'n fiwr gwrandewir hon,
Amitti gael cydmares a ddelo yn dy law
Trwy bob rhyw demtafiynau i dir y bywyd draw.

Mae gweddi yn fwy na chyngor i ffeindio'r ddyn i ma's,
Mae'n llawer gwell na rheſwm i bwyſo doniau a gras ;
Mae ganthi ryw awdurdod o gwr i'r llall i'r byd,
I ddod o'r de' i'r dwyrain a dynion pell ynghyd.

Ffrwyth arfaeth yw ei gwreiddyn, o ran yr arfaeth rad
A dreſnodd weddi'n ſoddion at briodaſol ſtad ;
Ti gai yr hyn weddiaiſt *Thalamius* na fydd wan,
Ond fallai mai nid honno debygaiſt ddeu i'th ran.

Gweddiodd ef *Eugenius* am gymmar iddo'n rhan,
O'r ardderchoccaf ddoniau a ffeindiodd mewn un man ;
Meddyliodd nad oedd tegwch a graſau maith yn un,
Gan neb ond hi *Sophia* oedd yn ei wlad ei hun.

Ond draw ar hyd *Germania* wrth deithio'r byd ymhell,
Y cwrddodd ef *Eugenius* a chymmar lawer gwell ;
Fe gas *Sophia* farw cyn nabod gwr erio'd,
A da iawn i *Eugenius* oedd felly iddi fod.

Tydi gai reddf o garu'r ſawl roddo'r arfaeth ddrud,
A'i charu yn anwylach na neb o fewn y byd ;
Ac oni elli ei charu, 't'ai 'n berchen aur *Peru*,
Mae'r llais yn ddigon eglur mai d' eiddo di nid yw.

Ymad, ymad yn fuan mae cariad fel y tân,
Yn golofn gref anhepgor o bob priodas lân ;
Gwell i ti bob temheſtloedd i'th gwrdd o'r ddaear hon,
Nag i ti fyth briodi heb gariad tan dy fron.

Ac os i'r nef y gwaeddi foreu-ddydd a phrydnhawn,
Cymhwyſir i'th amgylchiad un o rinweddol ddawn ;
Cai ras, cai oſtyngeiddrwydd a chariad wrth dy glun,
Cai bob rhyw beth attebo dy eiſiau di yn un.

Cai un yn gyfattebol i'th oedran gan dy Dduw,
Cyſylltu hen ac ieuange ei arſer ef nid yw ;
Rhwng ugain oed a thrugain does cariad nemawr iawn,
'Chyttuna haf a gaiaf, na boreu a phrydnhawn.

Cai un yn well na rhedodd i'th feddwl etto erioed,
Uwchlaw gall yſgolheigion i draethu maes ei chlod,
Yn llawer mwy ei rhinwedd, yn llawer llai ei nam,
Na'r hon ganmolodd brenhin a ddyſgodd gan ei fam.

Gwell

Gwell i ti *Fair* na *Martha*, er bod o *Fartha* 'n well
Dybygit at ofalu os byddi di ymhell;
All trafferth blin a gofal trwy eitha 'r dydd a nos,
Ddim i chwanegu'th gyſur ond ſe chwanega'th gro's.

Rhydd *Mair* y blwch o ennaint ei gid i maes o'r tŷ,
I enneinio traed ei Harglwydd heb adael dim i ti;
Fe delir ar ei ganfed, ſe ſydd dy dŷ di'n llawn,
O olew, gwin a gwenith o foreu hyd brydnhawn.

Bydd hi 'n myſyrio'n galed pa rai o blant ei thad,
Sydd ſwya tlawd o ddillad, gylch o gylch 'rhyd y wlad,
Mae'n fynych gyd â'r cleiſion, mae'n ffrynd i bob yr un,
Yn chwareu lle'r offeiriad pan byddo ond ei hun.

Juſentus.

Mae'n well gennai na honno o lawer gael yr un
Mae *Lemuel* y brenhin yn ganmol iddo ei hun;
Sy'n dwyn i mewn dryſorau oddi yma ac o draw,
Ni raid i'w gwr wrth anrhaith ſe 'mddiried ar ei llaw.

Sy'n 'mofyn gwlan o'r ffeina, a llin at weoedd gwell,
Ac megis llong marſiandwr yn dwyn ei bwyd o bell;
Yn codi cyn y boreu, yn ledio ei theulu ei hun,
Cyn gwawrio yn bwyda ei gweiſion, a'i merched bob yr un

Yn 'mofyn tir i'w brynu, a thalu am dano lawr,
A gwaith ei dwylo hefyd yn plannu gwinllan fawr;
Mae yn gwregyſu ei lwynau â gofal ac â grym,
Mae yn cryfhau ei breichiau, does digalonna hi ddim.

Mae'n gweld fod ei marſiandaeth hi'n werthfawr iawn a thlos,
Ei chanwyll nid yw'n diffodd trwy gydol faith y nos;
Un llaw rydd at y werthyd, y gogail ddeil y llall,
Rhan hefyd i'r anghenus cyfranna hi'n ddiball.

Yr hon nad yw ei theulu yn ofni dim o'r rhew,
Mae wedi eu dilladu oll yn y 'ſgarlet tew;
Hi wna iddi ei hun garbedau, a llenni gwerthfawr drud,
Ei gwiſg yw'r ſidan goreu a'r porphor cynnes clud.

Gwr honno fyddai hynod mewn ardderchoccaſ ddrych,
Pan yr eiſteddo i farnu gyd a'r henuriaid gwych;
Hon a wna liain mein-wych, hon wna wregyſau gwell,
A hi a'u gwerth hwy ei hunan draw i'r marſiandwyr pell.

Pan

Pan yr agoro ei geneu yn ddoeth hi ddwed y gwir,
Cyfreithiau trugareddau fydd ar ei thafod pur;
Hi graffa ar ffyrdd y tylwyth fydd oll o fewn y tŷ,
Nid bara o feguryd fydd byth ei bara hi.

Ouranius.

'Dyw *Lemuel* wrth ofod rhinweddau gwraig i ma's,
Yn atteb dim o'r nodau tan oruchwiliaeth gras;
Wrth ganmol gwraig rinweddol ni ddarfu'n Prynwr drud
I ynganu gair o'i enau am un o'r rhai'n eu gyd.

A *Lemuel* ei hunan tan ddodi 'r ffordd mor gul,
Na's gellir ei thrafaelu gan wragedd un o fil;
Sy'n dweud mai fiomgar ffafar, mai ofer tegwch yw,
Ond honno yw'r un oreu og fydd yn caru Duw.

Ac os na fydd hi'n medru na nyddu llin na gwlan,
Fo'n medru cynnorthwyo a chara'r eglwys lân;
Fo a gwres o fewn ei chalon yn wenfflam attynt hwy,
Ag fydd yn ffyddlon garu yr Iefu a'i farwol glwy.

Ac er nas gall hi wisgo ei thylwyth oll yn glud,
Mewn fidan lawnt a felfed, y ffwr a'r fgarlet drud;
Hi tyn hwy etto i wrando pregethau pur y gair,
Gad Dduw i ofalu gartref, wel dyna yfpryd *Mair.*

Hi chwardd ynghanol gofid, hi yrr gyftyddiau 'mhell,
Hi gân mewn gorthrymderau bod ganddi ddinas gwell;
Hi ganmol ei Hanwylyd yn hir cyn codi'r wawr,
Hi'th gadw yn y nefoedd pan b'ech ti ar y llawr.

Hi fag dy blant yn ddiddig yn llawen ac yn rhydd,
Hi dyfg hwy'n foreu rhyfedd yn egwyddorion ffydd;
Hi'th barcha di yn briod, hi'th barcha di yn ben,
Hi'th gar uwch pob creadur a welo hi is y nen.

Mae'r athro o blaid i *Mary*, ag fydd yn gwrando'n brudd,
A *Mary* yn erbyn *Martha* o'r diwedd garia'r dydd;
Mae trafferth heb un fylfaen, 'dyw gofal fyth ond gwan,
A gair yr athro yn unig ddal *Mary* fyth i'r lan.

MARITUS *Gwr priod.*

Yn awr y mae *Rubama* er's trugain lloer ac un,
Trwy rwym priodas gadarn yn gorwedd wrth fy nghlun,
Mewn cariad y priodfom ond 'rwyf yn ofni nawr,
O ran anghydfain dymmer a rhan o bono lawr.

Un

Un dduwiol yw *Ruhama* ac etto ddydd a nos,
I'r ffordd 'rwyf fi am arwein o fywyd mae hi'n gro's;
Ac nid wyf finneu'n gydfein a'i ffordd a'i threfn hi,
Mae rhyw groes dynnu'n fynych oes oes rhwng *Rwui* a mi

'Rwyf fi'n gweddio beunydd am i ni fod yn un,
Os oera cariad unwaith rhyngof a'm hawddgar ddyn,
Fe dyrr fe dyrr fy nhalon, does gyfur yn y byd,
Cans cariad oedd fy niben wrth ei phriodi gid.

Mae rhai yn dweud y tynnwn y briod iau'n ddiball,
Pan delom ni adnabod tymmerau'r naill y llall;
Fel llydnod wedi cyplu pob un ar gylch a fydd,
Yn ledio'r ffordd, yn pori trwy gydol faith y dydd.

Pan dyfgom ninneu eu gilydd medd un difeinydd mawr,
Y dewn ni'n fwy cyttunol, a gwynfyd welai'r awr;
Yn awr 'rwi bron a chredu 'does medlwn o unrhyw,
A'n gwna ni'n berffaith happus ond mwy o gariad Duw.

OURANIUS *Defeinydd.*

Pe gwypech chwi dymherau y naill y llall eu gid,
Ac ufuddhau a chwympo i'w gilydd ar bob pryd;
Os am y byd a'r bywyd tymhorol byddai'ch dawn,
Ac i dderchafu eich hunain fyddech ond anedwydd iawn.

Dau beth raid i ti mofyn y ddau nid yw ond un,
Gras cyflawn i *Ruhama*, gras cyflawn i ti'th hun;
Mae gwr a gwraig bob mymryn fyth fythol yr unfryd,
Pan na bo o flaen eu llygaid ond achos Duw i gyd.

Wel edrych di am hynny pa ddull yr wyt ti'n byw,
Tros bwy 'rwyt yn trafferthu, dy hunan ynte Dduw?
Pa beth yw'r unig neges fydd gennyt yn y byd?
Y mae *Ruhama*'n gwybod dy yfpryd trwyddo gyd.

Am hyn yn daer gweddia, weddioft i ti fydd,
Na bo ond achos IESU i'th lanw nos a dydd;
Na ddigia am ddim ond pechod, ond bydd yn ddiddig iawn
Am holl achofion daear o foreu hyd brydnhawn.

Pan delo hi *Ruhama* i weld dy fod di gyd,
Am bethau uwch y ddaear yn unig a dy fryd,
Hi ufuddha yn union, mae gras a gallu mawr,
I daflu calon gyndyn o uwchder nen i lawr.

Gwafg

Gwaſg ar *Rybama* wedyn ei chael hi yn gyttun,
Fod un peth arni'n pwyſo ſel arnat ti dy hun;
Rho iddi ei ffordd ei hunan am bethau gwael y byd,
Yna yn ol drachefn cai'r cwbl fo'n dy fryd.

'Nawr yn yr achos mwya chwi'ch dau a fyddwch un,
Mewn gweddi, mewn elusen, mewn gwrando yn gyttun;
Fe fydd achoſion daear yn llawer llai eu grym,
Nag byth y gwnan hwy yſgar rhwng eich yſprydoedd ddim.

Fydd bellach un gair chwerw trwy gydol faith y dydd,
Ond rhyw geryddon melus am ddiffyg ſel a ffydd;
Ceryddon pur am bechod, os caled fyddant hwy,
Ni fagant oerfelgarwch, ond magant gariad mwy.

Diwedd yr Argraphiadau Cyntaf.

Hymnau Newyddion,

Na ſu yn um o'r

Tri ARGRAPHIAD Cyntaf.

HYMN I.

TI Iesu ydwyt oll dy hun
Fy meddiant ar y llawr,
A thi dy hunan fydd fy oll
O fewn i'r neſoedd fawr.

Mae nymuniadau maith eu hyd,
Yn pwyntio oll yn un,
Tros bob gwrthddrychiau îs y ſer,
Ac attat ti dy hun.

O ffynnon trugareddau maith,
Diderfyn yw dy raſ!
I roi tryſorau penna 'r nef
I'r tlotta un i maes.

Fy nghyſur unig tan bob gwae,
Dy fod di imi'n Dduw;
Ac yn dy gyſgod mi â trwy
Gyſtuddiau o bob rhyw.

Ac ynot mi ymffroſtia yn hy,
Mod i yn gyſoethog iawn;
Am fod tryſorau maith fy ngras,
Fel ti'n anfeidrol lawn.

Anghyſnewidiol gair y ne',
Ond cyſnewidiol fi;
Am hyn mi ſafa doed a ddel
Mae 'r afael ſicra fry.

HYMN II.

GWell yw'th drugaredd a dy hedd
Nâ'r byd na'r bywyd chwaith ;
Ac nid oes angel gyfri ei werth
I dragwyddoldeb maith.

Ac mae pob peth yn eiddo im'
Heb eifiau, ac heb drai ;
Ac nid oes diffyg ddaw i'r lle
Y caffir dy fwynhau.

Mae pob dymuniad, a phob chwant,
Fyth yno yn eitha llawn ;
Ac yr wi'n tyftio 'does ond Duw,
A'm gwna i yn ddedwydd iawn.

Doed y temheftloedd penna ddel,
Digonol gallu'r ne' ;
A rhued moroedd tros y tir,
Anfeidrol yw efe.

Mi waedda yn y ftorom fawr,
Tan donnau fwy nâ rhi' ;
Ac fe efgynna'm drylliog lef,
I entrych nefoedd fry.

Fe ffy'r tywyllwch wrth fy nghri,
Ynghyfyngderau'r nos ;
Can's nid â'n ofer gais fy Nuw,
A waeddodd e ar y groes.

HYMN III.

YMae holl ddifgwyliau 'r llawr,
Yn fiommi a mynd yn ddim ;
Ac mae gwrthddrychiau'n methu'n lân
Ag oedd yn fawr eu grym.

Ond etto mi ges gafael lawn,
Ar wrthddrych gwell nâ hwy,
Ac na's cyfnewid byth mo'i ras,
I dragwyddoldeb mwy.

Rhyw gariad, a ffyddlondeb maith,
A thrugareddau yn un,
Ydyw yr enwau garodd ef
I roddi arno ei hun.

Fe 'm carodd, ac fe 'm câr i byth,
Doed y troiadau ddel,
Ac fe rowd geiriau ei gariad pur
Yn gryno iawn tan sel.

Am hyn fe gwymp fy meiau o'r bron,
Ond aros gweld y dydd ;
Can's mae cadwynau uffern faith,
Yn ſiwr o fynd yn rhydd.

Fe gollodd chwant ei afael gref,
Mae e beunydd yn gwanhau ;
Ac yn ei golled minneu wyf
Yn hyfryd lawenhau.

HYMN IV.

DOED uffern, angeu, a holl rym
Fy mhechod yn gyttun,
Cryfach, a thrymmach lawer yw
Ffyddlondeb Duw ei hun.

Ac yn eu herbyn gwaedda i maes,
" Yr Arglwydd yw fy rhan ;"
Ac yn ei glwyfau mi ga 'r dydd
Yn hollol yn y man.

Ac mi rof f' angor yma lawr,
Mewn moroedd dyfnion maith ;
Nes im' gael landio yno i'r lan,
I'r wlad o fel a llaeth.

A ellir congcro dwyfol rym ?
A diffodd dwyfol dân ?
Na wna, fe arwain cariad pur
O'r dywyll *Aipht* fi mlaen.

Pan gallir briwio gallu'm Duw,
Torri ffyddlondeb nen,
A thyna'r unig amſer 'r â
Temheſtloedd tros fy mhen.

HYMN V.

TYdi fy Arglwydd yw fy rhan,
A doed y drygau ddel;
Ac er bwgwthion uffern fawr,
Dy gariad ſydd tan ſel.

Oddi wrthyt rhed fel afon faith,
Fy nghyſur yn ddidrai;
O hwyr i foreu fyth yn gylch
Dy gariad ſy 'n parhau.

Uwch pob rhyw gariad îs y nef,
Yw cariad pur fy Nuw;
Anfeidrol foroedd dwfn maith,
Heb feſur arno yw.

Dechreuodd draw cyn creu 'r byd,
Fe bery fyth ymlaen
Heb un cyſnewid, ac heb drai
Pan elo'r byd yn dân.

O dewch a gwelwch, chwiliwch eſ,
Anfeidrol gariad mawr,
Ag ſydd yn maddeu miloedd myrdd
O feiau yn yr awr.

Yn para yn ffyddlon fyth heb drai,
Podd bynna troddo 'r byd;
A phe cymmyſgai tir a môr,
Yr un yw 'm Duw o hyd.

HYMN VI.

PAN delo angeu yn ei rwyſg,
I dorri fy oll i lawr,
Fy unig noddfa werthfawr fydd
Yn fy Ngwaredwr mawr.

Pan y difflanno enwau o'r bron,
A ffrynd, a mam, a thad,
Yr enw hyfryd unig fydd
Yr iechydwriaeth rad.

Fe ſaif cyfammod pur y nef
Pryd hynny yn ei rym,
Pan bo pob cyſur îs y nef
Wedi difflannu 'n ddim.

Y cyfan wedi rhoi ffarwel
A welwyd îs y rhôl,
Yno fy IESU fydd y ffrynd
Anwyla gawd erioed.

O gad im' mewn tangnefedd put
Roi 'm hana'l ola maes,
Ac mewn gorfoledd hwylio tros
Y cenfor garw glâs.

A mynd tan ganu tu a'r wlad
Bwrpaſwyd i mi fyw,
Ac wedi gado mhell o'm hol
Gyſtuddiau o bob rhyw.

HYMN VII.

YMae tryſorau'r dwyfol ras
O lawer uwch eu rhyw,
Nâ dim o'r nefoedd faith i'r byd,
Erioed a greodd Duw.

Tra caffwi yfed ar fy nhaith
O'r ffynnon loyw glir,
Nid ofnai ronyn er eu grym,
O ddrygau 'r anial dir.

Er fod piccellau tanllyd iawn
Yn hedeg yn eu grym,
Yn erbyn cariad dwyfol pur,
Ni's gallant ddrygu dim.

Ac mi ymffroſtia yn nerth y nef,
Yn nerth y nef ei hun,
Fe bwyſa haeddiant dwyfol pur,
Fwy nâ phechodau dyn.

Fe ddygwyd beiau heb ddim rhi
I ben *Calfaria* fryn;
Ac minneu ymolchaf fyth tra fwy
O ſewn y ffynnon hyn.

Anfeidrol ddwyfol gariad rhâd,
Yn unig yw fy ngrym,
Ac nid oes arall fyth a'm dal,
I deithio i'r bywyd ddim.

HYMN VIII.

WEL dyma'r eiddil, dyma'r gwan
Yn griddfan wrth dy draed;
Tu hwnt pob gobaith i gael byw,
Ond trwy dy ddwyfol waed.

Rhiſedi meiau i ſydd dros ben
Pob haeddiant oll o ddyn,
Ac nid oes genn'i yn noddfa im'
Ond haeddiant Duw ei hun.

Mor anobeithiol yw fy mriw,
'Dai moſyn meddyg mwy,
Ond atto ei hunan, ar y pren
Ddioddefodd farwol glwy.

Am iddo yno grymmu ei ben,
A marw ar y groes,
Mwy nâ rhiſedi beiau'r byd
Yw haeddiant dwyfol loes.

Wel dyma'r unig fan y mae
Os oes im' gael iachad;
Ac yma credai os cai rym,
Mewn dynol ddwyfol waed.

Ac

Ac yna gwnaed y ddaear ſawr
Ei gwaetha foreu a nawn,
O fewn ſy noddſa ſanctaidd bur
Y byddai 'n ddedwydd iawn.

HYMN IX.

O Tyred yſpryd ſanctaidd pur,
Nertha 'm blinedig draed,
A rho i mi olwg oleu glir
Ar hyfryd dir ſy ngwlad.

Gad i mi adó yr anial maith,
Gwlad galar, a gwlad gwae,
A myned rhagof tu a 'r tir,
Sy a'i bleſer yn parhau.

'Rwi fel y gwiliwr ar y mur,
Yn diſgwyl bob yr awr,
Am weld yn gwawrio Jubil fwyn,
Fy myddugoliaeth fawr.

Pleſerau 'r ddaear wedi ffoi,
Pob chwantau gyd yn un,
Heb un difyrrwch îs y rhôd,
Ond Iesu mawr ei hun.

A meddwl am gwmpeini 'r nef,
A meddwl am y gwaith
Ag y fydd genni 'n treulio maes
Holl dragwyddoldeb maith.

Ymhlith cwmpeini rif y ſer,
Llawn ddiſglair uwch y nen,
Yn cymmyſg cariad atto ſe,
Fu farw ar y pren.

HYMN X.

A gyfanſoddwyd gan yr Awdwr wrth glywed am Farwolaeth Mr. HARRIES.

MI wela dyrſa draw o'm blaen,
Yn canu ar ben eu taith,
Ac wedi gorphen dryſu 'rhyd
Yr anial garw maith.

'Nol cyfeiliorni ar y dde',
Ac ar yr aſwy law,
Heb un cyfeiliorn maen' hwy nawr,
Yn canu yn beraidd draw.

Fe ddarfu eu rhyfel er ei rym,
Fe ddarfu eu poen a'u gwae;
Ac maent yn yfed heddyw o'r wledd
Dragwyddol ſy 'n parhau.

'Da un o'r nwydau mewn i'r nef
A'u blinodd yn y byd;
Cariad tragwyddol fel y môr
Sy'n llanw yno gyd.

Pob parch, a haeddiant, gras, a dawn,
Pob enw oll o ddyn,
Sydd yno yn hollol ſuddo lawr,
Yn Iesu mawr ei hun.

Mae dyfais parch, mae dyfais clod,
Mae dyfais mynd yn fwy,
A phob rhyw awydd wedi ffoi
Yn lân o'u cwmpni hwy.

Mae Ieſu ei hun yn awr yn fwy,
Nâ 'r cwbl îs y ne',
A'u holl ddifyrrwch fyth a phyth
Yw edrych arno fe.

HYMN

HYMN XI. *Yr Ail* RAN.

MAent wedi anghofio'n lân yn awr
Eu nythau îs y rhôd,
Ac y mae harddwch daear faith,
Megis pe ba'i heb fod.

Does un genfigen ddaw i blith
Y dyrfa hyfryd fry,
Na dim ond nefol faith fwynhau
O gariad IESU cu.

Does neb a hiraeth am un ffrynd
Adawodd îs y rhôd,
Ond maent yn canu i'r Oen ymhlith
Y ffryns ffyddlona erioed.

Wedi anghofio 'r groes a'r gwae,
A thriftwch anial dir ;
Ac heddyw'n yfed cariad rhad,
Fel dwfr gloyw pur.

Dod ynnwi hiraeth IESU mwyn
Am y dragwyddol wledd ;
A rho i mi brofi yma flas
Pleſerau draw i'r bedd.

HYMN XII. *Y Drydedd* RAN.

DARFU dryſu yn y rhwydau,
Aeth pob maglau nawr yn rhydd,
Nid rhyw achub yma ac accw,
Ond rhyw garu heddyw ſydd ;
Nid yw gartre yn y meddwl
Pan yr elo 'r ffyn i maes,
Y mae 'r nef yn peri anghofio
Holl bleſerau'r ddaear las.

Ni ddaw hunandyb na rhyſig,
Na 'r awelon oer o'r bla'n,

Ddim

Ddim i mewn i blith cwmpeini
Ag fy 'n llawn o'r nefol dân :
Nid oes dyn, na dâ, na chyfoeth,
Yno 'n meddu gronyn grym,
Cariad maith yr addfwyn Iesu,
A wnaeth bob peth oll yn ddim.

Maent hwy yno wedi darfod
Ofni yr Iorddonen ddu,
Angeu ag oedd yn croesi eu llwybr
I'r baradwys hyfryd fry ;
Tros brydnhawn y bu wylofain,
Yn y boreu hyfryd aeth-
Ant i mewn gyd â gorfoledd,
I wladwriaeth mel a llaeth.

Cân fy enaid mwy bydd lawen,
Minneu ddof er tonnau maith,
Cyndeiriocca eu rhyw a'u pwysau,
Cyn bo hir i ben fy nhaith ;
Mi gaf orphen dyrus anial,
Mi gaf landio mewn i'w plith,
A chaf fod heb ddim i'm blino,
Yn eu cwmpni dedwydd byth.

HYMN XIII.

TI yw fy Arglwydd I a'm Duw,
Fy noddfa gadarn gref,
Fy unig gysur, fy unig ffrynd,
Fy nghwbl ìs y nef.

Ac attat caiff fy ochneidiau i fynd
Yn aml fel y ser,
Nes d'od diddanwch dwyfol ryw
O fynwes bur fy Ner.

Fe ballodd dyn, fe ballodd dâ,
A'r creadur o bob rhyw ;
Minneu ges deimlo nad oes dim
Im' garu ond fy Nuw.

Mi

Mi rof fy ngofal arno ei hun,
Doed y blinderau ddel;
A'i addewidion gaiff bod im'
Megis y diliau mel.

Ffarwel greaduriaid o bob llun,
Eich cwmpni 'dyw ond gwae,
Rhaid im' gael plefer ag y fy
'N dragwyddol yn parhau.

Ac nid oes onid gallu'm Duw,
A'm dal i i'r lan yn lân,
Ac mi rof arno mhwys a mryd
Ac aed y byd ar dân.

HYMN XIV.

'DYW y blinderau yma fu,
Neu y blinderau ddaw,
Ddim i'w cydmaru â gwobr gras,
Gai feddu maes o law.

Mi 'drycha ar y gwynfyd drud,
Plefera'r byd a ddaw,
Ac mi ddibriffia 'r cyftudd fu,
A'r cyftudd fy gerllaw.

Ni pheru'r byd, a'i rwyfg, a'i rôd,
A'i ofid o bob rhyw,
Ond megis munud at y wledd
Tragwyddol hedd fy Nuw.

Mi ymddifyrra f' oes i maes,
Mewn myfyrdodau maith,
Ar bur blefera *Seion* wen
Sy draw ymhen fy nhaith.

Doed dynion heddyw immi 'n ffryns,
A foru-aent yn gâs;
Ond fy nghyfuron inneu dardd
Oddi wrth dy ddwyfol ras.

A phe

A phe bai 'n gorwedd yn y bedd
Anwylaf ffryns y llawr,
Nid wyf ymddifad tra fo byw
Fy unig Arglwydd mawr.

Y mae e ei hun yn llawer mwy
Nâ'r cwbl yma yn un;
'Rwyf yn gyfoethog uwch pob rhif
Heb ddim ond ef ei hun.

HYMN XV.

MAe hiraeth trwyddwi am fwynhau
Tryforau 'r 'ddewid ddrud,
Ac gallo 'm hyfpryd fynd o war
Blinderau 'r anial fyd.

Fel bo fy ngwleddoedd yn parhau,
Mewn rhyw feddyliau pur;
A chariad hyfryd yn rhoi blas
Ar fwppiau 'r *Ganaan* dir.

A minneu 'n teithio 'mlaen yn gryf,
Trwy 'fonydd mawr eu grym;
Ac er mwrddiwnau o ofnau maith,
Myfi heb ofni dim.

A thyma 'r fan dymunwn fyw
Tan adain brenhin ne';
Ond cael bod yno yfed wnai
O'r cwppan yfodd e'.

Y mae dyfnderau maith ei ras,
Yn abl dal i'r lan,
Fy enaid egwan fydd yn cael
Ei guro ymhob man.

Cryf haed y gwyntoedd fel bo raid,
Cured yr awel gref,
Nid yw 'r temheftloedd mwya maes,
Ond dim i ras y nef.

HYMN

HYMN XVI.

RWI'n chwennych gweld ei degwch ef
Sy uwch pob peth îs y rhod,
Nas gwelodd lluoedd nefoedd bur
Gyffelyb iddo erioed.

Efe yw ffynnon fawr pob dawn,
Gwraidd holl ogoniant dyn;
A rhyw dryſorau fel y môr,
A guddiwyd ynddo ei hun.

Rwyf finneu'n brefu am gael prawf
O'r maith bleſerau ſy
Yn cael eu hyfed heb ddim trai
Gan yr angylion fry.

Mae nymuniadau 'n hedeg fry
Uwch creadigol fyd,
Ac yn diyſtyru 'r ddaear hon
A'i dâ o'r bron i gid.

Fe'm ganwyd i lawenydd uwch
Nag ſy ymhleſerau'r llawr,
I gariad dwyfol gwleddoedd pur
Angylion nefoedd fawr.

O pam nas caf fi ddechreu nawr
Fy nefoedd yn y byd,
A threulio mywyd mewn mwynhad,
O'th gariad gwerthfawr drud.

HYMN XVII.

IESU ti wyt ffynnon bywyd,
Bywyd dedwydd i barhau,
Pob cyſuron îs y nefoedd,
Ynnot ti dy hun y mae;
Nis gall croes, na gwae, na chyſtudd
Wneuthur niwaid iddynt hwy
Gafodd nerth i wnend eu noddfa
Yn dy ddwyfol farwol glwy.

Dyna'r

Dyna'r man na ddaw cnogrwydd,
  Dyfais Satan fyth na chwant;
Awelygef fydd yno'n cadw
  Pob rhyw ddrygau oll i bant;
Nid oes rhuad môr na'i donnau,
  Na themheſtloedd o un rhyw,
Ond rhyw bur dangneſedd hyfryd
  Yn archollion ſ' anwyl Dduw.

Dring fy enaid i'th orphwyſfa,
  Uwch y gwynt temheſtlog oer,
Maes o ſwn rhuadau'r llewod,
  Maes o gyrraedd tonnau 'r môr:
Mi gaf yno tan bob blinder
  Hyfryd dreulio nyddiau maes,
Heb gael briw, na chlais, nac archoll,
  Gan ryw neb elynion cas.

DIWEDD.